# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH,<br>4 CHWEFROR, 2020 am 2.00 o'r gloch yp | | TUESDAY,<br>4 FEBRUARY, 2020 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-

**<u>Y Grwp Annibynnol / The Independent Group</u>**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**<u>Plaid Cymru / The Party of Wales</u>**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**<u>Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents</u>**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**<u>Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party</u>**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Derbyn cyflwyniad gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

4 **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Derbyn cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

5 **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL - 2020/2024** (Tudalennau 1 - 64)

Cyflwyno adorddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU AR GYFER 2018/19** (Tudalennau 65 - 126)

Cyflwyno adroddiad gan y Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

7 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 127 - 132)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolydd Sgriwtini.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 4 Chwefror 2020 |
| **Pwnc:** | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno'r adroddiad er sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth<br>01248 752561<br>CarolWyn@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Ddim yn berthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Er mwyn dangos ein hymrwymiad i brif ffrydio cydraddoldeb o fewn y Cyngor ac yn unol â'n ymagwedd 'Un Cyngor' tuag at ddarparu gwasanaethau, rydym wedi ceisio cynnal cysylltiadau agos rhwng y Cynllun hwn a **Chynllun y Cyngor 2017-2022**, sydd yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]** |

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1 - A oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau:

- ar yr amcanion cydraddoldeb a'r blaenoriaethau sydd wedi'u hadnabod ar gyfer 2020-2024?
- o ran a yw'r Cynllun yn cyfleu'n ddigonol bod hyrwyddo cydraddoldeb yn berthnasol i bawb ar draws y Cyngor?
- o ran a fyddai gweithredu'r blaenoriaethau'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb?

2 - Sut ydych yn bwriadu cryfhau'r broses o ymgysylltu â'r unigolion hynny y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu gwarchod wrth lunio'r Cynllun yn y dyfodol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig, wrth gynnal eu gwaith (a phan fo pobl eraill yn cynnal gwaith cyhoeddus) i ystyried yr angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Ym mis Ebrill 2010, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei bwerau i gyflwyno Dyletswyddau Penodol a nodir y rhain yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) (Cymru) 2011. O dan y Rheoliadau hyn roedd rhaid i bob awdurdod lleol gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Roedd yn ofynnol cynnwys amcanion cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig, sef:

Oed;
Anabledd;
Newid rhyw;
Rhyw;
Beichiogrwydd a mamolaeth;
Cyfeiriadedd rhywiol;
Hil;
Crefydd neu gred;
Priodas a phartneriaethau sifil

Rhaid adolygu'r Cynllun a'r amcanion sydd ynddo o leiaf pob pedair blynedd. Mae'r Cynllun cyfredol - ar gyfer 2016-2020 - yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020, pryd y bydd rhaid cyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer 2020-2024.
Pwrpas y Cynllun yw gosod allan y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau penodol o ran cydraddoldeb.

Mae swyddogion Cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru wedi rhannu arferion da ers blynyddoedd lawer. Yn ystod 2011/12, datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru gyfres o gydamcanion a gytunwyd gan bob partner ac fe adolygwyd yr amcanion hyn i gyd-fynd â pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2016-20. Cynhaliwyd adolygiad arall yn ddiweddar er mwyn llywio ein Cynlluniau ar gyfer 2020-2024. Er mwyn sicrhau bod ein amcanion newydd yn anelu at roi sylw i'r heriadau a osodir allan yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol '*A yw Cymru'n Decach? 2018'*, mae amcanion rhanbarthol y rhwydwaith yn seiliedig ar y chwe thema bywyd a nodir yn adroddiad y Comisiwn, sef:

1 - Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgo**l a llesiant mewn ysgolion yn gwella
2 - Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau**
3 - Byddwn yn gweithredu i wella **safonau byw** pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol
4 - Byddwn yn gwella canlyniadau o ran **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**
5 - Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder**
6 - Byddwn yn cynyddu mynediad i **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

Yn ychwanegol, er mwyn rhoi sylw i fwriad Llywodraeth Cymru i roi'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd ar waith, fe gytunwyd hefyd yr amcan rhanbarthol canlynol:

7 - Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol economaidd** (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen mynd i'r afael â nhw o dan bob amcan.

Er cysondeb, ac yn yr un modd â'r ddau gynllun blaenorol, rydym wedi dewis mabwysiadu'r amcanion rhanbarthol, ynghyd ag un amcan lleol ychwanegol:

8 - Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

Mae **blaenoriaethau drafft** wedi'u hadnabod o dan pob un o'r amcanion uchod a ddylai, ochr yn ochr a gweithrediadau gwella eraill sydd wedi'u hamlygu mewn cynlluniau corfforaethol a gwasanaethau, ein helpu i adeiladu cymdeithas decach i bob un o ddinasyddion Ynys Môn.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn.  Pwrpas yr amcanion a blaenoriaethau cydraddoldeb o fewn y Cynllun yw i gynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â thair nod y ddyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig  a'r rhai nad ydynt

Yn ychwanegol i'r blaenoriaethau a mentrau eraill sydd yn y cynllun, bydd y Cyngor yn cryfhau egwyddorion cyfleoedd cyfartal i bobl o bob cefndir ac amgylchiadau yn ei holl gynlluniau a'i weithdrefnau.

Mae'r asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gael yn Atodiad 2.

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Cyngor.

**8 – Atodiadau**

Atodiad 1 - Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft ar gyfer 2020-2024
Atodiad 2 - Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# 2020 – 2024

DRAFFT

**Mawrth 2020**



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Sut i gysylltu â ni

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu adborth ynglŷn â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Cysylltwch â ni:

E-bost: cydraddoldeb@ynysmon.gov.uk
Ffôn: 01248 752520 / 752561

Gwasanaethau Democrataidd (Cydraddoldeb)
Busnes y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion uchod i gysylltu â ni.

DRAFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Rhagair



Croeso i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Cynllun yn nodi ein dyhead am gydraddoldeb er mwyn adeiladu cymdeithas decach i bob un o ddinasyddion Ynys Môn ac i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus ble gall teuluoedd ffynnu.

Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022 yn nodi ein tair blaenoriaeth bwysicaf:

(1) Creu'r amodau fydd yn galluogi pobl Ynys Môn i ffynnu ac i gyflawni eu potensial tymor hir.
(2) Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.
(3) Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

Rydym yn credu y bydd yr amcanion cydraddoldeb yr ydym wedi eu nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cydweddu â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ac yn ein helpu i'w cyflawni mewn ffordd fydd yn sicrhau bod holl aelodau'n cymuned yn elwa.

Mae'n bwysig nodi y bydd y Cynllun hwn yn cael ei gyflawni mewn hinsawdd economaidd heriol, lle bu'n rhaid i ni wneud arbedion sylweddol yn barod a bydd rhaid i ni wneud mwy o benderfyniadau anodd yn y dyfodol am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a sut yr ydym yn eu darparu. Mae'n anochel y bydd rhai pobl yn cael eu heffeithio fwy nag eraill. Byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i sut mae ein penderfyniadau'n effeithio ar bobl Ynys Môn ac yn gwneud popeth posib i leihau unrhyw effeithiau negyddol yr ydym yn eu nodi.

Wrth gyflawni ei **holl** waith, bydd y Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i sut yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, ein cyfrifoldebau fel cyflogwr mawr ac wrth sicrhau nad yw ein polisïau, gweithdrefnau ac arferion yn camwahaniaethu mewn unrhyw ffordd.

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

DRAFT

| Cynnwys | Tudalen: |
|---|---|


| | |
|---|---|
| Sut i gysylltu â ni | 2 |
| Rhagair | 3 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | 5 |
| Ein Cyngor | 6 |
| Ein Blaenoriaethau | 6 |
| Ein Staff | 8 |
| Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb | 9 |
| Ymgysylltu, ymgynghori a chasglu tystiolaeth | 10 |
| Hyrwyddo cydraddoldeb | 11 |
| Asesu effaith | 13 |
| Cydweithio | 13 |
| Ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 | 14 |
| Monitro Cynnydd | 42 |


DRAFFT



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Pwrpas Deddf Cydraddoldeb 2010 yw sicrhau tegwch ac mae'n diogelu'r nodweddion canlynol (sy'n cael eu galw hefyd yn 'grŵpiau gwarchodedig'):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Nid yw hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gan fod gofynion **Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011** yn rhoi sylw i hyn. O dan y Mesur, rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg. Egwyddorion sylfaenol y Safonau yw na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylid hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Mae'n bwysig cynnwys yr iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig uchod er mwyn annog ymagwedd holistaidd tuag at anghenion pob cymuned wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

### Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol

Mae'r Ddeddf yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol wrth weithredu eu swyddogaethau:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

### Dyletswyddau Penodol

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyfarfod â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi **amcanion cydraddoldeb** a **Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol** o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Hefyd, rhaid cynhyrchu **adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb** erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos sut yr ydym wedi cwrdd gyda'n dyletswyddau cyffredinol a phenodol o ran cydraddoldeb.

## Ein Cyngor

**Strwythur Gwleidyddol –** Mae trigolion Ynys Môn yn cael eu cynrychioli gan 30 o aelodau etholedig (a elwir hefyd yn Gynghorwyr). Prif gorff gwneud penderfyniadau'r Cyngor yw Pwyllgor Gwaith o naw aelod, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn atebol dros ei benderfyniadau i ddau Bwyllgor Sgriwtini. Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau gwleidyddol y Cyngor, gan gynnwys manylion am ein pwyllgorau a dyddiadau cyfarfodydd, ar wefan y Cyngor.

**Strwythur Rheoli –** Daeth strwythur rheoli strategol newydd i rym ym mis Awst 2019, gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a phum Cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb am:

- Busnes y Cyngor
- Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
- Lle a Llesiant Cymunedol
- Adnoddau
- Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae pedwar Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am:

- Plant a Theuluoedd
- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
- Tai
- Trawsnewid ac Adnoddau Dynol

## Blaenoriaethau'r Cyngor

### Cynllun y Cyngor 2017-2022

Nod y Cyngor, fel y nodir yn ein Cynllun y Cyngor, yw y byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus ble gall teuluoedd ffynnu. Er mwyn diwallu'r nod hwn, amcanion y Cyngor ar gyfer 2017-2022 yw:

(1) Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.

(2) Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

(3) Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi:

- **Dogfen Gyflawni Flynyddol** sy'n rhoi sylw i'r gwaith a wneir gennym i wireddu'r targedau a nodir yng Nghynllun y Cyngor


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

- **Adroddiad Perfformiad Blynyddol** sy'n edrych ar berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau a nodir yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer yr un flwyddyn.

### Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd 2018

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i sicrhau fod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Hefyd, roedd y Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyhoeddi Cynlluniau Llesiant yn amlinellu sut roeddent yn bwriadu gwella llesiant trigolion yr ardal. Mae Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd wedi'i seilio ar ddau amcan, gyda chwech o flaenoriaethau y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio arnynt i wireddu'r amcanion hyn:

(1) Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus yn y tymor hir
- Yr iaith Gymraeg
- Cartrefi ar gyfer pobl leol
- Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau
- Effaith newid hinsawdd ar lesiant ein cymunedau

(2) Trigolion sydd yn iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da
- Iechyd a gofal oedolion
- Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc.

Bydd yr amcanion a'r blaenoriaethau uchod yn cyfrannu tuag at daclo anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a'r rhai difreintiedig.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Hwn yw trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ac mae'n dangos ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb. Mae'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb strategol, ein rhesymau dros eu dewis a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

Er mwyn dangos ein hymrwymiad i brif ffrydio cydraddoldeb o fewn y Cyngor ac yn unol â'n ymagwedd 'Un Cyngor' tuag at ddarparu gwasanaethau, rydym wedi ceisio cynnal cysylltiadau agos rhwng y Cynllun hwn a **Chynllun y Cyngor 2017-2022**, sydd yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor.

## Ein Staff

### Gwybodaeth am gyflogaeth a gwahaniaeth rhwng cyflogau

Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i’r egwyddor o gyfle cyfartal a thrin pob aelod o staff yn gyfartal. Mae ganddo bolisi clir o dalu tâl cyfartal i weithwyr am yr un gwaith, neu waith cyfatebol, ac mae’n arfarnu swyddi a graddfeydd cyflog yn ôl yr angen er mwyn sicrhau strwythur teg.

Mae’r Cyngor yn ymdrechu’n barhaus i gasglu gwybodaeth gywir am y gwahanol nodweddion gwarchodedig. Er bod hawl unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol yn cael ei dderbyn, mae angen darlun mwy cyflawn i’n helpu i nodi unrhyw anghyfartaledd rhwng pobl sydd â gwahanol nodweddion. Yn 2018, cyflwynodd yr Awdurdod nifer o newidiadau yn y ffordd y mae’n casglu data, mewn ymgais i gael mwy o ddata am staff presennol a gychwynnodd eu swyddi cyn i’r system hunanwasanaeth gael ei chyflwyno.

Byddwn yn parhau i roi sylw i hyn trwy’r gweithredoedd yr ydym wedi eu nodi dan amcan cydraddoldeb 2 – Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg ac yn lleihau’r bwlch cyflog (tudalen 19).

Mae’r wybodaeth gyflogaeth sydd ar gael i’r Cyngor ar hyn o bryd, gan gynnwys adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2019, yn cael ei amlinellu yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol am 2018/19.

### Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg ein gweithlu

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu a datblygu er mwyn eu galluogi i berfformio i’w llawn botensial. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd bod pobl ar draws y Cyngor yn gwybod am y dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Rydym wedi mynd i’r afael â hyn trwy ein maes blaenoriaeth ‘mae rhaglen hyfforddiant staff yn ei lle i sicrhau bod gan y staff iawn y sgiliau iawn i ddarparu gwelliannau cydraddoldeb’ (Blaenoriaeth 8.1 – tudalen 38).


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb

Mae’r Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb o fewn ystod eang o gynlluniau a strategaethau corfforaethol a gwasanaeth, sydd ar gael ar ein gwefan. Mae copïau papur neu gopïau mewn fformatau eraill ar gael hefyd ar gais – defnyddiwch y manylion cysylltu ar dudalen 2 i gysylltu â ni.

Gellir gweld gwybodaeth cydraddoldeb perthnasol o dan pob amcan cydraddoldeb yn y Cynllun hwn, yn ogystal â’r data rhanbarthol ac adroddiad tystiolaeth – Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru (gweler yr adran ar ymgysylltu, ymgynghori a chasglu tystiolaeth ar y dudalen nesaf am ragor o fanylion).

Mae’n rhaid i gasglu gwybodaeth berthnasol fod yn broses barhaus.  Byddwn yn parhau i wneud hyn trwy ymgysylltu lle bynnag y bydd yn bosibl er mwyn cael gwell dealltwriaeth o faint, natur a chymhlethdod yr holl grwpiau gwarchodedig yn Ynys Môn.

Rhoddir gwybodaeth allweddol am boblogaeth Ynys Môn isod.

- Yn ôl yr amcangyfrifon ar 30 Mehefin 2018, roedd poblogaeth Ynys Môn yn 69,961.

- Yn y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd gostyngiad o 0.3% (180 o bobl) ym mhoblogaeth Ynys Môn.

Ar 30 Mehefin 2018:

- Roedd 49.2% yn wrywaidd a 50.8% yn fenywaidd.

- Roedd 25.7% dros 65, o gymharu â 20.8% ar draws Cymru.

- Roedd 17.2% yn blant 0-15 oed, o gymharu â 17.9% ar draws Cymru.

Yn ôl Cyfrifiad 2011:

- Roedd 98.2% yn wyn o gymharu â 95.6% ar draws Cymru

- Roedd 0.7% yn perthyn i grŵp ethnig cymysg/aml-ethnig, o gymharu â 1.0% ar draws Cymru

- Roedd 0.7% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, o gymharu â 2.3% ar draws Cymru

- Roedd 0.1% yn Ddu/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig, o gymharu â 0.6% ar draws Cymru

- Roedd 0.3% o grŵp ethnig arall, o gymharu â 0.5% ar draws Cymru

- Roedd 57.2% o bobl yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â 19.0% ar draws Cymru.

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegol Gwladol* (Infobase Cymru).

DRAFT

## Ymgysylltu, ymgynghori a chasglu tystiolaeth

Er mwyn datblygu'r Cynllun hwn a dewis amcanion cydraddoldeb a blaenoriaethau newydd, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol a gasglwyd o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys:

- Digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol a gynhaliwyd ar 28 Mai 2018 gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (y Rhwydwaith*)

- Gweithdy swyddogion y Rhwydwaith a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2019 i adolygu'r amcanion cydraddoldeb rhanbarthol – gweler 'cydweithio' ar dudalen 13 am fwy o fanylion

*Grŵp o swyddogion cydraddoldeb yw'r Rhwydwaith, o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r grŵp wedi bod yn cydweithio ers 2010 pan ddaeth y Ddeddf Cyfraddoldeb i rym.

- Ymgysylltu lleol yn ystod cyfarfod o'r Rhwydwaith Llesiant a gynhaliwyd gan Medrwn Môn ar 25 Medi 2019

- Dadansoddiad o ddata lleol a rhanbarthol, gan gynnwys *A yw Cymru'n Decach? 2018* ac adroddiad data a thystiolaeth ranbarthol - *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*.

Comisiynwyd yr adroddiad *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru* gan rwydwaith Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru er mwyn cael dealltwriaeth fwy trylwyr o ddata cydraddoldeb ar lefel leol. Mae'n ychwanegu at y data a'r canfyddiadau yn "A yw Cymru'n Decach?" ac yn canolbwyntio ar wybodaeth fwy manwl sydd ar gael ar lefel Gogledd Cymru ac ar lefel mwy lleol, os yw ar gael.

Fe rannwyd ein hamcanion drafft gydag aelodau Rhwydwaith Llesiant Ynys Môn, ynghyd â rhanddeiliad eraill, am sylwadau. I'r dyfodol, y gobaith yw adeiladu ar y model ymgysylltu hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion lleol.

## Hyrwyddo cydraddoldeb

Mae’r paragraffau a ganlyn yn rhoi rhai enghreifftiau o faterion a godwyd yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu lleol yn ddiweddar a’r hyn yr oeddem eisoes yn ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb yn y meysydd hyn:

Amlygwyd pwysigrwydd **cludiant hygyrch** i’r rhai sydd â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau yn ystod yr ymgysylltu rhanbarthol a lleol. Mae’r Cyngor, ei bartneriaid a grwpiau cymunedol yn cynnig gwasanaethau cludiant gyda chymorth ar draws Ynys Môn. Mae enghreifftiau’n cynnwys:

- Cludiant Cymunedol Môn – maent yn darparu cludiant ar gyfer pobl anabl na allant ddefnyddio cludiant cyhoeddus
- Y Groes Goch Brydeinig – maent yn darparu cludiant a gwasanaeth i gynorthwyo pobl na allant ddefnyddio cludiant cyhoeddus confensiynol
- Medrwn Môn – maent yn gweithredu Car Linc Môn, cynllun cludiant cymdeithasol gwirfoddol ar gyfer teithiau hanfodol
- Cynlluniau Tro Da – cynlluniau cludiant cymunedol lleol sy’n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr sydd yn defnyddio eu ceir eu hunain i gludo pobl nad oes ganddynt gludiant arall ar deithiau byr a chanolig

Mae ‘Cyfeiriadur Cludiant Cymunedol Môn’ defnyddiol ar gael ar wefan Medrwn Môn yn https://cy.medrwnmon.org/cyfeiriadur-cludiant-cymunedol

Cafodd yr angen i greu **cyfleoedd gwaith** i bobl sydd ag anawsterau dysgu – a phwysigrwydd canolbwyntio ar sgiliau yn hytrach nag anawsterau’r unigolyn – ei grybwyll yn ystod yr ymgysylltu lleol. Sefydlwyd grŵp prosiect mewnol yn y Cyngor i nodi cyfleoedd addas ac i geisio paru’r cyfleoedd hyn gydag unigolion sydd wedi mynegi diddordeb mewn gwaith gwirfoddol.

Mae’r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn prosiect ar gyfer pobl ifanc â namau dysgu i’w paratoi ar gyfer gwaith drwy roi ystod o sgiliau trosglwyddadwy iddynt a darparu cyfleoedd profiad gwaith. Mae’r Prosiect SEARCH yn raglen genedlaethol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd y darparwr GIG cyntaf yng Nghymru i gynnal y prosiect, gyda lleoliadau yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Y nod cyffredinol yw sicrhau swyddi gyda thâl i’r rhai sy’n cwblhau’r prosiect ac mae nifer ohonynt wedi bod yn llwyddiannus.

Yn lleol tynnwyd ein sylw at bwysigrwydd dod â chymunedau ynghyd er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd a sicrhau bod pobl yn gwybod am yr help sydd ar gael iddynt. Mae sicrhau bod **hybiau cymunedol** ar gael ar draws yr ynys i gynorthwyo oedolion hŷn i aros yn annibynnol, lleihau arwahanrwydd, aros yn actif a gwella llesiant personol yn flaenoriaeth yng **Nghynllun y Cyngor 2017-2022**. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda Medrwn Môn i hwyluso Cynllunio Lle o fewn cymunedau Ynys Môn. Y nod yw galluogi cymunedau i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth o'u hardaloedd eu hunain. Mae cynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol (gweler tudalen 7).

Cafodd yr angen **i ddarparu cefnogaeth addas i ofalwyr** a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r help sydd ar gael iddynt – ei godi ar draws themâu y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod gweithgareddau ymgysylltu lleol a rhanbarthol mwy diweddar. Yng Nghyfrifiad 2011 dywedodd ychydig dros 8,000 (12%) o drigolion Ynys Môn eu bod yn darparu gofal yn ddi-dâl bob wythnos.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cydnabod bod angen cefnogi gofalwyr yn y rôl hanfodol hon. Mae hyn wedi arwain at sefydlu Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru sydd wedi datblygu Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru. Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr drwy gydol eu cyswllt gyda gwasanaethau. Yn lleol, sefydlwyd is-grŵp ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd i ddatblygu cynllun gweithredu i symud y strategaeth ymlaen.

## Asesu effaith

Mae’r Cyngor yn cydnabod y gofyniad statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb a bod cynnal asesiadau cadarn yn ffordd effeithiol o sicrhau bod unrhyw feysydd posib o anghydraddoldeb yn cael eu nodi ac yn cael sylw prydlon.

Cafodd sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr awdurdod o ran cwblhau asesiadau effaith (EIA) effeithiol ei nodi fel blaenoriaeth yn ôl yn 2011/12. Drwy gydol yr amser hwn, rydym wedi bod yn datblygu ein trefniadau’n barhaus, gyda’r nod o brif ffrydio’r broses hon i’r gwaith dydd i ddydd a wneir gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd o ran sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor. Mae blaenoriaeth 8.2 ar dudalen 40 yn nodi’r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i ddatblygu ein prosesau corfforaethol ymhellach.

## Cydweithio

Mae swyddogion Cydraddoldeb yn y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi bod yn rhannu arfer dda ers nifer o flynyddoedd. Yn ystod 2011/12, datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru set o amcanion ar y cyd a gytunwyd gan yr holl bartneriaid. Adolygwyd yr amcanion i gyd-fynd â pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 a chynhaliwyd adolygiad pellach yn ddiweddar fel sail i’n Cynlluniau ar gyfer 2020-2024.

O ganlyniad i’r adolygiad diweddar, daeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i’r casgliad bod nifer o’r rhwystrau y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu yn rhai sy’n bodoli ers tro byd ac wedi hen sefydlu ac fe gymer gryn amser i roi sylw llawn iddynt. Felly, yn fras, mae ein hamcanion newydd yn dilyn yr un themâu ag a ddewiswyd ar gyfer 2016-2020.

Er mwyn sicrhau cysylltiad clir rhwng ein hamcanion rhanbarthol newydd a’r heriau a nodir yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ‘A yw Cymru’n Decach?’ 2018, mae geiriad amcanion Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ar gyfer 2020-2024 yn seiliedig ar y chwech thema bywyd a nodwyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sef:

- Addysg
- Gwaith
- Safonau Byw
- Iechyd
- Diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder
- Cyfranogiad

Dewiswyd amcan rhanbarthol ychwanegol i fynd i’r afael â chynnig Llywodraeth Cymru i weithredu’r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd maes o law.

DRAFT

## Ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024

Yn yr un modd â'n dau Gynllun cyntaf, rydym wedi dewis mabwysiadu'r amcanion rhanbarthol yn ogystal ag un amcan lleol ychwanegol i 'wella gweithdrefnau'r Cyngor i sicrhau tegwch i bawb'. Nodir isod ein hamcanion ar gyfer y pedair blynedd nesaf:

| | |
|---|---|
| Amcan 1: | Bydd canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgol** a llesiant mewn ysgolion yn gwella |
| Amcan 2: | Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw **fwlch mewn cyflogau** |
| Amcan 3: | Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion gwarchodedig |
| Amcan 4: | Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol** |
| Amcan 5: | Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder** |
| Amcan 6: | Byddwn yn cynyddu mynediad at **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth ein **penderfyniadau** |
| Amcan 7: | Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i roi sylw iddynt o dan bob un o'n hamcanion. |
| Amcan 8: | Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** i sicrhau tegwch i bawb |

Mae'r tudalennau a ganlyn yn esbonio pa flaenoriaethau rydym wedi'u dewis, pam y'u dewiswyd a sut yr ydym yn bwriadu gweithio tuag at eu cyflawni.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw ein hymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i gyfyngu i'r blaenoriaethau sydd yn y Cynllun hwn. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i symud cydraddoldeb ymlaen trwy ein gwaith ar bob lefel yn y Cyngor er mwyn ein cynorthwyo i adeiladu cymdeithas decach i'n holl ddinasyddion.



DRAFT

## **Amcan 1:** Mae canlyniadau o ran **cyrhaeddiad Addysgol a llesiant mewn ysgolion** yn gwella

## **Blaenoriaeth 1.1**: Byddwn yn lleihau'r **bwlch sydd rhwng y gwahanol grwpiau o ran cyrhaeddiad addysgol**

### Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?

Yn ôl *A yw Cymru'n Decach? 2018* , mae bylchau cyrhaeddiad, ar lefel TGAU, yn parhau mewn perthynas â disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae data ar gyrhaeddiad plant oedran gadael ysgol yng Ngogledd Cymru (*Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*: adroddiad data a thystiolaeth) yn nodi:

- Yn ôl rhyw, cyflawnodd 58.5% o ferched yng Ngogledd Cymru y Trothwy Cynhwysol Lefel 2[1] o gymharu â 45.9% o fechgyn. Mae canlyniadau ar gyfer 2017/18 yn dangos mai Ynys Môn oedd â'r bwlch mwyaf rhwng y rhywiau yng Ngogledd Cymru, sef 19.2%.

- Yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol, cyflawnodd 57.9% o ddisgyblion Gogledd Cymru nad oeddent yn hawlio Prydau Ysgol Am Ddim (FSM) y Trothwy o gymharu â 27.8% o'r rhai a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim. Ar 23.8%, Ynys Môn oedd â'r bwlch isaf yng Ngogledd Cymru ond mae dael angen ei wella.

Dylid nodi y bydd mesur newydd yn cymryd lle'r Trothwy Cynhwysol Lefel 2 o'r flwyddyn nesaf ymlaen, sef Sgôr 9 wedi'i gapio.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Cynnal perfformiad disgyblion sydd â gofynion dysgu ychwanegol ar lefel TGAU fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol. | Parhaus |
| Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched sy'n cyflawni Sgôr 9 wedi'i gapio ar adeg gadael ysgol, lle mae'n fwy na 10% a pharhau i fynd i'r afael â'r mater hwn ar draws pob ysgol. | Parhaus |
| Gweithredu cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth ym mherfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. | Parhaus trwy ddefnyddio cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol ar lefel ysgol unigol. |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Oed (gan gynnwys plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig), Anabledd, Rhyw.

[1] Mae Trothwy Cynhwysol Lefel 2 yn golygu 5 TGAU graddfa A* - C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg neu gymwyster cyfatebol.



DRAFT

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng gwahanol grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys bylchau sy'n codi oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Dysgu (gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol

DRAFFT

## **Amcan 1:** Mae canlyniadau o ran **cyrhaeddiad Addysgol a llesiant mewn ysgolion yn** gwella

### **Blaenoriaeth 1.2**: Byddwn yn lleihau **bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn addysg**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Yn ôl *A yw Cymru'n Decach? 2018*, mae'r rheini sydd ag anghenion arbennig neu anabledd, disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDT) a'r rheini o leiafrif ethnig neu gefndir crefyddol mewn perygl penodol o gael eu bwlio; mae seiberfwlio hefyd ar gynnydd.

Roedd bwlio ar sail hunaniaeth yn nodwedd amlwg iawn yn ystod ymgysylltiad ar lefel ranbarthol a lleol ac mae hyn wedi bod yn wir ers ein Cynllun cyntaf yn 2012. Yn rhanbarthol, pryder a godwyd yn gyffredinol oedd nad oedd ysgolion efallai'n ymwybodol o dueddiadau diweddar ac efallai nad oes ganddynt yr adnoddau i nodi a mynd i'r afael â phroblemau. Yn lleol, dywedwyd wrthym fod bwlio ar-lein yn broblem benodol a bod bwlio hefyd yn digwydd i blant ifanc iawn, ond nid yw bob amser yn cael ei gydnabod felly.

Yn ein Cynlluniau blaenorol, dywedasom y byddem yn datblygu gweithgareddau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ganllaw gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru yn 2011, *Parchu Eraill* , ac adroddiad 2014 Estyn, *Gweithredu ar Fwlio.* Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y broblem yn bell o fod wedi'i datrys. Yn ddiweddar, cafodd canllawiau Llywodraeth Cymru i herio bwlio mewn ysgolion, *Parchu Eraill,* eu diwygio ac mae'r canllawiau newydd – *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb* – ar gael ers 6 Tachwedd 2019.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd |
|---|---|
| Cynorthwyo ysgolion i weithredu argymhellion canllawiau Llywodraeth Cymru, *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb.* | Parhaus |
| Cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol. | Bob blwyddyn – mis Hydref |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mae'r Cyngor wedi cael sicrwydd bod ysgolion yn gallu dangos eu bod yn cymryd camau i herio bwlio a throseddau casineb, mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol a gwella llesiant.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Dysgu (gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol)


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

DRAFT

## **Amcan 2:** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau**

### **Blaenoriaeth 2.1**: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran **prosesau recriwtio, cadw staff, hyfforddiant a dyrchafiadau.**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithwyr a gyflogir yn derbyn triniaeth llai ffafriol ar sail unrhyw nodwedd a ddiogelir na'u bod dan anfantais ychwaith oherwydd amodau neu ofynion nad oes modd eu cyfiawnhau. Rydym yn cydnabod fod glynu wrth ein polisïau a'n harferion cyflogaeth yn gwneud y defnydd gorau o unigolion er budd gorau'r sefydliad a gweithwyr.

Un enghraifft yw ein polisi ynghylch yr hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg. Cafodd hyn ei nodi fel blaenoriaeth o'r cychwyn cyntaf yn ein Cynlluniau blaenorol ac atgyfnerthwyd ei bwysigrwydd yn ystod ein sesiwn ymgysylltu leol yn ddiweddar, pan ddywedwyd wrthym fod trefniadau gweithio hyblyg yn hanfodol i chwalu'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag cael gwaith.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Ymdrechu'n barhaus i ddatblygu strategaethau pellach i gynorthwyo staff i weithio'n hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mae patrymau gwaith gweithwyr, ble bynnag y mae hynny'n bosibl, yn cael eu haddasu i'w cynorthwyo i gyfuno gwaith a blaenoriaethau eraill tra'n rhoi i'r Cyngor yr hyblygrwydd i ddarparu gwasanaeth sy'n fwy integredig ac ymatebol.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Trawsnewid Corfforaethol – Adnoddau Dynol.

## **Amcan 2:** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau**

### **Blaenoriaeth 2.2**: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw **fylchau cyflog rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal a thriniaeth gyfartal i'r holl weithwyr. Mae ganddo bolisi clir o dalu'r un cyflog i weithwyr am yr un gwaith neu waith cyfatebol ac mae'n gwerthuso rolau swyddi a graddfeydd cyflog fel sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau strwythur teg.

O ran y bwlch cyflog **rhwng y rhywiau** , roedd bwlch cyflog rhyw cymedrig y Cyngor o 10.2% yn 2018 yn welliant o gymharu â 2017 (12.7%) ac roedd yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer yr economi gyfan, sef 17.1% (SYG 2018). Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau'r bwlch hwn a bydd yn parhau i adrodd yn flynyddol ar yr hyn y mae'n ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw gynnydd pellach.

Mae'r Cyngor yn ymdrechu'n gyson i gasglu gwybodaeth gywir sy'n ymwneud â **gwahanol nodweddion gwarchodedig**. Tra'n derbyn hawliau unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol, mae angen darlun llawnach i'n helpu i nodi unrhyw anghydraddoldebau rhwng pobl â nodweddion gwahanol. Rydym eisoes wedi nodi ar dudalen 8 ein bod eisoes wedi cyflwyno newidiadau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gael gwybodaeth fwy cyflawn er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'n staff ar sail y dystiolaeth a gasglwyd.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Parhau i annog mwy o staff i ddarparu gwybodaeth bersonol fel y gall yr Awdurdod gael darlun mwy cyflawn o'r nifer o weithwyr y Cyngor fesul nodwedd a ddiogelir. | Parhaus. |
| Dadansoddi'r data gweithlu blwyddyn ar ôl blwyddyn a darparu adroddiadau blynyddol yn cynnwys y wybodaeth a ddadansoddwyd. | Rhaid i adroddiadau ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau a gwybodaeth ynghylch cyflogaeth gael eu cyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn (gan adrodd ar ddata fel yr oedd ar 31 Mawrth y flwyddyn flaenorol). |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd.

DRAFT

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mae’r Cyngor fel mater o drefn yn casglu ac yn defnyddio data monitro gweithwyr o ran yr holl grwpiau gwarchodedig er mwyn nodi a lleihau bylchau rhwng cyflogau ac unrhyw anghydraddoldebau eraill.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Trawsnewid Corfforaethol – Adnoddau Dynol.

DRAFFT

**Amcan 3:** Byddwn yn gweithredu i wella **safonau byw** pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

## **Blaenoriaeth 3.1**: Byddwn yn gwella **mynediad ffisegol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored**

### Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?

Nodwyd gwella mynediad ffisegol fel blaenoriaeth yn ôl yn 2011/12, pan wnaethom ddatblygu ein Cynllun cyntaf. Mae pwysigrwydd **trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch** yn benodol wedi bod yn nodwedd amlwg mewn gweithgareddau ymgysylltu o'r cychwyn cyntaf a phwysleisiwyd yr angen am welliannau eto yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu rhanbarthol a lleol diweddaraf. Roedd yr angen am **gyrbinau isel** hefyd wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn y gorffennol ac fe'i codwyd eto yn ein digwyddiad ymgysylltu lleol.

Er ein bod wedi gwneud gwelliannau yn y meysydd a nodwyd uchod, mae mwy i'w wneud o hyd. Roedd 187 o gyrbinau isel a hygyrch ar gael yn Medi 2015, o'i gymharu â 169 ar adeg datblygu ein Cynllun cyntaf yn 2011/12. Fodd bynnag, ychydig iawn o newidiadau a gynlluniwyd a wnaed i arosfannau bysus ers 2015 a hynny oherwydd cyfyngiadau ariannol a phrinder grantiau.

Yn ogystal â gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud gwelliannau pellach, mae angen i ni hefyd sicrhau bod cyn lleied o rwystrau â phosibl. Nid yw gyrwyr sy'n defnyddio'r palmant i barcio neu sy'n parcio yn ymyl mannau croesi yn sylweddoli'r effaith y gall y ffaith bod eu cerbyd yn rhwystro'r llwybr troed ei chael. Yn aml nid oes digon o le i gerddwyr fynd heibio ac fe'u gorfodir i gerdded allan i'r ffordd. Mae hyn yn rhoi pobl ddall a rhannol ddall yn enwedig mewn mwy o berygl oherwydd traffig.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau, lle mae hynny'n bosibl, i wella arosfannau bysus ar yr ynys i'w gwneud yn hygyrch. | Parhaus - bydd gwaith yn cael ei wneud fel rhan o gynlluniau adnewyddu troedffyrdd a wneir gan y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a thrwy ddefnyddio unrhyw arian grant newydd a dderbynnir. |
| Parhau i ddarparu cyrbinau isel a chyfleusterau croesi cyffyrddol addas fel rhan o gynlluniau gwella troedffyrdd. | |
| Ymateb fel y bo'n briodol i gwynion a dderbynnir gan aelodau o'r cyhoedd trwy ddefnyddio ein pwerau o dan ddeddfwriaeth rheoli traffig i gadw palmentydd a chroesfannau yn glir rhag rhwystrau a achosir gan geir wedi'u parcio. | Mewn ymateb i unrhyw gwynion penodol a dderbynnir. |

**Pa nodweddion gwarchodedig y mae hyn effeithio arnynt?**

Oed; Anabledd; Beichiogrwydd a Mamolaeth.

Mae cyrbinau isel ac arosfannau bysus hygyrch nid yn unig yn hanfodol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd, ond hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer croestoriad eang o bobl, o rieni â phramiau i bobl hŷn a thwristiaid â bagiau trwm.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mae nifer yr arosfannau bysus hygyrch, cyrbinau isel addas a chyfleusterau croesi cyffyrddol ar yr ynys yn cynyddu.

Mae cwynion a dderbynnir ynghylch cerbydau sydd wedi'u parcio ar balmentydd neu ger mannau croesi yn cael sylw ac yn cael eu datrys, lle bynnag y mae hynny'n bosibl.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo – Traffic a Pharcio.

DRAFFT

**Amcan 3:** Byddwn yn gweithredu i wella **safonau byw** pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

## **Blaenoriaeth 3.2:** Byddwn yn parhau i weithio tuag at sicrhau **cartrefi mwy addas a fforddiadwy** yn y llefydd iawn i gwrdd ag anghenion lleol

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Yn ôl *A yw Cymru'n Decach? 2018* , mae pobl anabl yng Nghymru yn wynebu prinder cartrefi hygyrch y mae modd eu haddasu ac oedi hir wrth wneud cartrefi presennol yn hygyrch.

Y Cyngor yw'r landlord cymdeithasol mwyaf yn Ynys Môn. Ar ddiwedd mis Ionawr 2019, roedd 4,733 uned o dai cymdeithasol yn Ynys Môn, ac o'r rheiny, roedd 3,819 yn eiddo i'r Cyngor ac yn cael eu rheoli ganddo. Dros oes y Cynllun Busnes, bwriedir i'r stoc gynyddu i dros 5,000 o unedau.

Mae Strategaeth Dai'r Cyngor yn nodi amcanion y Cyngor sy'n ymwneud â phob tŷ ar yr ynys, er mwyn sicrhau bod anghenion tai a nodwyd yn cael eu diwallu yn y ffordd orau ac er mwyn sicrhau safonau tai uchel i'r holl ddinasyddion. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn ffordd bwysig o gyflawni'r amcanion cyffredinol hyn ac mae'n cynnwys addasu cartrefi i wella annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau i asesu eiddo presennol y Cyngor ac eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl anabl. | Yn mynd rhagddo - datblygiad parhaus. |
| Parhau i fuddsoddi mewn mân waith addasu a gwaith addasu mawr ar gyfer eiddo cyngor - tai cymdeithasol - trwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | Yn unol â Chynllun Busnes y CRT a chyllideb flynyddol y CRT. |
| Parhau i fonitro lefelau perfformiad o ran y nifer o ddiwrnodau a gymerir i gwblhau Ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer gwelliant parhaus. | Chwarterol |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd, ond Anabledd ac Oed yn benodol. Bydd y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd hefyd yn berthnasol yma.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mwy o gartrefi o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein trigolion.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Tai (gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol)

## **Amcan 4**: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**

### **Blaenoriaeth 4.1:** Byddwn yn cynyddu'r nifer o bobl ym mhob sector o'r gymuned, yn enwedig pobl nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, sy'n dewis **ffyrdd iach o fyw.**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Nodwyd hyrwyddo ffyrdd iach o fyw fel blaenoriaeth o'r dechrau yn 2011/12. Trwy gydol yr amser hwn, mae cynlluniau wedi bod ar waith yn Ynys Môn i annog grwpiau penodol i ddod yn fwy actif. Amlinellwyd cyflawniadau dros yr wyth mlynedd diwethaf yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol ond mae mwy i'w wneud o hyd. Byddwn yn parhau i annog ein cymunedau i ddod yn fwy egnïol fel rhan o ystod eang o fentrau cyfredol a newydd. Amlinellir dwy enghraifft o'n mentrau cyfredol isod:

Nod y Rhaglen **Datblygu Insport** , dan arweiniad Chwaraeon Anabledd Cymru, yw hwyluso a sicrhau newid diwylliannol o ran agwedd, dull gweithredu a darparu gweithgareddau corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a chyfleoedd ehangach i bobl anabl. Mae Ynys Môn wedi cyflawni safon arian Insport ac mae'n gweithio tuag at y safon aur. Rôl awdurdod lleol ar y lefel aur yw sicrhau ei fod yn naturiol yn meddwl am bobl anabl wrth baratoi a chynllunio, cyflawni a gweithredu, ac adolygu a mireinio. Hyd yma, nid oes yr un awdurdod yng Nghymru wedi cyflawni'r safon aur. Trwy gydol ein taith tuag at y safon aur, mae'n hanfodol bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd - hamdden, addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, ein cymunedau ac elusennau lleol - i gynnig darpariaeth ac agwedd sy'n cyfleu bod unrhyw beth yn bosibl i drigolion (neu ymwelwyr) anabl yn Ynys Môn. Er mwyn i ni ddatblygu gwasanaethau, bydd arolwg yn cael ei ddefnyddio i ymgynghori â'n preswylwyr ar Ynys Môn. Trwy wneud hyn, byddwn yn gallu nodi lle mae angen cefnogaeth i gynnig mwy o gyfleoedd.

Mae'r **Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol** (NERS) yn gynllun a ariennir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae wedi bod yn cael ei ddatblygu ers 2007. Mae'r Cynllun yn targedu cleientiaid 16 oed a hŷn sydd â chlefyd cronig, neu sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd o'r fath. Byddwn yn parhau i gynnig Cynllun Cyfeirio Ynys Môn a byddwn yn gweithio tuag at gyflawni targedau cenedlaethol NERS.

Yn ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol, byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y mentrau uchod yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau newydd eraill.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Symud ymlaen i sicrhau Dyfarniad Aur Insport | Ebrill 2021 |
| Parhau i gynnig Cynllun Cyfeirio Ynys Môn, gan weithio tuag at y targedau NERS cenedlaethol isod: | Parhaus |

DRAFT

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| - Canran y cleientiaid NERS sy'n cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (50% ac uwch)<br><br>- Canran y cleientiaid NERS y mae eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (80% ac uwch) | |

**Pa nodweddion gwarchodedig y mae hyn effeithio arnynt?**

Oed; Anabledd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mwy o gyfleoedd ar gael a phobl o bob sector o'r gymuned, yn enwedig y rheiny grwpiau hynny nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, yn dewis ffyrdd iach o fyw drwy fod yn fwy actif.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Hamdden (gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol)

DRAFT

## **Amcan 4**: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**

### **Blaenoriaeth 4.2:** Byddwn yn creu'r amodau i unigolion wella eu **hiechyd a'u llesiant**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan bawb fynediad amserol at ofal iechyd a gwybodaeth am iechyd heb wahaniaethu a bod llesiant meddyliol yr un mor bwysig â llesiant corfforol.

Yn ôl *A yw Cymru'n Decach? 2018* (EHRC) , nid yw canlyniadau iechyd ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ddigon da. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu cyfraddau derbyn a lleihau'r amrywiadau o ranbarth i ranbarth o ran y bobl ag anableddau dysgu sy'n manteisio ar eu hawl i gael gwiriad iechyd blynyddol. Yn lleol, dywedwyd wrthym yn ystod ymgysylltiad yn ddiweddar, mai dim ond tua 20% oedd yn derbyn archwiliadau iechyd blynyddol yn Ynys Môn. Felly mae'n bwysig bod gwaith yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hwn.

Yn ystod yr ymgysylltu wrth baratoi ein Cynllun blaenorol bedair blynedd yn ôl, dywedwyd wrthym y dylai pobl allu mynegi eu hunain yn yr iaith y maent fwyaf hyderus ynddi er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth. Codwyd hyn eto yn ddiweddar yn ein digwyddiad ymgysylltu lleol, gan gyfeirio'n benodol at blant ifanc a phobl â namau gwybyddol sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau iaith Gymraeg eisoes yn cael ei weithredu trwy'r Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i gydymffurfio â'i Safonau Iaith Gymraeg (gweler tudalen 5) mae safon benodol y mae'n rhaid ei chyrraedd pan fydd cyfarfodydd yn gysylltiedig â llesiant unigolyn. Yn ogystal, fel y nodwyd yn ein Cynllun blaenorol, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gweithio'n unol â '*Mwy na Geiriau'* sy'n fframwaith strategol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr iechyd sylfaenol yn Ynys Môn fel rhan o gynllun peilot i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth gwiriad iechyd blynyddol ar gyfer pobl a chanddynt namau dysgu. | Yn unol â chynllun gweithredu'r cynllun peilot |
| Parhau i hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig y mae hyn yn effeithio arnynt?**

Oed, Anabledd.

DRAFT

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

- Cynnydd yn nifer y bobl â namau dysgu sy’n manteisio ar y cynnig i gael gwiriad iechyd blynyddol.
- Bod yr holl unigolion sy’n cysylltu â’r Cyngor yn cael cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gwasanaeth arweiniol**: Gwasanaethau Cymdeithasol.

DRAFFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## **Amcan 5:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder**

**Blaenoriaeth 5.1**: Byddwn yn cynyddu nifer y troseddau casineb ac aflonyddu sy'n cael eu riportio a chymryd camau i **leihau achosion o droseddau casineb ac aflonyddu,** yn cynnwys camdriniaeth a bwlio ar-lein.

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Yn ôl *A Yw Cymru'n Decach? 2018*, mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd wedi cynyddu ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig yng Nghymru. Yng ngogledd Cymru, mae nifer y troseddau a gofnodwyd fel troseddau casineb wedi cynyddu dros y blynyddoedd diweddar; yn enwedig rhwng 2016/17 (465 trosedd) a 2017/18 (681 trosedd) – cynnydd o 46% (dogfen ymchwil NWPSEN). Nododd cyfranogwyr yn ein digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol gynnydd diweddar yn nifer troseddau casineb a riportiwyd hefyd. Roeddent yn priodoli hyn i fwy o ymwybyddiaeth a gwell gweithdrefnau riportio.

Cafodd y maes hwn ei adnabod fel blaenoriaeth yn ein Cynllun cyntaf ac mae'r Cyngor eisoes yn gweithio â phartneriaid ledled gogledd Cymru er mwyn tynnu sylw at faterion trosedd casineb ac annog pobl i hysbysu Heddlu Gogledd Cymru neu Cymorth i Ddioddefwyr am unrhyw achosion. Yn ogystal, mae gweithgor aml-asiantaeth wedi'i sefydlu er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb ar lefel leol. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru a Cymorth i Ddioddefwyr, Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru a Swyddogion o'r Gwasanaeth Tai.  Ar lefel rhanbarthol, mae Grŵp Tactegol Troseddau Casineb Gogledd Cymru yn sgriwtineiddio'n chwarterol.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau i weithio â phartneriaid ledled gogledd Cymru er mwyn dwyn sylw at y broblem o droseddau casineb ac annog pobl i hysbysu Heddlu Gogledd Cymru neu Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol. | Blynyddol – Mis Hydref. |
| Y Gweithgor Troseddau Casineb aml-asiantaeth i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu troseddau casineb er mwyn gwella dulliau riportio a chefnogi unigolion sy'n ddioddefwyr troseddau casineb. | Yn unol â'r amserlenni a nodir yn y cynllun gweithredu ar gyfer atal troseddau casineb. |

**Pa nodweddion gwarchodedig y mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mwy o bobl yn ymwybodol o'r ffaith bod cymorth ar gael i ddioddefwyr ynghyd â sut i riportio troseddau casineb.

**Gwasanaethau Arweiniol:**

Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd (fel aelod o NWPSEN lle ceir cefnogaeth gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu.

Tai (gyda chefnogaeth gan Heddlu Gogledd Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr a Chydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru).

**Caiff dioddefwyr eu hannog i roi gwybod am unrhyw droseddau drwy ffonio Heddlu Gogledd Cymru ar 101 (neu 999 mewn argyfwng). Fel dewis arall, gellir cysylltu â Cymorth i Ddioddefwyr drwy ffonio 0300 30 31 982 (mae'r rhif yn un am ddim ac ar gael bob amser) neu ar-lein yn https://www.reporthate.victimsupport.org.uk/cy/cartref/**

DRAFFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## **Amcan 5:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder**

**Blaenoriaeth 5.2**: Byddwn yn sicrhau bod gan Aelodau a Swyddogion y Cyngor y gallu i gyflawni eu **dyletswyddau diogelu** yn effeithiol, drwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Codwyd pryderon yn ystod ymgysylltiad lleol mewn perthynas ag ecsploetiaeth plant a phobl fregus drwy *Linellau Sirol (County Lines), **Cogio (Cuckooing) a ***chaethwasiaeth fodern. Mae cefnogi plant, oedolion mewn perygl a theuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2017-2022. Fel Cyngor, credwn yn gryf fod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Er mai Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r prif wasanaeth o ran delio â honiadau neu bryderon y gallai plant neu oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol, mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, beth bynnag yw rôl yr unigolyn.

Mae **Polisi Diogelu Corfforaethol** y Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer pob gwasanaeth, gan osod cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ynghyd â dulliau a fydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r polisi hwn wedi'i gynnwys yn y gyfres graidd o naw polisi allweddol o fewn system rheoli polisïau electronig y Cyngor (y Porth Polisi) yn mae'n rhaid i bob aelod o staff sydd â chyfrif e-bost o fewn y Cyngor eu derbyn. Mae'r polisi hwn wedi bod ar gael i staff i'w dderbyn ers Rhagfyr 2018. (Mae'n bwysig nodi, oherwydd dibyniaeth y Porth Polisi ar Gyfeiriadur Actif y Cyngor, nid oes modd i staff gymryd rhan os nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur fel rhan o'u gwaith. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar drefniadau gwahanol i'r aelodau o staff hyn allu derbyn y gyfres graidd o bolisïau).

Mae cyfrifoldeb ar gyfer monitro effeithlonrwydd trefniadau diogelu ar draws y Cyngor yn gorwedd gyda'r **Bwrdd Diogelu Corfforaethol**. Mae'r Bwrdd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Diogelu sy'n rhoi amlinelliad clir o'r camau sydd i'w cymryd gan y Cyngor, a'r rhai sy'n gweithredu ar ei ran, er mwyn sicrhau gweithrediad llawn y Polisi Diogelu. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau'r Cyngor mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran Caethwasiaeth Fodern, Prevent a Thrais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Rywiol a Thrais Domestig.

| Sut rydym ni'n ydym yn bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Defnyddio'r Porth Polisi er mwyn sicrhau bod yr holl staff presennol a staff newydd (y mae ganddynt gyfrifon e-bost) wedi darllen, deall a derbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol. | Parhaus |
| Sicrhau bod Staff ac Aelodau yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant am agweddau perthnasol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. | Parhaus |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl grwpiau bregus.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Holl aelodau o staff ac Aelodau yn glir am y disgwyliadau a osodir arnynt o ran ymateb mewn modd priodol i bryderon sy’n cael eu riportio; gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cofnodi ac ymateb i achosion ac unrhyw honiadau neu amheuon o niwed neu gam-drin.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Gwasanaethau Cymdeithasol – Diogelu (gyda chefnogaeth gan Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd gyda’r Porth Polisi)

*’Llinellau Sirol’ yw’r term a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau o droseddwyr sydd ynghlwm ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd o fewn y DU. Maent yn defnyddio llinellau ffôn symudol ymroddedig neu ffurf arall o “linell werthu”. Maent yn debygol o ddefnyddio plant ac oedolion bregus i symud a storio’r cyffuriau a’r arian. Yn aml, ddefnyddir gorfodaeth, bygythiadau, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

**‘Cogio’ (cuckooing) yw’r arfer lle mae gwerthwyr cyffuriau yn meddiannu eiddo unigolyn bregus a’i ddefnyddio fel lle i redeg eu busnes. Mae dioddefwyr yn aml ag ofn mynd at yr Heddlu ac yn poeni y byddant ynghlwm â’r drosedd

***Caethwasiaeth Fodern – mae’r term yma’n cwmpasu ystod eang o wahanol fathau o ecsbloetiaeth, ac mae nifer o’r rhain yn aml yn digwydd gyda’i gilydd. Mae rhywun mewn caethwasiaeth os yw:

- Yn cael ei orfodi i weithio – trwy fygythiadau meddyliol neu gorfforol
- Yn berchen i neu’n cael ei reoli gan ‘gyflogwr’, fel arfer trwy gamdriniaeth feddyliol neu gorfforol neu’r bygythiad o gamdriniaeth
- Yn cael i drin fel pe na bai’n fod dynol, yn cael ei drin fel nwydd neu’n cael ei brynu neu ei werthu fel ‘eiddo’
- Wedi’i gyfyngu’n gorfforol neu bod rhywun yn gosod cyfyngiadau ar ei ryddid i symud.

## **Amcan 5:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder**

### **Blaenoriaeth 5.3**: Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth am **dwyll** mewn cymunedau sy'n agored i niwed

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Cafodd hyn ei adnabod fel blaenoriaeth bedair blynedd yn ôl pan roedd sgamiau, twyll a throseddau hunaniaeth ymysg y materion a godwyd yn ystod ymgysylltiad rhanbarthol. Mae wedi'i amlygu eto yn ystod ein digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol mwyaf diweddar, lle cododd cyfranogwyr bryderon am dwyll ymysg pobl hŷn ynghyd â thwyll dros y ffôn a throseddau seiber, sy'n gallu digwydd i unrhyw grŵp oedran.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, gweithiodd adran Safonau Masnach Ynys Môn â nifer o bartneriaid gan gynnwys CAB Ynys Môn, Heddlu Gogledd Cymru a Thîm Atal Sgamiau'r Safonau Masnach Cenedlaethol. Yn benodol, mae Safonau Masnach wedi gweithio â Phobl yn Gyntaf Ynys Môn er mwyn datblygu fersiynau hawdd eu darllen o ganllawiau troseddau stepen drws a sgamiau ar gyfer unigolion ag anawsterau dysgu neu lefelau isel o lythrennedd er mwyn eu cefnogi i allu byw'n annibynnol.

Rydym wedi nodi manylion yn ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol ers 2016 am yr hyn y byddwn yn ei wneud er mwyn codi ymwybyddiaeth ac i ddarparu addysg mewn cymunedau. Byddwn yn parhau i wneud hynny dros y pedair blynedd nesaf.

| Sut yr ydym yn bwriadu gwneud hyn? | Erbyn Pryd? |
|---|---|
| Parhau i weithio â phartneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth a darparu addysg i gymunedau lleol ar sut i ddelio â galwyr digroeso, troseddau stepen drws, twyll wyneb yn wyneb ac anghydfodau cyffredinol cwsmeriaid. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?**

Yr holl nodweddion ond Oed (pobl hŷn) ac Anabledd yn benodol.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mwy o bobl yn ymwybodol o'r mathau mwyaf cyffredin o dwyll a sut i ddelio â nhw.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Safonau Masnach.

## **Amcan 6:** Cynyddu mynediad **i gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

### **Blaenoriaeth 6.1:** Mae cyrff gwneud penderfyniadau yn dod yn **fwy cynrychiadol** o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae merched yn parhau i gael eu tangynrychioli ymysg ymgeiswyr etholiadol lleol yng Nghymru ac mewn apwyntiadau lleol (*A Yw Cymru'n Decach?* 2018). Bu arolwg o ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer etholiadau Mai 2017 ddarganfod bod 34% yn ferched. Yn dilyn yr etholiad, roedd 26% o **gynghorwyr** yn ferched, gydag amrywiadau sylweddol ar draws y 22 awdurdod lleol (*A Yw Cymru'n Decach?* 2018). Roedd y ganran ar draws y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru yn 22.9%, gydag Ynys Môn ar 10%, â'r canran isaf un (*Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*: adroddiad data a thystiolaeth).

Dim ond rhan o fater ehangach sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw tangynrychiolaeth merched mewn llywodraeth leol. Mae pobl ifanc yn benodol wedi eu tangynrychioli ar y Cyngor hwn.

Yn ôl adroddiad gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru, 'Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (Ebrill 2019), mae argaeledd gwybodaeth am rôl y cynghorwyr yn amlwg yn faes sydd angen ei wella. Mae'r adroddiad yn gwneud 22 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, yn cynnwys argymhelliad bod *"Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dechrau gweithio ar ymgyrch gadarnhaol er mwyn gwella amrywiaeth ymysg ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol erbyn haf 2019."*

Mae pedwar o bwyllgorau'r Cyngor hefyd yn cynnwys **aelodau cyfetholedig**. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn cael eu recriwtio am gyfnodau penodol er mwyn cynrychioli maes penodol o ddiddordeb neu fater penodol i'w ystyried. Nid aelodau etholedig mohonynt ond byddant yn cael eu penodi oherwydd eu lefel o wybodaeth o phrofiad. Ar hyn o bryd, mae'r proffil rhyw yn gytbwys, gyda 45% (5) o'r un ar ddeg o aelodau cyfetholedig yn ferched.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn lleol er mwyn cefnogi'r ymgyrch genedlaethol i ehangu cyfranogiad yn etholiadau lleol 2022. | Mai 2022 |
| Gwneud defnydd o weithredu cadarnhaol fel rhan o'r broses o recriwtio aelodau cyfetholedig. | Fel y bydd swyddi gwag yn codi. |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl nodweddion ond Oed (pobl ifanc) a Rhyw (merched) yn benodol.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Cynnydd mewn amrywiaeth ymysg unigolion sy'n sefyll yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac unigolion sy'n ymgeisio i fod yn aelodau cyfetholedig fel rhan o brosesau recriwtio yn y dyfodol.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Busnes y Cyngor

DRAFFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## **Amcan 6:** Cynyddu mynediad **i gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

### **Blaenoriaeth 6.2:** Mae **ymgynghori ac ymgysylltu** yn cael ei wella drwy gryfhau cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy’n cynrychioli pobl o’r holl grwpiau gwarchodedig

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae’r Cyngor yn cydnabod fod yna le i wella bob amser o ran ehangu’r cohort o ddinasyddion sy’n mynd ati’n egnïol i ymgysylltu, yn enwedig o ran grwpiau anodd eu cyrraedd. O ganlyniad, achubwyd ar y cyfle i greu proses safonol a syml ar gyfer ymgysylltu ar draws y sector cyhoeddus a’r trydydd sector.

Defnyddir y **model ymgysylltu cymunedol** er mwyn gwella’r ymagwedd gorfforaethol tuag at ymgysylltiad cymunedol. Mae’r model hwn yn hanfodol er mwyn adnabod y cymunedau a’r grwpiau hynny a fydd â diddordeb cymryd drosodd y cyfrifoldebau am ddarparu ar gyfer gwahanol fathau o anghenion yn eu cymunedau. Ers ei ddechrau, mae’r model wedi ei deilwra ar gyfer ei ddefnyddio mewn gwahanol waith ymgysylltu ac ymgynghori. Mae’r model wedi ei gadarnhau gan y **Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd** a arweinir gan aelod o’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac a fynychir gan gynrychiolwyr o’r trydydd sector. Mae’r Bwrdd ar y Cyd yn darparu agwedd gytbwys ar draws y Cyngor tuag at ymgysylltiad a chyfranogiad rhanddeiliaid sy’n lleihau dyblygu, yn sicrhau agwedd ar y cyd tuag at ymgysylltu ac sy’n gwella gwybodaeth yn seiliedig ar ardal i ni fel Cyngor.

Un maes ar gyfer gwella a nodwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd yw datblygu rhestr wirio fel y gall rheolwyr adnabod y wybodaeth a’r camau angenrheidiol er mwyn gallu cefnogi ymgysylltiad ac ymgynghoriad effeithiol yn lleol. Mae’r rhestr wirio hon yn ychwanegol at yr Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus (a fabwysiadwyd ar 5 Medi 2011 fel rhan o Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol y Cyngor) a’i nod yw sicrhau cysondeb a darparu sicrwydd bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol.

Ar lefel ranbarthol, byddwn yn parhau i weithio ar ymgysylltiad fel rhan o NWPSEN (gweler tudalen 13) er mwyn rhannu arfer dda a gwneud y mwyaf o’r adnoddau sydd ar gael i ni.

| **Sut rydym ni’n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth â’r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori perthnasol ymysg cynrychiolwyr o’r holl nodweddion gwarchodedig. | Parhaus |
| Y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd i fabwysiadu Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio’n effeithiol gan wasanaethau. | Parhaus |

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau i weithio ar ymgysylltu gyda'n partneriaid rhanbarthol (fel aelodau o NWPSEN) drwy wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Bob un

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei gyflawni i safon uchel yn gyson ar draws y Cyngor.

Cynnydd yn nifer y sylwadau a dderbyniwyd gan grwpiau anodd eu cyrraedd mewn ymateb i ymgysylltu ac ymgynghori.

**Gwasanaethau Arweiniol:**

Trawsnewid Corfforaethol
Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd (fel rhan o NWPSEN)

DRAFT

## **Amcan 7:** Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol economaidd** (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen mynd i'r afael â nhw o dan bob amcan

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel amcan?**

Yn ei adroddiad '*A Yw Cymru'n Decach*? 2018' mae EHRC yn argymell y dylid *"sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau cysylltiedig ag anfantais cymdeithasol-economaidd, dylai'r dyletswydd cymdeithasol-economaidd yn y Ddeddf Cydraddoldebau gael ei weithredu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru fel mater o flaenoriaeth."*

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y ddyletswydd cymdeithasol-economaidd yn dod i rym er mwyn gorfodi cyrff cyhoeddus i ystyried effaith eu penderfyniadau strategol ar y bobl a'r grwpiau tlotaf. Bydd arweiniad pellach yn cael ei roi yn y man ond ar adeg ysgrifennu'r Cynllun hwn, rhagwelir y bydd y ddyletswydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2020.

Rydym eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â'r ddyletswydd newydd yn y Cynllun hwn drwy gynnwys blaenoriaethau sydd â'r nod o leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais cymdeithasol-economaidd – adolygu ein proses gorfforaethol ar gyfer ymgymryd ag asesiadau effaith (Blaenoriaeth 8.2) a mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol (Blaenoriaeth 1.2).

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd cymdeithasol economaidd a sicrhau bod y ddyletswydd yn dod yn rhan annatod o'n busnes o ddydd i ddydd. | Unwaith y bydd arweiniad pellach ar gael. |
| Adolygu canllawiau a thempledi corfforaethol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r angen i leihau anfanteision cymdeithasol-economaidd – gweler hefyd Blaenoriaeth 8.2. | Parhaus |
| Defnyddio ein Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol er mwyn adrodd ar ddatblygiadau a dangos sut yr ydym yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd. | 31 Mawrth bob blwyddyn. |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl nodweddion, yng nghyd-destun y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd.

**Sut ddylai llwyddiant edrych?**

Mae anghydraddoldebau cysylltiedig ag anfanteision cymdeithasol economaidd yn cael eu nodi ac yn cael ystyriaeth ddigonol yng nghynlluniau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd



DRAFT

**Amcan 8:** Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** er mwyn sicrhau tegwch i bawb

## **Blaenoriaeth 8.1:** Mae **rhaglen hyfforddiant staff** wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod gan y staff cywir y sgiliau cywir er mwyn darparu gwelliannau o ran amrywiaeth

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae hon wedi bod yn flaenoriaeth o'r dechrau, i ddangos ymrwymiad y Cyngor tuag at sicrhau bod y rhai hynny sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor ac yn gweithio iddo yn fedrus, wedi'u hyfforddi a'u hysgogi i allu cwrdd ag anghenion heriol ac amrywiol y gymuned.

Cydnabyddir ei bod hi'n bwysig fod pobl ar draws y Cyngor yn ymwybodol o'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ystyriaeth lawn yn y gwaith maent yn ei wneud. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth yn ystod sesiynau cynefino corfforaethol, bellach mae gan y Cyngor system reoli polisi electronig – y Porth Polisi – sy'n gosod disgwyliadau ar staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor i dderbyn polisïau corfforaethol allweddol. Mae Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor wedi'i gynnwys yn y gyfres graidd o naw polisi corfforaethol y mae'n rhaid eu derbyn ac mae'r polisi wedi bod ar gael i'w dderbyn ers Gorffennaf 2019. (Mae'n bwysig nodi, oherwydd dibyniaeth y Porth Polisi ar Gyfeiriadur Actif y Cyngor, nid oes modd i staff gymryd rhan os nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur fel rhan o'u gwaith. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar drefniadau gwahanol i'r aelodau o staff hyn allu derbyn y gyfres graidd o bolisïau).

Yn ogystal, petai'n dod i'r amlwg bod unrhyw feysydd sydd angen sylw fel rhan o'n trefniadau gofal cwsmer, byddwn yn ymateb yn y modd priodol i'r materion sy'n cael eu hadnabod.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg staff y Cyngor yn ystod sesiynau cynefino corfforaethol a drwy hysbysu staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor bod angen iddynt ddarllen, deall a derbyn y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. | Parhaus |
| Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer yr holl staff ac ymateb yn y modd priodol lle mae anghenion penodol wedi eu hadnabod. | Parhaus (fel rhan o'r Rhaglen Hyfforddiant Corfforaethol ac mewn ymateb i unrhyw anghenion sy'n cael eu hadnabod). |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl nodweddion

**Sut ddylai llwyddiant edrych?**

Lefel uchel o ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Cyngor.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Trawsnewid Corfforaethol – Adnoddau Dynol (gyda chefnogaeth Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd gyda'r Porth Polisi)

DRAFFT



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Amcan 8:** Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** er mwyn sicrhau tegwch i bawb

## **Blaenoriaeth 8.2**: Mae proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod **effaith yn cael ei asesu'n** barhaus ar draws y gwasanaethau

### Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?

Cafodd sicrhau agwedd gyson ar draws yr awdurdod o ran cwblhau asesiadau effaith effeithiol ei adnabod fel blaenoriaeth yn ôl yn 2011/12. Drwy gydol yr amser hwn, rydym wedi bod yn datblygu ein trefniadau yn barhaus, gyda'r nod o brif ffrydio'r broses hon yn y gwaith o ddydd i ddydd a gyflawnir o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd o ran sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor. Mae hefyd angen i ni sicrhau bod yna aliniad cliriach rhwng ein trefniadau corfforaethol a:

**Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol** – sy'n dweud bod angen i gyrff cyhoeddus weithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy fodloni anghenion y presennol tra'n gwarchod anghenion y dyfodol.

Y **dyletswydd gymdeithasol-economaidd** yn y Ddeddf Cydraddoldeb – a fydd yn dod i rym yng Nghymru er mwyn lleihau anghydraddoldebau cysylltiedig ag anfanteision cymdeithasol-economaidd (gweler Amcan 7).

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn Pryd? |
|---|---|
| Parhau i ddarparu cyfleoedd o ran cefnogi a datblygu aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol am eu dyletswyddau tuag at bobl â nodweddion gwarchodedig. | Yn unol â'r Cynllun Datblygu a'r Cynllun Hyfforddiant, y Rhaglen Datblygu Aelodau Sgriwtini a'r Rhaglen Hyfforddi Staff Corfforaethol |
| Adolygu'r templedi canlynol er mwyn cryfhau'r cyswllt â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd:<br><br>- Templedi adroddiadau Sgriwtini<br>- Templed ac arweiniad EIA corfforaethol<br>- | Haf 2020 |
| Cefnogi penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol:<br><br>- Adolygu'r Strategaeth Gwestiynu ar gyfer aelodau sgriwtini | Hydref 2020 |

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn Pryd? |
|---|---|
| - Datblygu cyfres stoc o gwestiynau ar gyfer aelodau sgriwtini, yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Sgriwtini a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (Ionawr 2019) | Rhagfyr 2020 |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl nodweddion.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Asesiadau effaith yn cael eu cynnal i safon uchel yn rheolaidd a byddant wedi dod yn rhan annatod o fusnes o ddydd i ddydd.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd

DRAFFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Monitro cynnydd

Er mwyn rhoi gwybod i chi am gynnydd wrth gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, byddwn yn cynhyrchu adroddiadau cydraddoldeb blynyddol. Yn ogystal, bydd cynnydd yn erbyn cyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor yn cael ei gynnwys yn ein Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol.

**Mawrth 2020**

DRAFFT

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 1.0 | 11-12-19 | Drafft cyntaf. |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 |
| **2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Fe roddodd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ddyletswydd benodol i bob awdurdod cyhoeddus ddatblygu amcanion cydraddoldeb a chynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Rhaid adolygu'r Cynllun a'i amcanion o leiaf pob pedair blynedd. Mae'r Cynllun cyfredol, ar gyfer 2016-2020, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020, pryd y bydd rhaid cyhoeddi Cynllun newydd. |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Pwrpas y Cynllun yw gosod allan y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau penodol o ran cydraddoldeb.<br><br>Mae swyddogion Cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru wedi rhannu arferion da ers blynyddoedd lawer. Yn ystod 2011/12, datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru gyfres o gydamcanion a gytunwyd gan bob partner ac fe adolygwyd yr amcanion hyn i gyd-fynd â pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2016-20. Cynhaliwyd adolygiad arall yn ddiweddar er mwyn llywio ein Cynlluniau ar gyfer 2020-2024. Er mwyn sicrhau bod ein amcanion newydd yn anelu at roi sylw i'r |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| | heriadau a osodir allan yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol '*A yw Cymru'n Decach? 2018'*, mae amcanion rhanbarthol y rhwydwaith yn seiliedig ar y chwe thema bywyd a nodir yn adroddiad y Comisiwn, sef:<br><br>1 - Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgo**l a llesiant mewn ysgolion yn gwella<br>2 - Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau**<br>3 - Byddwn yn gweithredu i wella **safonau byw** pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol<br>4 - Byddwn yn gwella canlyniadau o ran **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**<br>5 - Byddwn yn gwella diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder<br>6 - Byddwn yn cynyddu mynediad i **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau<br><br>Yn ychwanegol, er mwyn rhoi sylw i fwriad Llywodraeth Cymru i roi'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd ar waith, fe gytunwyd hefyd yr amcan rhanbarthol canlynol:<br><br>7 - Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol economaidd** (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen mynd i'r afael â nhw o dan bob amcan.<br><br>Er cysondeb ac yn yr un modd â'r ddau gynllun blaenorol, rydym wedi dewis mabwysiadu'r amcanion rhanbarthol, ynghyd ag un amcan lleol ychwanegol:<br><br>8 - Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** er mwyn sicrhau tegwch i bawb.<br><br>Mae **blaenoriaethau drafft** wedi'u hadnabod o dan pob un o'r amcanion uchod a ddylai, ochr yn ochr a gweithrediadau gwella eraill sydd wedi'u hamlygu mewn cynlluniau corfforaethol a gwasanaethau, ein helpu i adeiladu cymdeithas decach i bob un o ddinasyddion Ynys Môn. |
| **4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n arwain yn gorfforaethol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth. |
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Rhian Wyn Jones, Swyddog Polisi.<br>Tony Wyn Jones, Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol.<br>Daron Owens, Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol. |
| **7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Nid yw'r Cynllun yma'n ddogfen sy'n sefyll 'ar ei ben ei hun'. Mae'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun hwn wedi'u dewis i ategu Cynllun y Cyngor 2017-2022 a chynlluniau allweddol corfforaethol a gwasanaethau eraill. |
| **8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | - Preswylwyr Ynys Môn.<br>- Pobl â nodweddion gwarchodedig sydd yn byw yn, yn ymweld â, neu'n gweithio yn Ynys Môn.<br>- Aelodau etholedig a gweithwyr Cyngor Sir Ynys Môn. |

| 9 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | Ydy' | Nac ydy' |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | ✓ | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | ✓ | |
| **Meithrin perthynas dda** | ✓ | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | ✓ | |
| Noder: Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | | |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | |
|---|---|
| **10 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydy. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion:<br>- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru<br>- Y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny<br><br>Bydd gwaith y Cyngor ar y Cynllun, ynghyd â'i holl waith ar draws y gwasanaethau, yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddorion uchod. |
| **11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Oes. Mae blaenoriaeth 4.2 – byddwn yn creu'r amodau i unigolion wella eu hiechyd a'u llesiant – yn cyfeirio at y cynnig rhagweithiol o wasanaethau iaith Gymraeg a bod Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn gweithio'n unol a fframwaith strategol Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau'. Nod y fframwaith yw cryfhau gwasanaethau iaith Gymraeg yn y meysydd iechyd, gwasanaethau a gofal cymdeithasol. |
| **12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Gweler 11 uchod. |
| **13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Gweler 11 uchod. |
| Mae **Atodiad 1** i'r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.<br><br>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai **prif** bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – **mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny'n briodol.** | |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma?**<br>(Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?)<br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1). | Dim sy'n hysbys. | |
| **15 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 2) | Cymru lewyrchus | |
| | Cymru gydnerth | |
| | Cymru iachach | ✓ |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | ✓ |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | ✓ |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ✓ |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | |
| **16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | Rhoddwyd sylw dyledus i wybodaeth berthnasol a gasglwyd o ddigwyddiad ymgysylltu rhanbarthol (Gogledd Cymru) a gynhaliwyd ar 24 Mai 2018 ac ymgysylltiad lleol mewn cyfarfod o Rwydwaith Llesiant Ynys Môn ar 25 Medi 2019. Yn dilyn hyn, fe rannwyd ein hamcanion drafft gydag aelodau Rhwydwaith Llesiant Ynys Môn ynghyd â rhanddeiliad eraill, am sylwadau. I'r dyfodol, y gobaith yw adeiladu ar y model ymgysylltu hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion lleol. | |
| **17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.** | *A yw Cymru'n Decach? 2018*; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br><br>*Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*: adroddiad data a thystiolaeth; Cyngor Gwynedd. Fe gomisiynwyd yr adroddiad yma gan y Rhwydwaith Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gogledd Cymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ddata cydraddoldeb ar lefel leol – yn arbennig o ran y materion sydd yn yr adroddiad A yw Cymru'n Decach. Rhannwyd yr adroddiad yma gydag aelodau NWPSEN er mwyn llywio eu gwaith ar ddatblygu amcanion rhanbarthol.<br><br>Mae gwybodaeth berthnasol hefyd wedi'i chynnwys fel gwybodaeth gefndirol o dan pob un o'r amcanion cydraddoldeb er mwyn cyfiawnhau'r blaenoriaethau yr ydym wedi'u dewis. | |

| **Cam 2: Casglu gwybodaeth** | |
|---|---|
| **18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?**<br>**Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | Mae’r adroddiad data a thystiolaeth *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru* yn tynnu sylw at y bylchau o ran data a gwybodaeth ar lefelau lleol ac yn awgrymu rhai blaenoriaethau ar gyfer gwella. I’r dyfodol, y gobaith yw adeiladu ar y model ymgysylltu hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion lleol. |

## Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

**19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma.**
*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | **Cadarnhaol** | Bydd y cynllun hwn o gymorth tuag at gael effaith gadarnaol ar bobl o bob oedran. Bydd yr amcanion yn y cynllun yn helpu i:<br><br>Roi sylw i'r rhwystrau i blant a phobl ifanc gyrraedd eu llawn botensial (blaenoriaeth 1.1)<br><br>Ddiogelu pobl hŷn a bregus trwy godi ymwybyddiaeth ymysg cymunedau lleol am y gwahanol fathau o dwyll (blaenoriaeth 5.3)<br><br>Roi sylw i'r rhwystrau i bobl o bob oed rhag cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus trwy gymryd rhan yn yr ymgyrch i ledaenu cyfranogiad o ran etholiadau 2022 (blaenoriaeth 6.1). Mae parhau i ddatblygu hybiau cymunedol a chynllunio lle yn berthnasol yma hefyd (hyrwyddo cydraddoldeb – tud. 12 yn y Cynllun). | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Anabledd** | **Cadarnhaol** | Bydd y cynllun hwn o gymorth tuag at gael effaith gadarnaol ar bobl anabl. Bydd yr amcanion yn y cynllun yn helpu i:<br><br>Roi sylw i'r rhwystrau i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol gyrraedd eu llawn botensial (blaenoriaeth 1.1) | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Daclo bwlio sy’n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion (blaenoriaeth 1.2)<br><br>Sicrhau bod mwy o eiddo a chyfleusterau megis arosfannau bysus, llwybrau a chroesfannau troed yn hygyrch ac yn cwrdd ag anghenion preswylwyr anabl (blaenoriaethau 3.1 a 3.2)<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon (blaenoriaeth 4.1)<br><br>Codi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth gwiriad iechyd sydd ar gael i bobl ag anableddau dysgu (blaenoriaeth 4.2)<br><br>Gefnogi pobl anabl sy’n ddioddef troseddau casineb (blaenoriaeth 5.1)<br><br>Hefyd, mae’r Cynllun yn cyfeirio at yr hyn yn ei wneud yn barod i greu cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu (gweler Hyrwyddo Cydraddoldeb ar dudalen 11) | |
| **Rhyw** | **Cadarnhaol** | Bydd y cynllun o gymorth i sicrhau na fydd unrhyw un o weithwyr y Cyngor yn cael eu trin yn llai ffafriol ar sail rhyw. Bydd yr amcanion sydd yn y cynllun yn helpu i:<br><br>Sicrhau bod gweithwyr yn cael addasiad i’w patrymau gwaith, lle mae hynny’n bosibl, i’w cynorthwyo i gyfuno gwaith a chyfrifoldebau eraill (blaenoriaeth 2.1) | Dim effaith negyddol wedi’i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Adnabod a lleihau bylchau o ran cyflogau ar sail rhyw ac anghydraddoldebau eraill (blaenoriaeth 2.2)<br><br>Annog mwy o ferched i sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022 (blaenoriaeth 6.1) | |
| **Newid Rhyw** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i gael effaith gadarnhaol ar bobl trawsryweddol.  Bydd yr amcanion sydd yn y cynllun yn helpu i:<br><br>Daclo bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion (blaenoriaeth 1.2)<br><br>Gefnogi bobl trawsryweddol sydd yn dioddef troseddau casineb (blaenoriaeth 5.1)<br><br>Sicrhau bod y Cyngor yn parchu ac yn cyfathrebu gyda phobl trawsryweddol yn unol â'r rhyw yr arddelir ganddynt (blaenoriaeth 8.1) | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i gael effaith gadarnhaol ar unrhyw un sydd yn feichiog neu o fewn eu cyfnod mamolaeth. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn.<br><br>Bydd blaenoriaeth 2.1 yn y Cynllun yn rhoi sylw i unrhyw rwystrau ar sail beichiogrwydd a mamolaeth. |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i alluogi'r Cyngor i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol o ran gwahardd camwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pawb. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Bydd blaenoriaeth 1.2 yn helpu i daclo bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion<br><br>Bydd blaenoriaeth 5.1 yn y cynllun o gymorth i gefnogi uniogolion sy'n dioddef troseddau casineb. | |
| **Crefydd neu Gred** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i alluogi'r Cyngor i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol o ran gwahardd camwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pawb.<br><br>Bydd blaenoriaeth 1.2 yn helpu i daclo bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion<br><br>Bydd blaenoriaeth 5.1 yn y cynllun o gymorth i gefnogi uniogolion sy'n dioddef troseddau casineb. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i alluogi'r Cyngor i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol o ran gwahardd camwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pawb.<br><br>Bydd blaenoriaeth 1.2 yn helpu i daclo bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion<br><br>Bydd blaenoriaeth 5.1 yn y cynllun o gymorth i gefnogi uniogolion sy'n dioddef troseddau casineb. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Cadarnhaol | Gweler cwestiynau 10-13. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Bydd gwaith y Cyngor yn parhau i gael ei gynnal gan set o werthoedd sy'n cynnwys sicrhau bod hawliau dynol sylfaenol unigolion yn cael eu diogelu bob amser. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** (gwahardd camwahaniaethu yn unig) | Dim effaith | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiddymu camwahaniaethu o bob math a bydd yn diogelu hawliau pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Arall – tlodi** | Cadarnhaol | Ar adeg ysgrifennu, rhagwelwyd y byddai'r **ddyletswydd gymdeithasol economaidd** yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith eu penderfyniadau strategol ar y bobl a'r cymunedau tlotaf.<br>Rydym wedi cychwyn eisoes i roi sylw i'r ddyletswydd newydd trwy gynnwys blaenoriaethau sy'n anelu at leihau anghydraddoldeb sy'n cysylltiedig ac anfantais cymdeithasol economaidd, sef:<br><br>Adolygu ein preses gorfforaethol ar gyfer cynnal asesiadau effaith (blaenoriaeth 8.2)<br><br>Rhoi sylw i'r bylchau o ran cyrhaeddiad addysgol (blaenoriaeth 1.1)<br><br>Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd pan fydd arweiniad ar gael (amcan 7) ac yn sicrhau y bydd y ddyletswydd yn dod yn rhan annatod o'n busnes dydd i ddydd. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn defnyddio ein hadroddiadau blynyddol i adrodd ar ddatblygiadau a dangos sut yr ydym yn cydymffurfio gyda’r ddyletswydd gymdeithasol economaidd maes o law. | |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. Pwrpas yr amcanion a blaenoriaethau cydraddoldeb o fewn y Cynllun yw i gynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â thair nod y ddyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i'r angen i:<br><br>- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf<br><br>- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt<br><br>- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt<br><br>Yn ychwanegol i'r blaenoriaethau a mentrau eraill sydd yn y cynllun, bydd y Cyngor yn cryfhau egwyddorion cyfleoedd cyfartal i bobl o bob cefndir ac amgylchiadau yn ei holl gynlluniau a'i weithdrefnau. |
| **21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>**(**Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | **Cymru sy'n fwy cyfartal –** Bydd yr holl flaenoriaethau sydd yn y Cynllun yn cyfrannu tuag at y nod o ddatblygu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.<br><br>Yn benodol, bydd ein amcan i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd yn sicrhau y bydd anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais gymdeithasol-economaidd yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw dyledus o fewn ein holl gynlluniau, polisiau a gweithdrefnau. |
| **23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?** | Na. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw ein hymrwymiad tuag at gydraddoldeb wedi'i gyfyngu i'r blaenoriaethau sydd yn y cynllun. Bydd y |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Cyngor yn cymryd mantais o unrhyw gyfleoedd newydd i hyrwyddo cydraddoldeb ymhellach fel y daw ystyrieaethau o'r fath yn fwy creiddiol yng ngwaith dydd i ddydd y Cyngor. |
| **24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn mynd drwy'r broses ganlynol i'w gymeradwyo:<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 4 Chwefror 2020<br>Pwyllgor Gwaith – 17 Chwefror 2020<br>Cyngor llawn – 10 Mawrth 2020 |
| **25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Byddwn yn adrodd yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar Cydraddoldeb ar gynnydd o ran cyflawni ein blaenoriaethau |



## Cam 5 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 4 Chwefror 2020 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Mae'r adroddiad yn cwrdd â'r gofyn statudol bod Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol. Darperir drosolwg o waith Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion allweddol ledled y rhanbarth i ddiogelu pobl. Amlinellir y camau nesaf a chynlluniau tymor hwy ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Hughes<br>01248751811<br>AnwenMHughes@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Bod Aelodau Etholedig yn ystyried a nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae'r Cyngor yn credu bod gan bob plentyn a phob oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Un o gyfrifoldebau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn diogelu'r bobl sy'n byw yn eu siroedd perthnasol. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio

- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
| --- |
| I ba raddau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol diweddaraf?<br>Effeithiolrwydd y bartneriaeth o ran cydweithio a dal ei gilydd i gyfrif?<br>A oes meysydd lle mae angen i'r byrddau allu dangos mwy o welliant o ran canlyniadau gwell i Blant ac Oedolion sydd mewn Perygl?<br>Sut mae Ynys Môn yn cefnogi ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y Bwrdd? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Fframwaith Cyfreithiol**

5.1Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 yn ymwneud â sefydlu'r Byrddau Diogelu a'u swyddogaeth. Mae rheoliadau 5 a 6 yn ymwneud â Byrddau Diogelu'n gwneud cynlluniau blynyddol ac adroddiadau blynyddol. Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19 gan holl aelodau'r Bwrdd Diogelu Plant a holl aelodau'r Bwrdd Diogelu Oedolion.

5.2 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Cydweithio i Ddiogelu Pobl yn nodi mai amcanion Bwrdd Diogelu Plant yw:

- Amddiffyn plant yn ei ardal sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'n dioddef mathau eraill o niwed, neu sydd mewn perygl ohonynt, ac
- Atal plant yn ei ardal rhag dod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu rhag mathau eraill o niwed.

ac mai amcanion y Bwrdd Diogelu Oedolion yw amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd –

- Ag anghenion gofal a chefnogaeth (p'un a yw awdurdod lleol yn cwrdd ag unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio), a
- Yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- Atal yr oedolion hynny yn ei ardal rhag dod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

5.3 Mae'r ddau fwrdd yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer diogelu, gan gynnwys cyfeiriad polisi a monitro effeithiolrwydd gwaith diogelu mewn asiantaethau ledled y rhanbarth. Mae'r byrddau yn comisiynu adolygiadau ymarfer ac yn lledaenu dysgu i ymarferwyr er mwyn sicrhau bod dysgu lleol yn hysbys yn eang a bod diogelu yn uchel ar y rhaglen ar bob lefel o'r gweithlu

**Blaenoriaethau 2018/19**

5.4 Bwrdd Oedolion - Gwella Canlyniadau, Cynyddu Gwybodaeth a Dysgu Parhaus, a datblygu Arweinyddiaeth Gref a Chydymffurfiaeth Dystioledig. Mae'r Bwrdd Plant wedi

canolbwyntio ar weithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth i gadw plant yn ddiogel rhag cam-fanteisio rhywiol a throseddol yng Ngogledd Cymru. Gwella'r ymatebion aml asiantaethol i blant sy'n dangos ymddygiadau rhywiol niweidiol a bod profiadau a chanlyniadau yn gwella i blant sydd wedi byw, neu sy'n byw gyda chamdriniaeth ddomestig

**Blaenoriaethau 2019/20**

5.5 Ar gyfer 2019/20, yn dilyn diwrnod datblygu busnes y Bwrdd a hefyd mewn trafodaeth â Byrddau Partneriaeth Diogelu eraill yng Ngogledd Cymru, nodwyd dwy flaenoriaeth strategol a rennir, gydag un flaenoriaeth yr un ar gyfer y Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion: Cam fanteisio [Blaenoriaeth a Rennir]: Cam-drin Domestig [Blaenoriaeth a Rennir]: Gwell ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth yn y Broses Oedolion mewn Perygl [Blaenoriaeth y Bwrdd Oedolion] a Diogelu mewn Addysg [Blaenoriaeth y Bwrdd Plant]

**Negeseuon Allweddol o'r Adroddiad Blynyddol**

5.6 Mae diogelu yn golygu bod rhaid gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac mae Adroddiad Blynyddol 2018/19 yn cydnabod arfer da ledled y rhanbarth, yn ogystal â meysydd i'w datblygu. Bydd y meysydd i'w datblygu yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer 2019/20.

5. 7 Mae risgiau amlwg i blant ac oedolion sydd mewn perygl os na ddarperir gwasanaethau ledled y rhanbarth mewn modd diogel a chadarn.

5.8 Mae diogelu yn golygu bod rhaid i bawb weithio gyda'i gilydd i ddiogelu pobl. Mae yna bartneriaeth gref a diwylliant o gydweithio wedi'u sefydlu ar draws ôl troed rhanbarthol mawr ac, ar gyfer y flwyddyn i ddod, mae ymrwymiad i gryfhau a chadarnhau'r cynnydd a wnaed hyd yma i ddiogelu ac amddiffyn yr aelodau mwyaf bregus yn ein cymunedau. Darn pwysig o waith yw'r adolygiad o'r strwythurau partneriaeth rhanbarthol cyfredol o safbwynt Diogelu a Diogelwch Cymunedol, er mwyn sicrhau y gellir rheoli materion cymhleth a thrawsbynciol fel Llinellau Sirol mewn ffordd effeithiol.

5.9 Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cydnabod yr angen i gryfhau lefel y cyfranogiad ac felly sefydlodd is-grŵp Ymgysylltu a Chyfranogi i hyrwyddo ymgysylltiad â Phlant / Oedolion a'u gofalwyr i sicrhau eu bod yn cael cyfle i gymryd rhan.

5.10 Mae ymgorffori'r Dysgu o'r Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Plant yn her ymarferol. Dros y deuddeng mis diwethaf mae'r grŵp Adolygu Ymarfer Plant wedi adolygu'r holl Adolygiadau Ymarfer Plant sydd wedi digwydd yng Ngogledd Cymru dros y tair blynedd diwethaf i sicrhau bod yr holl gynlluniau gweithredu yn cael eu cwblhau a'u bod yn cael eu cymeradwyo yn y Bwrdd.

**Cyflawniadau Allweddol y Byrddau Diogelu yn ystod 2018/19**

5.11 Enwebiad i Wobr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y categori “Dulliau effeithiol o Ymarfer Diogelu”, lle cafodd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ganmoliaeth uchel.

5.12 Sefydlu digwyddiadau cymunedau ymarfer i ddod â gwasanaethau ynghyd ac i rannu arfer da, heriau ac ymchwil gyda gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau mewn perthynas â Cham fanteisio'n Rhywiol ar Blant.

5.13 Lansio fideo ddiogelu o'r enw 'Gweld Rhywbeth / Dweud Rhywbeth' sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Diogelu ac i asiantaethau lleol ei defnyddio.

5.14 Cyfrannu at ddatblygiad y Gweithdrefnau Diogelu trwy gynrychiolaeth yn y Bwrdd Prosiect ac wedi ymateb i'r ymgynghoriadau ar yr adrannau perthnasol.

5.15 Ymgysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru a Byrddau Diogelu eraill ledled Cymru wrth ddatblygu Fframwaith Hyfforddi'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

5.16 Mae datblygiad parhaus gwefan y Bwrdd Diogelu wedi gweld cynnydd yn yr adnoddau a'r wybodaeth sydd ar gael, nid yn unig i weithwyr proffesiynol ond i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae nifer y bobl sydd wedi cofrestru i dderbyn diweddariadau wythnosol ar gyfer y wefan wedi cynyddu eto yn 2018/19 ac mae nifer yr ymweliadau â thudalennau'r wefan wedi cynyddu.

**Materion eraill sy'n berthnasol i waith y Byrddau Diogelu**
5.17 Mae gofynion, cymhlethdod a disgwyliadau cynyddol ar bob asiantaeth sy'n ymwneud â diogelu. Mae hynny, ynghyd â'r heriau ariannol, yn golygu heriau i bob asiantaeth. Un effaith o'r fath ar Fyrddau Diogelu yw bod gan Aelodau'r Byrddau lai o gapasiti bellach i ryddhau staff i gymryd rhan yng ngwaith y Byrddau megis darparu adolygwyr ar gyfer adolygiadau ymarfer Plant / Oedolion.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Mae Adroddiad Blynyddol 2018/19 yn grynodeb o'r gwaith a wnaed trwy gydol y flwyddyn ar draws ôl-troed Gogledd Cymru. Bydd cynigion / penderfyniadau unigol wedi cael eu hystyried.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn defnyddio'r fformiwla ariannu genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Mae cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â'r fformiwla hon. Cytunir y cyllidebau gan bartneriaid y Bwrdd Diogelu i sicrhau cynaliadwyedd wrth weithredu'r rhaglenni gwaith a chânt eu dwyn ymlaen hyd nes y cânt eu haddasu i sicrhau sefydlogrwydd a diogelwch y cyllid dros fwy nag un flwyddyn ariannol.

**8 – Atodiadau**

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19.

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

BWRDD Diogelu Gogledd cymru

north wales Safeguarding BOARD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU 2018/19

*“Dylai pob Plentyn, Person Ifanc ac Oedolyn yng Ngogledd Cymru allu tyfu, heb gamdriniaeth, esgeulustod neu drosedd, ac felly’n eu caniatáu i fwynhau bywyd hapus ac iach a chyflawni eu potensial.*

Gorffennaf 2019

## CYNNWYS:

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | **3** |
| | **Cyflwyniad** | **4** |
| | Amcanion y Byrddau Diogelu | **6** |
| **1.0** | Ynghylch Byrddau Diogelu Gogledd Cymru | **6** |
| **2.0** | Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol. | **9** |
| **3.0** | I ba raddau mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar. | **12** |
| **4.0** | Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gyda phobl neu gyrff eraill sy'n ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd. | **18** |
| **5.0** | Unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau. | **20** |
| **6.0** | Cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn. | **20** |
| **7.0** | I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd. | **26** |
| **8.0** | Asesiad o sut ddefnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau i arfer eu swyddogaethau neu gyflawni eu canlyniadau: | **41** |
| **9.0** | Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y dengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi ymdrin â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad: | **42** |
| **10.0** | Nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a wnaed cais amdanynt yn ardal y Bwrdd Diogelu. | **47** |
| **11.0** | Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu. | **48** |
| **12.0** | Unrhyw wybodaeth neu addysg mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymell neu ei ddarparu. | **50** |
| **13.0** | Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol. | **52** |
| **14.0** | Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu | **53** |
| | **Geirfa** | **56** |
| | **Gwybodaeth Gyswllt** | **57** |

## Rhagair:

Hoffwn eich croesawu i drydydd adroddiad blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad yn cael ei ysgrifennu yn unol â Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu 2015 (Cymru) i ddarparu asesiad cynhwysfawr a thryloyw o berfformiad y Bwrdd. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru o fis Ebrill 2018 hyd at fis Mawrth 2019.

**Os oes gennych unrhyw sylwadau am waith y Bwrdd, neu'n dymuno darganfod rhagor, gallwch gysylltu â Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar**

**01824 712903 neu**

**Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi cynhyrchu fersiwn Hawdd Ei Ddeall o'r adroddiad hefyd.**



## Cyflwyniad:



### Jenny Williams (Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru):

Mae’r Adroddiad Blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion a osodwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2018 fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol. Mae’r Bwrdd wedi parhau i aeddfedu dros y flwyddyn ddiwethaf i un lle mae cydweithio'n effeithiol a herio'n rhan o'n busnes bob dydd.

Gall Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ddangos sut rydym wedi dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol Ar Blant ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol. Rydym wedi ymateb i argymhellion gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a’r Comisiynydd Plant.

Mae cydweithio gyda BDOGC wedi bod yn gadarnhaol ac mae gennym agenda cyfoethocach gyda meysydd gwahanol o arferion ym meysydd gwasanaethau plant ac oedolion, sydd nawr yn cyfoethogi ei gilydd gydag ymarferwyr yn gweld budd dull gweithredu o bob oedran i amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl.

Bydd heriau o hyd mewn darparu gwasanaethau cymhleth ar draws ardal ranbarthol mor fawr â Gogledd Cymru, ond mae’r adroddiad blynyddol hwn yn dangos yn glir y cynnydd cadarnhaol wrth arddangos sut mae BDGC yn effeithio ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae’n anrhydedd, fel Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru i wasanaethu preswylwyr a chymunedau amrywiol rhanbarth Gogledd Cymru wrth arwain ar, a chyflawni amcanion y Bwrdd fel y nodwyd yn Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddiogelu ac atal plant y rhanbarth rhag profi camdriniaeth ac esgeulustod, yn ogystal â mathau eraill o niwed.

### Neil Ayling  (Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru):



Mae’r adroddiad blynyddol yn amlinellu’n fanwl y cynnydd rydym wedi ei wneud yn erbyn yr amcanion a osodwyd gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru fel rhan o’n Cynllun Strategol Blynyddol a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth, 2018.

Mae gan y Bwrdd ymrwymiad arbennig gan ei aelodau, sy’n sicr yn cefnogi’r daith tuag at welliant. Mae’r Bwrdd yn newid i fod yn gorff fwy cadarn, agored, yn adeiladol heriol sy'n parhau i ddatblygu, gyda ffocws clir ar ddiogelu oedolion mewn perygl, wrth galon popeth.

Daeth yn gynyddol amlwg bod y Bwrdd wedi gwella drwy agenda trawsbynciol sy’n canolbwyntio ar ddiogelu o safbwynt ‘pobl’. Mae’r adroddiad blynyddol yn cyfeirio at y gwaith rydym wedi ei gyflawni.

Mae safle Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn bryder i bawb, ac yn enwedig effaith yr honiadau o gamdriniaeth yn Nhawel Fan. Mae BDOGC wedi ymateb i ganfyddiadau adolygiad HASCAS ac wedi gallu profi, fel rhanbarth, y gwaith a wnaed, a'r gwaith rydym yn parhau i'w wneud ynghylch Arferion Diogelu Oedolion.

Daeth yn ffynhonnell o falchder mawr fod BDOGC wedi derbyn cymeradwyaeth uchel yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol am y gwaith a wnaed yn y maes hunan-esgeuluso.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i aelodau BDOGC a'r is-grwpiau am y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd dros y flwyddyn nesaf wrth hyrwyddo a gwella arferion ynghylch diogelu Oedolion mewn Perygl.

Newyddion

# Gwobrau 2018

13 Medi 2018
Gofal Cymdeithasol Cymru

## Cymeradwyaeth uchel:

**Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru** - am ei fenter *Protocol Hunan-esgeuluso,* a ddatblygwyd i atal anafiadau difrifol neu farwolaeth pobl hyd yn oed, sy'n hunan-esgeuluso, gan gefnogi eu hawl i gael eu trin â pharch ag urddas a "chynorthwyo gydag adnabod sefyllfaoedd o hunan-esgeuluso".



## Amcanion y Byrddau Diogelu:

Mae Canllaw "Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 1" Llywodraeth Cymru yn nodi mai amcanion y Bwrdd Diogelu Plant yw:

a) Amddiffyn plant sy'n dioddef yn ei ardal, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed, ac

b) Atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Amcanion y Bwrdd Diogelu Oedolion yw:

a) Amddiffyn oedolion o fewn ei ardal sydd -

(i) Angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio), ac

(ii) yn profi, neu mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod


b) Atal yr oedolion hynny yn yr ardal a nodwyd ym mharagraff (a) (i) rhag bod mewn risg o gam-drin neu esgeulustod.

Rôl y ddau Fwrdd yw gosod cyfeiriad strategol ar gyfer diogelu, gan gynnwys cyfeiriad polisi a monitro effeithiolrwydd diogelu o fewn asiantaethau ar draws y rhanbarth. Mae'r byrddau'n comisiynu adolygiadau ymarfer ac yn dosbarthu'r hyn sydd wedi'i ddysgu i ymarferwyr, sy'n sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yn lleol ar gael yn eang, a bod diogelu ar frig yr agenda ar bob lefel o fewn y gweithlu.


## 1.0 Ynghylch Byrddau Diogelu Gogledd Cymru:

<u>Strwythur</u>

Dangosir strwythur Byrddau Diogelu Gogledd Cymru isod:




*Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru*




*Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru*

Bwrdd Diogelu Oedolion / Plant Gogledd Cymru

Mae Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru'n cydweithio i fonitro a gwella gweithgarwch diogelu rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru. Mae'r ddau Fwrdd yn cynnwys uwch reolwyr o bob partner statudol allweddol ac asiantaethau (gweler y tabl aelodaeth). Bwriad y Byrddau Plant ac Oedolion yw darparu arweinyddiaeth a chanllawiau i bob asiantaeth ei gyfansoddiad drwy ddarparu blaenoriaethau strategol ar gyfer arferion gweithgarwch diogelu.

Grwpiau Cyflawni Lleol

Mae'r grwpiau cyflawni lleol yn gweithredu ar lefel isranbarthol yng Ngogledd Cymru. Mae gennym dri grŵp cyflawni lleol ar gyfer plant ac oedolion. Mae aelodaeth yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Plant ac Oedolion, uwch reolwyr a rheolwyr canol o asiantaethau statudol lleol, a dadansoddi data perfformiad lleol a chwblhau archwiliadau arferion i nodi gwelliannau i arferion a sefydlu unrhyw beryglon.

Mae LDG yn bwriadu rhannu a chydnabod enghreifftiau o arferion diogelu da, yn ychwanegol at hynny, byddant yn herio ac yn dal asiantaethau'n gyfrifol pan mae arferion diogelu'n disgyn o dan y safonau disgwyliedig.

Is-grwpiau Adolygiadau Rhanbarthol Ymarfer Plant / Oedolion

Mae'r Is-grwpiau Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion yn ystyried gwybodaeth yn erbyn meini prawf penodol o fewn 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Chyfrol 2 - Adolygiadau Ymarfer Plant' a chynnal atgyfeiriad i Gadeirydd y Bwrdd Oedolion/Plant.

Cynhelir Adolygiadau Ymarfer gan grŵp amlasiantaeth o weithwyr proffesiynol sy'n dadansoddi gwybodaeth a nodi unrhyw themâu a gwersi a ddysgwyd, ar y cyd. Yna, cyhoeddir yr adroddiad fel Adolygiad Ymarfer Plentyn/Oedolyn ar wefan y Bwrdd.

Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol:

Mae Is-grŵp Hyfforddiant y Gweithlu a Datblygu yn gweithredu ar y cyd ac mewn cysylltiad â'r Bwrdd Oedolion a Phlant. Mae'n bwriadu cefnogi a thywys darpariaeth hyfforddiant diogelu ac addysg ar draws ardaloedd y chwe awdurdod lleol a sefydliadau asiantaeth bartner. Mae'r Is-grŵp yn cydweithio'n agos gydag adrannau hyfforddi i

sicrhau a hyrwyddo ansawdd a chysondeb hyfforddiant a darpariaeth hyfforddiant diogelu.

Grŵp Ymgynghori, Cyfathrebu a Chyfranogi Rhanbarthol:

Mae'r Grŵp Ymgynghori, Cyfathrebu a Chyfranogi Rhanbarthol yn gweithredu i ddatblygu, adolygu a rhannu gwybodaeth ar ddiogelu i weithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc (tudalennau gwe, gweithgareddau cyffredinol i godi ymwybyddiaeth). Yn ychwanegol at hynny, mae'n anelu i sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu addas ar waith i fudd-ddeiliaid allweddol megis plant, pobl ifanc, oedolion, rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr i gyfathrebu gyda Byrddau Diogelu Gogledd Cymru.

Is-grwpiau Polisïau a Gweithdrefnau

Rôl is-grwpiau Polisïau a Gweithdrefnau Plant ac Oedolion yw datblygu polisïau a gweithdrefnau amlasiantaethol rhanbarthol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles Plant / Oedolion mewn perygl fel a gomisiynwyd/sydd ei angen gan:

- Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC)
- Datblygiadau newydd mewn deddfwriaeth neu ganllawiau

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC)

Aelodaeth BDPGC:

Barnardos Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr x 2

Cwmni Adsefydlu Cymunedol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy x 2

Cyngor Sir Ddinbych x 2

Cyngor Sir y Fflint x 2

Cyngor Gwynedd x 2

Cyngor Sir Ynys Môn x 2

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

NSPCC

Heddlu Gogledd Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cynrychiolydd o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam x 2

Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Aelodaeth BDOGC:

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr x 2 | Cynrychiolwyr o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol |
| Cynrychiolydd o Fforwm Gofal Cymru | Cyngor Gwynedd x 2 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy x 2 |
| Cenedlaethol Cwmni Adsefydlu Cymunedol | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cymunedol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam x 2 |
| Heddlu Gogledd Cymru | Cyngor Sir Ynys Môn x 2 |
| Cyngor Sir Ddinbych x 2 | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Cyngor Sir y Fflint x 2 | |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | CEM Berwyn |

## 2. Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol.

Mae BDPGC ac is-grwpiau yn parhau i esblygu i sicrhau effeithiolrwydd

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi gallu dangos gwelliannau parhaus mewn perthynas ag effeithiolrwydd y Byrddau. Yn ystod y flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Hwyluswyr Annibynnol i ystyried effeithiolrwydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn dilyn cyhoeddiad adolygiad HASCAS i brofiadau cleifion yn Nhawel Fan (Ward Iechyd Meddwl Ysbyty Glan Clwyd). Un o gasgliadau adroddiad yr Hwylusydd oedd:

***'Rydym wedi profi Bwrdd Diogelu Oedolion sydd wedi gwneud cynnydd da yn ystod 2018 i fynd i'r afael â pherthynas partneriaeth yr effeithir arnynt yn ddifrifol gan y pryderon a godwyd o'r adroddiadau a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â phrofiad claf yn Nhawel Fan.***

***Cyflawnwyd y cynnydd hwn drwy barodrwydd aelodau'r Bwrdd i ddysgu a gweithio gyda'i gilydd, gyda diben cyffredin glir o wella trefniadau diogelu oedolion yng Ngogledd Cymru***

Yn ychwanegol at yr adolygiad hwn, rydym wedi parhau i dderbyn adroddiadau amlygu o bob is-grŵp a gyflwynodd ymhob cyfarfod bwrdd, a hefyd wedi cynnal adolygiad hunanasesiad Datblygu Busnes ar y cyd gan ddefnyddio'r pecyn gwaith a ddarparwyd gan *Practice Solutions*.

Fel Bwrdd, rydym yn derbyn adroddiad blynyddol yr asiantaethau partner sy'n rhoi cyfle i aelodau'r Bwrdd i sicrhau ansawdd y gwaith diogelu sy'n cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru.

Mae gennym gynlluniau gwaith i'r dyfodol ar waith ar gyfer pob is-grŵp sy'n adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Bwrdd.

Wrth symud ymlaen i 2019/20, bydd Bwrdd Diogelu Oedolion a Phlant Gogledd Cymru'n cynnal cyfarfod Bwrdd ar y cyd yn ystod yr hydref. Bydd hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar y cyd, sydd wedi'u mabwysiadu gan y ddau Fwrdd ynghylch ecsbloetiaeth a cham-drin domestig yn 2019/20.

Mae'r bwrdd yn glir y bydd y model hwn yn parhau i esblygu a datblygu dros y flwyddyn i ddod, i fod yn gyfarfodydd Bwrdd Oedolion a Phlant ar y cyd. Caiff hyn ei gyflawni heb gyfaddawdu ffocws y Bwrdd o gynnal trafodaeth a rhoi lle i agendâu oedolion a phlant.

Sut mae BDGC yn cydweithio gyda Byrddau, Partneriaethau a phobl/cyrff eraill yn ei weithgareddau

Yn y bedwaredd Adran, byddwn yn tystiolaethu sut mae'r Bwrdd wedi bod yn cydweithio gyda Byrddau/Partneriaethau eraill yn ystod 2017-18, ar lefel lleol a chenedlaethol. Darn pwysig o waith a gychwynnwyd eisoes yng Ngogledd Cymru yw sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Partneriaeth i edrych ar ein strwythurau partneriaeth rhanbarthol presennol o safbwynt Diogelu a Diogelwch Cymunedol, er mwyn sicrhau bod materion cymhleth a thrawsbynciol megis Llinellau Sirol yn cael eu trin mewn modd effeithiol gan bartneriaethau ar draws y rhanbarth. Mae Cadeiryddion y byrddau Oedolion a Phlant yn rhan o'r grŵp tasg a gorffen hwn.

Cydnabyddir perygl dyblygiad ardaloedd posib ar draws Cymru rhwng y Byrddau Diogelu a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol penodol. Amlygodd Uned Trais a Bregusrwydd y Swyddfa Gartref y canlynol:

***"Dylai Heddlu Gogledd Cymru a'i bartneriaid yn y maes Diogelwch Cymunedol adolygu ei drefniadau cyfarfod a llywodraethu gyda'r bwriad o gyflawni strwythurau clir a llyfn sy'n osgoi mynd i ormod o gyfarfodydd, ond ar yr un pryd yn caniatáu gwneud cysylltiadau mewn perthynas â phroblemau cymhleth. Ar hyn o bryd, gall arwyddion a symptomau problemau amlygu eu hunain ar draws nifer o gyfarfodydd, heb i unigolyn allu "cyfuno popeth i weld darlun cyfan" tramgwyddo a'i effaith yn llawn ar y gymuned."***

Rydym wedi ymateb i beryglon yn y maes hwn yng Ngogledd Cymru drwy sefydlu grŵp tasg a gorffen. Bydd yr adroddiad ar gael yn llawn yn ystod hydref 2020 a bydd y Bwrdd yn ymateb i, ac yn gweithredu'r canfyddiadau.

Sut mae BDGC yn ymgysylltu’n rhagweithiol gyda Phlant /  Oedolion a’u gofalwyr i sicrhau eu bod yn cael cyfle i gymryd rhan.

Yn adroddiad llynedd, fe nodon ni faes gwella ynghylch yr angen i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru sicrhau ein bod yn hyrwyddo mwy o gyfleoedd i Blant/Oedolion a gofalwyr i ymgysylltu a datblygu blaenoriaethau’r Bwrdd.

Fe ymatebon ni i’r maes hwn drwy sefydlu Grŵp Ymgynghoriad, Cyfathrebu a Chyfranogi. Rydym wedi gallu nodi grwpiau cymunedol ar draws y rhanbarth sy’n gweithio gyda Phlant ac Oedolion mewn perygl ar hyn o bryd. Rydym wedi ymgysylltu â’r Panel Dinasyddion ar draws y rhanbarth i ymgysylltu gyda'r cyhoedd ehangach am eu barn ynghylch diogelu a blaenoriaethau.

yn Adran un ar ddeg, rydym yn mynd i fanylder am y pecynnau gwaith sydd wedi eu cynnal ar draws Gogledd Cymru.

Sut mae’r BDGC yn dosbarthu canfyddiadau o Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Plant

Un o’r prif heriau sy’n wynebu Byrddau Diogelu ar draws Cymru yw sicrhau bod addysg o adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant yn cael eu gweithredu i arferion, a sut, fel Bwrdd Diogelu, y mae modd i ni werthuso hyn.

Rydym wedi datblygu protocol Adolygu Ymarfer Plant / Oedolion, i egluro trefniadau ynghylch pa is-grwpiau fydd gan y prif gyfrifoldeb dros weithredu’r cynlluniau gweithredu/dysgu beth a nodwyd o Adolygiadau.

Yng Ngogledd Cymru, yr is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion sydd â’r prif gyfrifoldeb dros sicrhau bod y cynlluniau gweithredu/addysg o adolygiadau wedi cael eu cwblhau. Dros y deuddeg mis diwethaf mae’r Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant wedi gallu adolygu bob Adolygiad blaenorol a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru dros y tair blynedd diwethaf, a sicrhau bod pob cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau a'i gymeradwyo yn y Bwrdd.

Mae gennym themâu cysylltiedig o’r Adolygiadau Ymarfer Oedolion i’r rhaglen archwilio y mae’r grwpiau Cyflawni Lleol yn eu cynnal. Yn ystod 2018/19, cynhalion ni archwiliadau ynghylch ansawdd yr adroddiadau diogelu, ymgysylltiad â gwasanaethau eirioli ac o ran dewis achosion hunan-esgeuluso. Bydd rhaglen gwaith y dyfodol yn canolbwyntio ar feysydd ymarfer cam-drin domestig a diogelu oedolion, a maes taliadau uniongyrchol a diogelu.

Fel rhanbarth, rydym wedi cynnal cynhadledd yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu ar Ddysgu o adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion. Cyfrannodd nifer o siaradwyr gwadd yn y digwyddiad hwn, gan gynnwys yr Athro Michael Preston Shoot o Brifysgol Swydd Hertford sy'n darparu trosolwg o themâu allweddol Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn Lloegr.

Byddwn yn parhau i adolygu ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd i sicrhau ein bod yn gallu tystiolaethu ymhellach bod dysgu o adolygiadau yn cael eu gweithredu o fewn ymarferion.

## 3.0 I ba raddau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar.

Yn ystod 2018/19, roedd gan y Bwrdd Oedolion y meysydd blaenoriaeth canlynol:

**Blaenoriaeth 1 – Gwella Amcanion:** Er mwyn sicrhau bod ymatebion effeithlon, effeithiol a chydlynol i anghenion dynodedig oedolion mewn perygl a chanlyniadau mewn amcanion gwell iddynt

Beth ddywedon y byddwn yn ei wneud:

- Llunio cofrestr risg i sicrhau bod BDOGC yn ymwybodol o unrhyw risgiau o fewn, ac ar draws gwasanaethau a'u bod yn cael eu sicrhau a'u diweddaru ar unrhyw weithred a gymerir i leihau'r risg.
- Codi proffil/ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu oedolion diamddiffyn a rhoi grym i'r oedolion hynny ddiogelu eu hunain.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ataliad a diogelu'n cael eu cynnwys mewn modelau newydd o ddarpariaeth gwasanaeth (e.e. taliadau uniongyrchol)

**Beth ydym ni wedi ei gyflawni?**

**Datblygwyd cofrestr risg BDGC. Ymhob Bwrdd, mae gan pob asiantaeth y cyfle i amlygu unrhyw feysydd risg o fewn eu gwasanaeth. Mae'r Byrddau Oedolion a Phlant yn ystyried canfyddiadau unrhyw arolygiad rheoledig hefyd sydd wedi ei gynnal mewn perthynas ag asiantaeth bartner y Bwrdd.**

**Mae BDOGC wedi datblygu sawl deunydd codi ymwybyddiaeth newydd ynghylch diogelu oedolion. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cefnogi oedolion megis Cyswllt Conwy i ddatblygu'r deunyddiau hynny.**

**Fel BDOGC, rydym wedi cynnal gwaith gyda phartneriaid ynghylch atal. Cynhaliwyd digwyddiadau dysgu i amlygu bod materion ansawdd gofal yn gallu dwysáu i Adroddiad Oedolyn mewn Perygl. Enghraifft o'r gwaith a wnaed yng Ngogledd Cymru yw'r gwaith ynghylch Lansiad Protocol Herbert i leihau'r perygl o oedolion yn mynd ar goll o gartrefi preswyl / nyrsio.**

**Blaenoriaeth 2: Gwybodaeth Gwell ac Addysg Barhaus**:– Sicrhau ein bod yn adnabod yr oedolion sydd mewn perygl fwyaf yn ein rhanbarth, ac yn eu diogelu'n effeithiol. Parhau i ddatblygu a gwella'r modd rydym yn gweithio er mwyn gwella canlyniadau i oedolion mewn perygl.

**Beth ddywedon y byddwn yn ei wneud?**

Ymateb i gynlluniau gweithredu o'r Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion ac unrhyw adolygiadau proffil uchel arall, a'u rhoi ar waith, megis adolygiadau cenedlaethol/adolygiadau ymarfer er mwyn adnabod, a monitro gweithrediad newidiadau sydd yn helpu i atal camdriniaeth neu esgeulustod tebyg rhag digwydd i eraill, gan sicrhau'r Bwrdd bod partneriaid wedi cymryd camau priodol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut i ddarparu hyfforddiant amlasiantaethol ymysg oedolion

- Rhannu arfer da gyda gwasanaethau a gomisiynwyd/contract/partneriaid trydydd sector/preifat.
- Parhau i ddatblygu tudalennau ac adnoddau amddiffyn oedolion ar wefan Byrddau Diogelu Gogledd Cymru.

**Beth ydym ni wedi ei gyflawni?**

- **Aeth dros 100 o weithwyr proffesiynol amlasiantaethol i ddigwyddiad dysgu ymarfer oedolion/plant.**
- **Gan ddefnyddio'r Briff 7 Munud i amlygu Themâu Allweddol o Adolygiadau Ymarfer Oedolion.**
- **Mae BDGC wedi darparu hyfforddiant amlasiantaethol ynghylch diogelwch rhywiol ar wardiau, ac rydym wedi darparu hyfforddiant i asiantaethau partner ynghylch gwella ansawdd adroddiadau diogelu. Roedd yr hyfforddiant yn ymateb i ddangosyddion perfformiad a amlygodd cynnydd mewn adroddiadau diogelu, ond gostyngiad yn y nifer o adroddiadau sy'n cyrraedd trothwy ar gyfer cyfarfod Strategaeth Oedolion mewn Perygl.**
- **Rydym wedi datblygu canllawiau ymarfer ynghylch deg awgrymiad gwych er mwyn cwblhau'r Adroddiad Diogelu Oedolion.**
- **Rydym wedi cynyddu nifer y Tudalennau/deunyddiau gwybodaeth ynglŷn ag Amddiffyn Oedolion ar wefan BDGC.**

**Blaenoriaeth 3 - Arweinyddiaeth Gref a Thystiolaeth Cydymffurfio -**Darparu arweinyddiaeth gref mewn perthynas â diogelu a sicrhau bod Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn gallu dangos effeithiolrwydd wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol.

**Beth ddywedon y byddwn yn ei wneud?**

- Datblygiad parhaus y Fframwaith Rheoli Perfformiad (PMF) sy'n cynnwys set ddata a fframwaith hunanasesiad amlasiantaethol a gytunwyd arnynt.

- Datblygu system herio gadarn, a diwylliant o dderbyn i ymateb yn gadarnhaol.

- Sicrhau bod dysgu a gwelliannau wedi eu hymgorffori i ymarfer.

**Beth ydym ni wedi ei gyflawni?**

- **Mae'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a sefydlwyd yng Ngogledd Cymru yn ein caniatáu i fonitro patrymau data perfformiad ar draws y rhanbarth. Yng Ngogledd Cymru, rydym wedi gweld cynnydd mewn adroddiadau ar Ddiogelu. Mae esgeulustod yn brif thema diogelu o hyd o fewn yr adroddiadau Diogelu.**

- **Rydym hefyd wedi nodi patrymau ynghylch Ansawdd yr Adroddiadau Diogelu gan asiantaethau penodol, i sicrhau bod y gefnogaeth/hyfforddiant yn cael ei ddarparu i gynorthwyo asiantaethau gyda chwblhau'r ffurflen adrodd am ddiogelu.**

- **Yn ystod y cyfnod, roedd Hwyluswyr Llywodraeth Cymru'n arsylwi/cefnogi'r Bwrdd, ac roedd arsylwadau gan yr Hwyluswyr yn cynnwys "diwylliant cryf o fod yn gyfrifol" a "chyfarfodydd bwrdd gyda phresenoldeb da, adroddiadau addas, cofnodi camau gweithredu, cofnodion wedi'u cymeradwyo, cyfranogiad wedi'i ymgysylltu gyda pharch a her".**

Yn ystod 2018/19, roedd gan y Bwrdd Plant y meysydd blaenoriaeth canlynol:

**Blaenoriaeth 1: Bydd BDPGC ynghyd â'i bartneriaid yn gweithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth i gadw plant yn ddiogel rhag cam-fanteisio'n rhywiol a throseddol yng Ngogledd Cymru.**

**Beth ddywedon y byddwn yn ei wneud?**

Cwblhau'r gweithredoedd a nodwyd o fewn Cynllun Gweithredu BDPGC a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant

**Beth ydym ni wedi ei gyflawni?**

- Yng Ngogledd Cymru, rhoddodd asiantaethau partner nawdd ar gyfer secondiad Cynghorydd Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant. Mae'r Cynghorydd Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant, mewn partneriaeth gyda'r BDPGC wedi diweddaru ac adolygu'r camau gweithredu yn y cynllun. Cwblhawyd y camau gweithredu a nodwyd o fewn y cynllun Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant Cenedlaethol.

- Mae gan bump o'r chwe Awdurdod Lleol Baneli gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant misol ar waith erbyn hyn. Dyma gam cadarnhaol ymlaen wrth nodi a rheoli'r peryglon sy'n gysylltiedig ag achosion risg uchel lle nodir ecsbloetiaeth plant.

- Mae pob un o'r chwe awdurdod lleol yn cynnal Cyfarfodydd Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant yn unol â'r canllaw cyfredol. Cynhaliwyd archwiliadau ymarfer ar ran y Bwrdd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn y maes hwn.

- Mae pob asiantaeth yng Ngogledd Cymru wedi nodi Arweinydd yn y maes Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant ar lefel strategol.

- Mae cam ymlaen eisoes yn y Paneli Sefydledig Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant i gynnwys ffurfiau gwahanol o ecsbloetiaeth h.y. ecsbloetiaeth troseddol, masnachu pobl.

- Mae datblygiad digwyddiadau cymuned ymarfer wedi cael ei dderbyn yn gadarnhaol ar draws Gogledd Cymru, ac wedi bod yn gyfle da i rannu arferion da, datblygiadau a heriau, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- Cyfweliadau dychwelyd adref, mae awdurdodau lleol wedi penodi nifer penodol o staff i gwblhau pob cyfweliad dychwelyd adref.

**Blaenoriaeth 2: Gwella ymatebion aml-asiantaeth i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol (YRhN):**

**Beth ddywedon y byddwn yn ei wneud?**

Gweithredu'r casgliadau yn archwiliad rhanbarthol Ymddygiad Rhywiol Niweidiol yr NSPCC a llunio'r cynllun gweithredu rhanbarthol.




| Scoring | |
|---|---|
| 0 | Dim o gwbl/ dim erioed/ dim tystiolaeth o gwbl |
| 1 | Ychydig iawn/ anaml / ychydig dystiolaeth |
| 2 | I ryw raddau mae weithiau rhywfaint o dystiolaeth o hyn |
| 3 | I gryn raddau, mae tystiolaeth dda o hyn |
| 4 | Bob amser/ i raddau helaeth mae cyfoeth o dystiolaeth arbennig o gryf dros hyn. |

Sgôr cyffredinol o bob asiantaeth oedd 2. *Mae tystiolaeth ar hyn i ryw raddau, weithiau. Amlygodd hyn fylchau ar draws y rhanbarth ymhob un o'r pum maes.*

**Beth ydym ni wedi ei gyflawni?**

- **Derbyn dros 80 o ymarferwyr amlasiantaeth i gynhadledd ranbarthol ar ymddygiad rhywiol.**
- **Datblygiad Cynllun Gweithredu Rhanbarthol. Caiff y cynllun gweithredu ei ymgorffori i gynllun gweithredu Cam-Drin Rhywiol Plant Cymru Gyfan.**
- **Cwblhad archwiliad cydymffurfio mewn perthynas â'r Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan.**
- **Mae hyfforddiant Amlasiantaeth ar gael ar draws y rhanbarth ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol.**

**Blaenoriaeth 3: Gwelliant i brofiadau, ac amcanion i blant sydd wedi byw, neu'n byw gyda cham-drin domestig.**

**Beth ddywedon y byddwn yn ei wneud?**

- Bydd BDPGC yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y cydymffurfir â gofynion Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**Beth ydym ni wedi ei gyflawni?**

- Diwygio ffurflen adrodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i sicrhau fod gennym ystod ehangach o ddata i gydymffurfio â VAWDASV.
- Hyrwyddo Deunyddiau Cyhoeddusrwydd a rennir ar draws y rhanbarth.
- Mae aelodau BDPGC yn rhan o is-grŵp hyfforddiant VAWDASV.

O ddiwrnod datblygu busnes y Bwrdd, a mewn trafodaeth gyda Byrddau Partneriaeth Diogelu eraill yng Ngogledd Cymru, roedd modd i ni nodi dwy flaenoriaeth gyffredin ac un blaenoriaeth unigol ar gyfer Bwrdd Plant ac Oedolion 2019/20:

**Ecsbloetiaeth** (Blaenoriaeth gyffredin)

**Cam-Drin Domestig** (Blaenoriaeth gyffredin)

**Gwell ymwybyddiaeth a chydymffurfio â'r Broses Oedolion mewn Perygl** (Blaenoriaeth Bwrdd Diogelu Oedolion)

**Diogelu mewn Addysg** (Blaenoriaeth Bwrdd Diogelu Plant)

# 4.0 Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gydag unigolion neu gyrff eraill sy'n ymgymryd â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd;

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Uned Fusnes BDGC wedi parhau i fynd i gyfarfod Rheolwyr Busnes Cymru Gyfan gyda Llywodraeth Cymru. Fel rhanbarth, mae'n rhaid i ni barhau i gefnogi datblygiad Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol drwy gynnal cyfarfodydd Polisi a Gweithdrefnau ar y Cyd i ddarparu adborth ar y gweithdrefnau. Mae gennym ddau gynrychiolydd ar y bwrdd prosiect. Fel rhanbarth, rydym wedi darparu adborth manwl ar bob adran y gweithdrefnau drafft.

<u>Gofal Cymdeithasol Cymru</u>

Mae Byrddau Diogelu Gogledd Cymru wedi ymgysylltu a gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar broses datblygu fframwaith hyfforddi amlasiantaeth cenedlaethol, a hefyd ar y ddogfen safonau cenedlaethol i hyfforddwyr sy'n darparu hyfforddiant Diogelu. Datblygwyd y ddogfen safonau yng Ngogledd Cymru'n wreiddiol. Bydd Rheolwr Busnes y Bwrdd a Chadeirydd yr Is-grŵp Hyfforddi Gweithlu Rhanbarthol yn parhau i gwrdd â Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheolaidd.

<u>Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd</u>

Rydym yn cynnal cyfarfod blynyddol gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i rannu cynnydd ar ein blaenoriaethau priodol. Drwy adlewyrchu'r gwaith Partneriaeth ar draws Gogledd Cymru, rydym wedi alinio'r flaenoriaeth ecsbloetiaeth ar draws y Bartneriaeth Diogelu yng Ngogledd Cymru.

<u>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol</u>

Mae Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu yn cwrdd yn flynyddol gyda Rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Ffocws y cyfarfod yn benodol yw edrych ar themâu ymarfer yr Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig. Yn ystod y flwyddyn fusnes nesaf, byddwn yn lansio protocol ar y cyd, yn ffurfiol rhwng y Bwrdd Diogelu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ynghylch y rhyngwyneb rhwng adolygiadau ymarfer ac adolygiadau dynladdiad domestig.

<u>Crwneriaid Gogledd Cymru</u>

Yn ychwanegol at hynny, byddwn yn cynnal cyfarfod blynyddol gyda dau o Grwneriaid Arweiniol Gogledd Cymru. Ffocws y cyfarfod hwn yw ystyried y themâu

addysgol a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn adroddiadau'r Crwneriaid a'r themâu ymarfer o Adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion. Meysydd y mae'r Crwner a'r Bwrdd Diogelu wedi eu nodi mewn perthynas ag oedi WAST wrth ymateb i ddigwyddiadau tyngedfennol. Mae'r Crwner/Crwneriaid a'r Bwrdd Diogelu wedi gofyn am gadarnhad gan WAST ynghylch gwelliannau i'r gwasanaeth.

Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru nawr yn cynnal cyfarfod blynyddol gyda Arolygiaeth Gofal Cymru. Ffocws y cyfarfod hwn yw rhannu gwybodaeth ynghylch themâu ymarfer presennol. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyfrannu at Adolygiadau Ymarfer Oedolion hefyd fel aelod ar y Panel Adolygu mewn perthynas ag achosion lle maent wedi eu cynnwys o fewn yr achos. Mae Arolygiaeth Cymru wedi nodi maes gwella yng Ngogledd Cymru o ran cysondeb rheoli'r broses Dwysáu Pryderon.

Bwrdd Diogelu Gorllewin Swydd Gaer

Yn ychwanegol at weithio gyda'r Byrddau Diogelu Penodol yng Ngogledd Cymru, rydym yn cynnal cyfarfod blynyddol gyda Bwrdd Diogelu Gorllewin Swydd Gaer hefyd. Y rheswm dros y cyfarfod hwn yw cysylltiadau daearyddol agos rhwng Swydd Gaer a Gogledd Cymru, gyda nifer o breswylwyr Gogledd Cymru yn cael mynediad at wasanaethau megis Iechyd yn Swydd Gaer. Rydym yn gweld nifer o achosion diogelu sy'n trosglwyddo i mewn/allan rhwng yr ardaloedd penodol hefyd.

Cyflwynodd Uned Fusnes BDGC i Reolwyr Busnes Rhanbarthol eraill y Gogledd Orllewin mewn perthynas â'r Broses Adolygu Ymarfer yng Nghymru

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd BDPGC gyflwyniad gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol. Mae asiantaethau partner o Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ar gais. Mae BDPGC wedi adlewyrchu ar addysg o adroddiad diweddar ar Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn Sefydliadau Gwarchodol hefyd: 2009-2017 – Adroddiad archwilio (IISCA, Chwefror 2019). Mewn ymateb i'r

adroddiad hwn, gofynnon ni i Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid penodol yng Ngogledd Cymru, i adolygu lleoliad cofnodion unrhyw berson ifanc a oedd yn un o'r sefydliadau gwarchodol a nodwyd o fewn yr adroddiad yn ystod cyfnod 2009-2017. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau a amlygodd y person ifanc yn cael eu trin yn briodol.

## 5.0 Unrhyw geisiadau a wnaed gan y Bwrdd Diogelu i bersonau cymwys o dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd â’r ceisiadau.

Yn ystod y cyfnod 18/19, ni wnaeth BDGC unrhyw geisiadau i bersonau cymwys o dan Adran 137 (1) y Ddeddf. Hoffwn amlygu, fel BDGC, ni gynhaliwyd trafodaethau ynghylch defnydd y ddeddfwriaeth hon mewn perthynas ag Adolygiad Dysgu a oedd yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Tennis Lawnt yn dilyn digwyddiad diogelu yng Nghanolfan Tennis Gogledd Cymru.

Ni chafodd BDGC ei hysbysu gan y Gymdeithas Tennis Lawnt bod y gwaith wedi dechrau, cyn comisiynu’r adolygiad. Yn dilyn sawl trafodaeth gyda’r LTA, cawsom ein darbwyllo ynghylch y broses adolygu.

## 6.0 Cyflawniadau’r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn:

<u>Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru:</u>

Fel yr amlygwyd yn adroddiad blynyddol llynedd, cynhaliodd BDOGC waith sylweddol ym maes ymarfer hunan-esgeuluso. O’r addysg gychwynnol gan dri adolygiad ymarfer oedolion yng Ngogledd Cymru, fe nodwyd bod hunan-esgeuluso yn thema ailadroddus ymhob un o’r adolygiadau. Roedd yn glir bod gan staff amlasiantaethol ddealltwriaeth gyfyngedig ynghylch materion hunan-esgeuluso. Cafwyd argymhelliad yn nghynllun gweithredu Adolygiadau Ymarfer Oedolion ar gyfer datblygu protocol rhanbarthol hunan-esgeuluso.

Arweiniodd y gwaith a gynhaliodd BDOGC dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn enwebiad yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cafwyd cymeradwyaeth uchel i Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yng nghategori “Dulliau Effeithiol o Ddiogelu”.





Mae BDOGC wedi parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y Protocol Hunan-esgeuluso, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Gweithdai Hunan-esgeuluso a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu.

- Datblygu Taflenni Gwybodaeth ar Hunan-esgeuluso i'r Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol.
- Cynhadledd Ranbarthol ar Hunan-esgeuluso. Cyflwyniad gan yr Athro Michael Preston Shoot

Yn ychwanegol at hynny, adolygodd y Grŵp Polisi a Gweithdrefnau'r protocol ac maent wedi ychwanegu canllaw ychwanegol at y broses asesu.




## Protocol Herbert


Ym mis Medi 2018, lansiodd BDOGC "Protocol Herbert" yn ffurfiol, mewn partneriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru. Roedd BDOGC wedi cynnwys yr Awdurdod Lleol yn flaenorol i beilota'r protocol yng Ngogledd Cymru.





Mae Protocol Herbert yn fenter su'n annog gofalwyr/ staff gofal preswyl i gydsynio gwybodaeth ddefnyddiol a ellir ei ddefnyddio mewn digwyddiad o berson diamddiffyn ar goll.

Roedd yn amlwg o'r canfyddiadau cychwynnol bod y protocol yn ddatblygiad cadarnhaol yn y rhanbarth. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan Deuluoedd/Gofalwyr a gan asiantaethau partner.

Yn y digwyddiad lansio, cafwyd cyflwyniadau gan Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Achub Tân a Mynydd ac arweinydd Dementia ar gyfer y BCU.



Parhad Digwyddiadau Ymarfer



Mewn partneriaeth gyda Chynghorydd Rhanbarthol Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant, mae BDPGC wedi sefydlu digwyddiadau Parhad Ymarfer. Gan weithio ar draws y rhanbarth a gydag asiantaethau partner, roedd yn glir bod llawer o arferion da'n cael eu cynnal wrth nodi a chefnogi plant a theuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan Gamfanteisio'n Rhywiol Ar Blant, fodd bynnag mae bwlch o hyd wrth rannu arferion ar draws y rhanbarth.

Roedd y syniad o ddatblygu Digwyddiadau Cymuned Ymarfer yn gyfle i ddod â gwasanaethau at ei gilydd, gan rannu arferion da, heriau a gwaith ymchwil gyda gweithwyr proffesiynol o asiantaethau gwahanol.

Diwrnod Datblygu Busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Daeth aelodau BDOGC a BDPGC ynghyd ym mis Ionawr 2019 i adlewyrchu ar y cynnydd a wnaed llynedd i ddatblygu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn 2019/20 i ddod.

Fel rhan o'r Diwrnod Datblygu Busnes, cwblhaodd aelodau'r bwrdd y pecyn gwaith hunanasesiad a ddatblygwyd gan *Practice Solutions*.

Y pum thema ar gyfer Byrddau Diogelu yng Nghymru yw:

- Mae gennym drefniadau llywodraethu effeithiol.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gref ac yn cydweithio'n effeithiol.
- Rydym yn cymryd cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y Bwrdd a'i waith.
- Rydym yn canolbwyntio ar ansawdd a pherfformiad plant ac oedolion.
- Rydym yn deall ein cyfrifoldebau diogelu a sut i'w bodloni.

Fel Bwrdd rydym wedi cynnwys system sgorio o fewn y pecyn gwaith.

- 0 = Nid yw'r BDGC wedi cychwyn ystyried y safon penodol hwn ac/neu nid ydynt yn ymwybodol o anghenion rheoliadau'r Bwrdd Diogelu ynghylch y safon;
- 1 = Efallai bydd y safon a gydnabyddir gan yr aelodau, mewn dogfen lywodraethu, cynllun neu'n bodoli fel system 'mae gennym is-grŵp' ond cynhelir gwaith cyfyngedig tuag at ei gyflawni;
- 2 = Mae BDGC wrthi'n gweithio tuag at gyflawni'r safon hon;

- 3 = Cyflawnwyd y safon, mae’n cael ei chynnal/ei datblygu ac mae'n cyfrannu at well cydweithrediad ac effeithiolrwydd diogelu;

Canlyniad yr Hunanasesiad oedd:

| | **Band 3 = Cyflawnwyd y safon, mae’n cael ei chynnal/ei datblygu ac mae'n cyfrannu at well *cydweithrediad ac effeithiolrwydd* diogelu;** |
|---|---|
| Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gref ac yn cydweithredu'n effeithiol. | **Band 3** = Cyflawnwyd y safon, mae’n cael ei chynnal/ei datblygu ac mae'n cyfrannu at well *cydweithrediad ac effeithiolrwydd* diogelu |
| Rydym yn cymryd cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y Bwrdd a’i waith. | **Band 3** = Cyflawnwyd y safon, mae’n cael ei chynnal/ei datblygu ac mae'n cyfrannu at well cydweithrediad ac effeithiolrwydd diogelu |
| Rydym yn canolbwyntio ar ansawdd a pherfformiad plant ac oedolion. | **Band 2** = Mae BDGC *wrthi'n gweithio* tuag at gyflawni'r safon hon |
| Rydym yn deall ein cyfrifoldebau diogelu a sut i’w bodloni. | **Band 3** = Cyflawnwyd y safon, mae’n cael ei chynnal/ei datblygu ac mae'n cyfrannu at well *cydweithrediad ac effeithiolrwydd* diogelu |

Fel Bwrdd Diogelu, rydym wedi nodi bod angen o hyd i allu dangos gwelliant yn y maes canlyniadau gwell i Blant ac Oedolion mewn Perygl yn dilyn gwaith y Bwrdd.

Rydym wedi nodi bod gwaith atal yn faes ymarfer y mae angen i’r Bwrdd dystiolaethu’n fanylach.

<u>Wythnos Genedlaethol Diogelu</u>

Ym mis Tachwedd 2018, cydlynodd a chefnogodd bwrdd yr Uned Fusnes, mewn cydweithrediad â Grwpiau Cyflawni Lleol, rhaglen ranbarthol o ddigwyddiadau i gefnogi Wythnos Genedlaethol Diogelu

Cydlynwyr y Bwrdd Busnes oedd y cyswllt rhwng y grŵp hwn a Llywodraeth Cymru, NISB a Byrddau eraill Cymru sydd wedi gweithio ar y cyd i ddarparu cysondeb mewn dulliau ac adnoddau yr oedd modd eu defnyddio ymhob maes. Mae hyn yn cael ei gynnwys yn y pecyn cyfathrebu gyda thaflenni ffeithiau ar bob thema diogelu, trydariadau a dyfyniadau cyn cael eu cyfieithu, datganiadau i'r wasg a lluniau i'w defnyddio gan dîm cyfathrebu bob sefydliad, lle bo'n briodol.

Thema'r wythnos oedd Ecsbloetiaeth.

Datblygodd Cydlynydd Busnes BDOGC gyfres o "Daflenni Ffeithiau" ar wahanol ffurfiau o ecsbloetiaeth.

Roedd cynhadledd BDGC yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu'n cynnwys cyflwyniadau ar:

- Linellau Sirol
- Caethwasiaeth Fodern
- Cam-drin Rhywiol ar Blant
- Priodas Dan Orfod

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad grymus gan ddioddefwr rheolaeth drwy orfodaeth a thrais domestig.

Yn ychwanegol at hynny, lansiodd BDGC ei fideo diogelu – Gweld Rhywbeth, Dweud Rhywbeth

Mae'r fideo ar gael ar wefan y Bwrdd Diogelu ac ar gael er defnydd asiantaethau lleol.

Gweld Rhywbeth - Dweud Rhywbeth




<u>Wythnos Genedlaethol Diogelu</u>

*Digwyddiad Budd-ddeiliaid CVSC*






*Sally Holland - Comisiynydd Plant Cymru*






***Cynhadledd Ecsbloetiaeth BDGC***




***Digwyddiad Dysgu Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant***

# 7.0 I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd.


Mae’r cyfranogiad a’r gefnogaeth gan Aelodau’r Bwrdd, cynrychiolwyr yr is-grwpiau a’u gwasanaethau cynnal yn adnodd gwerthfawr iawn i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Maent wedi ymgysylltu a chefnogi’r agenda diogelu drwy gydol y flwyddyn. Ar adegau, bu heriau a rhwystredigaeth, ond mae’n amlwg bod pawb yn teimlo’n angerddol dros yr hyn maent yn eu gwneud, ac maent yn gweithio’n galed i sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni’r dyheadau a nodwyd yn y cynlluniau busnes i sicrhau canlyniadau  gwell i’r dyheadau hynny y gosodwyd yn y cynlluniau busnes i sicrhau canlyniadau gwell i’r sawl sy’n ddiamddiffyn.

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r Uned Fusnes wedi monitro presenoldeb y Byrddau Oedolion a Phlant.

Mae presenoldeb cyffredinol asiantaethau allweddol yn y Bwrdd Oedolion wedi bod yn dda, ac mae’r Cadeirydd yn awyddus bod presenoldeb y swyddogion allweddol yn yn gallu sicrhau ymgysylltiad gwell gyda gwasanaeth y carchar.



Yn yr un modd, roedd presenoldeb y Bwrdd Plant yn dda, ac eto, mae'r Cadeirydd yn awyddus i gynnal aelodaeth cyson.




Yn ogystal â hynny, mae’r Uned Fusnes wedi dilyn presenoldeb yr is-grwpiau penodol ar gyfer 2018/19. Rydym wedi gweld gwelliannau mewn presenoldeb ar draws pob is-grŵp.

Adroddiadau Asiantaethau Partner

Mae’n rhaid i bob aelod o'r bwrdd lunio adroddiad Blynyddol, bob blwyddyn.

Mae’r adroddiad yn arddangos y canlynol:

- Ymgysylltiad da â’r Bwrdd
- Gwaith sy’n cael ei gynnal i gefnogi blaenoriaethau’r Bwrdd
- Enghreifftiau o achosion arferion da

**Rhai o’r negeseuon allweddol gan adroddiadau blynyddol yr asiantaethau partner:**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol dros

y deuddeg mis diwethaf. Mae’n rhaid nodi gwaith y Cyfarwyddwr Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb arweiniol dros Ddiogelu yn enwedig, sydd wedi darparu cefnogaeth

Cyflawni Lleol Plant erbyn hyn. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i gynrychioli ar bob is-grŵp.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflwyno data perfformiad diogelu lleol i bob cyfarfod y Grŵp Cyflawni Lleol sy’n galluogi a chefnogi monitro ymarfer diogelu, a nodi themâu a phatrymau.

Mae’n rhaid cydnabod bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i ymateb i adroddiad HASCAS yn dilyn ymchwiliad o ymarfer diogelu ar Ward Iechyd Meddwl, ac enghraifft o hyn mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol ac is-adran MHLD, mewn partneriaeth â CANIAD, yw y datblygwyd Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu arfer orau ac i sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y ddau glaf a dderbyniwyd ar y Wardiau Iechyd Meddwl.

Mae Diogelu Corfforaethol wedi ymgysylltu’n llawn gyda datblygiad Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru Gyfan, sydd ar fin cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2019.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi llunio pecyn hyfforddiant ‘Llinellau Sirol’ i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r mater hwn ar draws y sefydliad. Mae Heddlu Gogledd Cymru (HGC) wedi bod yn darparu hyfforddiant Llinellau Sirol ar draws y werthfawr i’r Uned Fusnes yn ei rôl fel Is-gadeirydd y Bwrdd Oedolion.

Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Cadeirydd un o’r Grwpiau bwrdd iechyd mewn ardaloedd allweddol hefyd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ymgysylltu’n llawn yn asesiad o anghenion Llinellau Sirol yr arweiniwyd gan HGC i adolygu anghenion hyfforddiant presennol ar draws sefydliadau yn Ngogledd Cymru.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi mewnosod addysg o Adolygiadau Ymarfer Plant e.e. Asesiadau Cyn Geni.

**Arferion Da - Digwyddiad Hyfforddant Amlasiantaethol, Canolog**

Mae cydweithio agos rhwng partneriaid amlasiantaethol yn golygu bod profiad cleifion wedi gwella. Fel cefnogaeth, cynhaliwyd digwyddiad hyfforddiant amlasiantaethol, a drefnwyd a’i hwyluswyd gan y Tîm Diogelu Corfforaethol. Roedd yr Asiantaethau’n cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol, WAST, NSPCC, Barnardo's a CAMHS.

Daeth 104 o gyfranogwyr i’r diwrnod hyfforddiant yn narlithfa Ysbyty Glan Clwyd, gyda 48 o ymgeiswyr pellach yn ymuno ar fideo gynadledda o ysbytai cymunedol ar draws Gogledd Cymru. Roedd y gynulleidfa darged yn cynnwys gwasanaeth iechyd rhywiol, nyrsio ysgolion, bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, gwasanaethau pediatrig, MHLD, Meddygon Teulu a pediatryddion.

Roedd hi'n ddiwrnod ardderchog gyda sesiynau ar Blant Dan Ofal, Llinellau Sirol, Ecsbloetiaeth, Caethwasiaeth Fodern, VAWDASV, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Bu gwerthusiadau gwych ac roedd y sesiynau'n rhyngweithiol iawn, gan gynnwys cymysgedd o ddulliau dysgu. Y bwriad yw ailadrodd y sesiynau defnyddiol hyn yn flynyddol.

Heddlu Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi chwarae rôl weithredol wrth gefnogi gwaith y Bwrdd. Mae presenoldeb ar y ddau brif Bwrdd wedi bod yn wych. Rydym yn gwerthfawrogi mewnbwn Heddlu Gogledd Cymru, yn enwedig cadeirio un o'r Adolygiadau Ymarfer Plant cyfredol.

Mewn perthynas â Blaenoriaethau Rhanbarthol, bydd Camfanteisio Troseddol yn disgyn o dan gylch gwaith tîm newydd drwy gyfuniad timau Caethwasiaeth Fodern ac Onyx (Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant). Bydd hyn yn ehangu cylch gwaith y timau MDS i gynnwys oedolion diamddiffyn ac ecsbloetiaeth drwy gamdriniaeth megis meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau a materion ar sail anrhydedd.

Protocol Herbert – Mae'r protocol yn parhau i dyfu ac wedi cael ei gyflwyno i gartrefi gofal ar draws Gogledd Cymru, yn ogystal â bod ar gael i deuluoedd ar draws yr ardal. Cafodd sylw lleol a chenedlaethol yn y cyfryngau, a bydd yn cael ei hyrwyddo fel rhan o wythnos ymwybyddiaeth dementia ym mis Mai 2019 i godi ei broffil ymhellach a hefyd i ganiatáu adborth drwy rym sianeli'r cyfryngau cymdeithasol.

**Astudiaethau Achos Arferion Da:**

Cymerwyd oedolyn diamddiffyn gyda Syndrom Down's i siop gyda 3 gofalwr, ffoniodd aelod o'r cyhoedd (gofalwr ei hun) yr heddlu i adrodd ei fod o'r farn bod gwryw wedi cael ei gam-drin a'i drin yn wael gan y gofalwyr yn y siop. Erbyn i'r heddlu gyrraedd, roedd yr oedolyn a'r gofalwyr wedi gadael, ond rhoddodd y siop y Teledu Cylch Caeedig a oedd ar gael. Rhannodd LPS a'r gwasanaethau cymdeithasol y recordiad Teledu Cylch Caeedig i geisio adnabod yr oedolyn. Fe'i adnabuwyd mewn llai na 24 awr a chafodd y gofalwyr eu gwahardd a chychwynnwyd ymchwiliad gan yr heddlu. Ar ôl llawer o ymholiadau, nid oedd popeth yr hyn a feddyliwyd i gychwyn, ac ni gymerwyd unrhyw gamau pellach, ond bu cyfarfodydd diogelu a gyfeiriodd at bopeth.

Yr un diwrnod â digwyddiad y siop, cyflwynodd yr ysbyty atgyfeiriad diogelu, gan ei fod wedi mynd yno gydag un o'r gofalwyr, cafodd hyn ei drin yn gyflym a chafodd y gofalwr waharddiad.

Rhai wythnosau'n ddiweddarach, dangosodd Deledu Cylch Caeedig y cartref yr oedolyn diamddiffyn yn cael ei ymosod yn gorfforol gan staff gofal eraill, eto, fe gysylltwyd â'r heddlu ac fe ddiogelwyd yr oedolyn. Cafodd y rhai dan amheuaeth eu diswyddo o'r cartref.

Roedd hyn yn “ddiwylliant” yr oedd y tîm a oedd yn gofalu am y dyn diamddiffyn wedi ei ddatblygu, a gyda chymorth y cyhoedd, y tîm rheoli yn y cartref, yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, cafodd y dyn ei ddiogelu ac mae'r ymchwiliad troseddol yn parhau.

Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi chwarae rhan lawn a gweithredol yng ngwaith y Bwrdd gyda phresenoldeb ardderchog ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd gan gynnwys yr is-grwpiau.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud o fewn y Cyngor o amgylch yr agenda Diogelu Corfforaethol.

Enghraifft dda o hyn yw datblygiad y Cyngor Diogelu i Yrwyr Bws Ysgol – mae'r Cyngor wedi llunio canllawiau arferion da i yrwyr Bws Ysgol ar ôl dysgu o nifer o gyfarfodydd Strategaeth Cam-Drin Proffesiynol. Mae'r rhain yn darparu set o ganllawiau i yrwyr bws a phobl ifanc ar y safon ymddygiad a ddisgwylir. Yng nghyfarfod pob Grŵp Cyflawni Lleol, mae'r cyfarfodydd yn ystyried themâu ymarfer o Gyfarfodydd Strategaeth Cam-Drin Proffesiynol.

Yn ystod 'Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd' roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn dathlu drwy wahodd Hibo Wardere, ymgyrchydd a anwyd yn Somali yn erbyn anffurfio organau cenhedlu benywod i siarad gyda ni am ei phrofiad o anffurfio organau cenhedlu benywod fel dioddefwr a chafwyd sgwrs ysbrydoledig a llawn gwybodaeth ganddi i'r staff.

Cydweithio gyda chydweithwyr BIPBC ynglŷn â chyfraddau atgyfeirio o'r ysbyty lleol wedi profi'n fuddiol gyda threfniadau adrodd yn chwarterol nawr i ddatblygu dealltwriaeth a rennir a gwelliannau ansawdd i ddinasyddion.

**Astudiaeth Achos Arfer Da:**

Cafodd P ei asesu ac angen gofal 24 awr yn dilyn cyfnod o ddirywiad corfforol a gwybyddol cyflym. Roedd P wedi sôn wrth yr Eiriolwr ei fod yn dymuno dychwelyd adref a gwnaed cais i'r Llys Gwarchod i wneud penderfyniad.

Cyn y gwrandawiad roedd yna waith amlasiantaeth ardderchog rhwng P, y teulu, gweithiwr cymdeithasol, therapi galwedigaethol, CPN a'r Seiciatrydd yn edrych ar ystod o ddewisiadau i P ddychwelyd adref. Roedd y rhain yn cynnwys cefnogaeth deuluol, technoleg gynorthwyol, gofal yn y cartref, gofal dydd ac ati. Hefyd cafodd P y cyfle i ddychwelyd gartref ar gyfer ymweliad gyda chefnogaeth eiriolwr a theulu a cheisio sefydlu barn P. Yn ystod yr ymweliad, roedd P yn ddryslyd ac roedd yn ofidus iawn.

Penderfynwyd er lles P y byddai'n well iddo aros yn y cartref gofal. Mae'r gweithiwr cymdeithasol a'r teulu nawr yn dweud bod P yn ymddangos yn hapus yn y cartref ac mae wedi sefydlu perthynas gadarnhaol gyda rhai staff a thrigolion.

Tra'n dadlau mai'r canlyniad gorau i P fyddai dychwelyd adref, roedd yr ymweliad gartref yn cadarnahu i P a'r gweithwyr proffesiynol nad oedd hyn bellach yn ymarferol. Fodd bynnag, cafodd P yr hawl i'w dymuniadau gael eu clywed gan y Llys a gwnaed penderfyniad cwbl annibynnol i sicrhau y cynhelir ei hawliau dynol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyfrannu'n llawn ac yn weithredol at y Bwrdd yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Cynrychiolaeth ym mhob cyfarfod Bwrdd ac ymgysylltiad ardderchog yn y Grŵp Cyflawni Lleol.

Llwyddodd Gofal Cymdeithasol Plant Conwy i ennill Acolad Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol ym Medi 2018. Mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i gynnig y 'Rhaglen Grŵp Arfogaeth', ond hefyd mae hyn nawr yn aml ar y cyd â gweithio ochr yn ochr gyda rhieni/gofalwyr. Roedd cydweithwyr mewnol ac amlasiantaeth wedi cynnal diwrnod gloywi i'r bobl ifanc hynny oedd wedi ymgymryd â'r rhaglen 'Arfogaeth' yng Nghonwy, roedd hyn wedi galluogi i'r bobl ifanc ennill cymhwyster o'r rhaglen hon.

SERAF i Ddiogelu Oedolion - Mae hyn wedi'i gyflwyno i gael proses pontio ffurfiol o SERAF [pobl ifanc] i ddiogelu oedolion pan fydd person ifanc yn cael ei asesu mewn perygl o gam-fanteisio yn cyrraedd 18 oed.

Grŵp Cyfoedion Hunan-esgeulustod – Mae'r grŵp cefnogi yn parhau i gael ei gynnal bob mis a defnyddir gan ymarferwyr gofal cymdeithasol i drafod achosion gyda nifer dda o ddarparwyr allanol yn mynychu. Mae'r grŵp yn parhau i ddatblygu ac mae templed crynodeb achos ac agenda newydd wedi'i ddatblygu. Bydd pob gwasanaeth yn cyflwyno 2 achos o'r gofrestr risg a nodir gan y cadeirydd mis cynt, bydd hyn yn cynnig dull mwy cadarn i fonitro cynnydd.

**Astudiaeth Achos Arfer Da:**

Mam gyda 4 o blant; un gydag anabledd dysgu, yn byw gyda'i phartner sy'n dad i'r 2 blentyn ieuengaf, mae yna hanes o drais domestig. Cynllun gofal a chefnogaeth blaenorol i gefnogi'r fam i gwrdd ag anghenion y 4 plentyn gan gynnwys cyflwr y cartref ac arferion. Achos mawr wedi digwydd lle cafodd y tad ei arestio am niwed corfforol difrifol o ganlyniad i fod yn dreisiol pan yn feddw.

Dilynwyd proses Amddiffyn Plant oherwydd arwyddocad digwyddiad yn erbyn eiddo'r fam o flaen plant. Y fam yn methu blaenoriaethu anghenion ei phlant a death yn amlwg bod yna oedi datblygiadol yn y 2 iau oherwydd diffyg symbyliad. Pryderon o ran y plentyn hynaf oherwydd diffyg goruchwyliaeth a risg o CSE – y 4 plentyn wedi eu cofrestru.

Y fam yn ymwneud â FIT a'r cynllun diogelwch. Symudodd y tad i Loegr, gan adael y fam ei hun i fagu'r 4 plentyn. Ymyrraeth ar gael gan FIT a CALDS.

Un o’r plant yn datgelu fod ei lysdad yn ôl ac wedi gafael yn ei wddf; mae’n cael ei arestio eto ac yn gadael yr ardal eto – yna cafodd ei arestio am fethu ag ymddangos ar ôl cael ei ryddhau ar fechniaeth. Y fam yn dechrau dirywio, er gwaethaf ymyrraeth ac angen cefnogaeth ei chyn-bartner/tad y 2 blentyn hynaf sy’n dechrau aros gydag ef ar benwythnosau gyda chefnogaeth ei deulu. Y fam yn symud ar ddiwedd gwyliaur haf i’w thref genedigol yn Lloegr.

Gwaith amddiffyn plant o Gonwy yn parhau yn dibynnu ar gynhadledd adolygu amddiffyn plant allan o’r ardal/atgyfeirio ar gyfer penderfyniad cefnogaeth oherwydd bod y fam yn cael ei hystyried yn ddigartref drwy adael ei thenantiaeth yng Nghymru – cefnogaeth hyd braich gan elusen y digartref yn cael ei gydlynu a’r fam yn cysylltu â’r gwasanaeth Cymorth i Fenywod lleol.

Plant wedi eu dadgofrestru gan fod y risg wedi gostwng a’i reoli, maent i gyd nawr mewn ysgol yn llawn amser, y teulu gyda thŷ a’r fam â rhwydwaith o gefnogaeth gan ei chwaer a hen ffrindiau. Atgyfeirio i ardal awdurdod lleol newydd yn Lloegr wedi’i dderbyn gan fod y teulu yn parhau i fyw yn ardal wreiddiol y fam.

Cyngor Sir Ddinbych

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cefnogi pecynnau gwaith y Bwrdd ac mae yna gynrychiolaeth ardderchog ym mhob cyfarfod Bwrdd ac yn benodol wedi darparu cefnogaeth i’r Bwrdd drwy adolygwyr a Chadeiryddion adolygiadau ymarfer Oedolion a Phlant yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd.

Mae gwaith sylweddol wedi’i wneud o fewn yr awdurdod o amgylch yr agenda Amddiffyn Oedolion. Ar ôl dysgu o’r adolygiad HASCAS ar Ward Iechyd Meddwl yn yr ysbyty lleol yn ardal Sir Ddinbych, mae prosiect peilot rhwng yr awdurdod a BIPBC ar y gweill. Mae’r peilot yn canolbwyntio ar yr adroddiadau/digwyddiadau amddiffyn sy’n ymwneud ag Uned Ablett, edrych ar ffyrdd i wella ansawdd a gorolwg o’r adroddiadau/digwyddiadau amddiffyn. Mae gwella Arferion Amddiffyn Oedolion wedi bod yn faes allweddol ar gyfer y Bwrdd Oedolion.

Mae Fforwm Amddiffyn wedi’i ddatblygu ar draws Gwasanaethau Addysg a Phlant. Mae’r Fforwm yn cwrdd yn ystod y tymor ysgol ac yn darparu arena ar gyfer Arweinwyr Amddiffyn o Ysgolion ar draws Sir Ddinbych i gwrdd â Rheolwyr Gofal Cymdeithasol Plant i rannu a thrafod themâu a heriau amddiffyn cyffredin.

**Astudiaeth Achos Arfer Da:**

Mae A yn ddyn 22 oed ag anabledd dysgu, sy’n byw adre gyda’i rieni. Cafodd y pryderon eu codi i ddechrau gan y gweithiwr cymdeithasol presennol o ganlyniad i fethiant ailadroddus y teulu i gysylltu â’r staff iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. Roedd ffrind y teulu ac iechyd yr amgylchedd hefyd wedi mynegi pryderon.

Cysylltodd ffrind y teulu â'r gwasanaethau cymdeithasol i fynegi pryderson yn ymwneud â iechyd meddwl y fam a bygythiadau i hunan-niweidio ei hun a'i mab. Roedd gwybodaeth gan iechyd yr amgylchedd yn codi mwy o bryderon cysylltiedig ag adroddiadau gan gymdogion yn ymwneud â gweiddi/lefelau sŵn hwyr nos ac yng nghanol nos.  Rydym hefyd wedi cael gwybod bod y teulu wedi rhoi'r gorau i feddyginiaeth ar bresgripsiwn ac yn hytrach yn derbyn yr olewi cannabis dinesydd, nad oedd yn cael ei ragnodi'n gyfreithiol ar y pryd.

Roedd yr MDT wedi dechrau archwilio sail ar gyfer APSO.  Ein barn ni oedd bod y teulu wedi cysylltu â therapydd galwedigaethol i ddechrau ac wedi cytuno i asesiad o'u hanghenion gofal a chefnogaeth.  Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â lles y dinesydd, ei allu o amgylch ei feddyginiaeth, y risg o ran epilepsi a marwolaeth posibl, ynghyd â lles cyffredinol y teulu.

Camau a Gymerwyd

Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth a gofynnwyd am gyngor cyfreithiol.

Atgyfeirio ar gyfer eiriolydd i A

Roedd yr eiriolydd wedi darparu gwybodaeth am y fframwath cyfreithiol i'r teulu i gefnogi penderfyniadau am iechyd (i ddechrau, yna gofal a chefnogaeth a chartref) ar ran y dinesydd (a ystyriwyd â diffyg capasiti).  Eirolydd a'r gweithiwr cymdeithasol yn parhau i ddatblygu perthynas waith gyda'r teulu ac A.

Mae'r risgiau wedi gostwng, A yn ymddangos yn iach a'r teulu yn gwneud eu gorau i ddod o hyd i feddyginiaeth sy'n helpu ei epilepsi. Y teulu yn ymgeisio am ddirpwyaeth, tra mae'r broses DIDS yn cael ei gweithredu.

Mae yna asesiadau parhaus o ran y risgiau sy'n gysylltiedig ag anghenion iechyd A e.e. epilepsi, mae'r dinesydd wedi cael cynnig apwyntiadau epilepsi yn YGC a gwasanaeth therapi galwedigaethol.

Y gwahaniaeth/effaith i'r dinesydd a/neu'r gwasanaeth

Cyfraniad parhaus gweithwyr proffesiynol/asiantaethau i gefnogi A o ran yr anawsterau parhaus o ganlyniad i'r effeithiau a achosir gan ei epilepsi yn ei fywyd bob dydd e.e. cysgu yn ystod y dydd ac yn effro yn ystod y nos oherwydd ei ffitiau.

Mae'r teulu yn parhau'n gyndyn i adael i weithwyr proffesiynol ymweld, gan ffafrio cyswllt dros y ffôn.  Fodd bynnag, mae yna welliant o ganlyniad i ddatblygu perthynas waith rhwng y gweithiwr cymdeithasol, A a'r teulu, gan arwain at fwy o gyswllt wyneb yn wyneb i gefnogi A a chynllunio ar gyfer y dyfodol o ran cynnwys y teulu.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cyfrannu'n llawn ac yn weithredol at Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac maent yn aelodau sy'n ymgysylltu'n briodol ac yn gyson ar bob un o'r is-grwpiau rhanbarthol.

Mae Sir y Fflint wedi ymgymryd â phrosiect cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i fonitro perfformiad diogelu oedolion a gwaith yr is-grŵp PQAA (Ansawdd ac Archwilio Perfformiad) Grŵp Cyflawni Diogelu Oedolion Sir y Fflint a Wrecsam. Hefyd wedi adolygu'r adroddiadau ystadegol sy'n amlygu data diogleu ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam, i wneud y data yn fwy ystyrlon.

Mae Sir y Fflint hefyd wedi ymgymryd â datblygiad sylweddol mewn llwybrau atgyfeirio diogelu o Un Pwynt Mynediad (SPOA) oedolion i Uned Ddiogelu sydd wedi caniatáu camau cadarn a chyson i ddiogelu unigolion.

Mae rôl eiriolwyr yn rhan annatod o nifer o feysydd gwaith o fewn maes diogelu. Mae Gwasanaethau Eirioli yn cael eu defnyddio fel Cynrychiolwyr Person Perthnasol wrth gynnal asesiadau DOLS.

Mae diogelu yn flaenoriaeth gorfforaethol yng Nghynllun Blynyddol yr Awdurdod Lleol "Holl bortffolios y Cyngor i ddeall a gweithredu ar eu cyfrifoldebau i fynd i'r afael â diogelu." Drwy gydol y flwyddyn mae'r Uwch-Reolwr a'r Rheolwr Uned Ddiogelu wedi bod yn mynychu pwyllgorau'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth am rôl aelodau i Ddiogelu.

Fel rhan o welliannau i brosesau o fewn diogelu mae Sir y Fflint wedi ymgymryd â darn o waith rhwng yr Uned Ddiogelu a'n Un Pwynt Mynediad i wella ansawdd yr Atgyfeiriadau Diogelu yn dod drwy'r drws ffrynt a sicrhau bod holl wybodaeth allweddol ar gael.

Mae'r nifer o atgyfeiriadau Diogelu Oedolion yn parhau i gynyddu gan roi pwysau ar y tîm i sgrinio atgyfeiriadau cychwynnol a chynnal ein dyletswydd i holi. Mae diffyg Canllawiau Cenedlaethol yn parhau i amharu ar gynnydd ac rydym yn edrych ymlaen at dderbyn y canllawiau ym mis Tachwedd 2019.

**Astudiaeth Achos Arfer Da:**

Roedd Eiriolaeth wedi adrodd am enghraifft o arfer da o ŵr fu yn yr Uned Pobl Hŷn yn yr ysbyty ers amser maith. Nid oedd gan y gŵr lawer o ddillad, a rhai anaddas, ac nid oedd ganddo bethau ymolchi nac arian.

Ceisiodd yr ysbyty ddatrys y mater hwn gyda'r teulu, yn dilyn sawl cais roedd yn parhau heb ddim ac ar ôl atgyfeiriad diogelu y gwnaeth pethau wella. Cysylltwyd â'r teulu a gwnaethant ddod â dillad ac ati.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi trefnu atgyfeiriad diogelu gan nad oedd parch a gofal yn cael ei gynnal. Y gŵr yn cael ei ryddhau o'r ysbyty i leoliad preswyl. Teulu nawr yn sicrhau fod gan y gŵr ddigon o arian ar gyfer dillad, pethau ymolchi ac ati. Roedd gan y gŵr hawl i Gynrychiolydd y Claf (RPR) o dan DOLS.

Cyngor Gwynedd

Gwynedd a Môn wedi cydweithio i archwilio casgliad ar hap o achosion diogelu. Defnyddiwyd pecyn archwilio ar y cyd Byrddau Diogelu i sefydlu sut yr ydym yn perfformio o ran yr amserlen camau ymholiad ac a oes yna sail resymegol glir ar gyfer gwneud penderfyniad.

Mae Gwynedd wedi cyfrannu'n eang at waith y grŵp Adolygiad Ymarfer Plant gan gadeirio chwe chyfarfod panel a chyfrannu adolygwyr ar gyfer tri adolygiad. Mae aelod o Grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion o Wynedd yn ymgymryd â rôl adolygwr ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion ar hyn o bryd.

Yn ogystal, mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn cynrychioli Gwasanaethau Plant ar y Bwrdd Adolygu Gweithdrefnau Diogelu Plant Cenedlaethol ac mae Uwch Reolwyr wedi mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd grŵp rhanbarthol ychwanegol a drefnwyd i ddarparu adborth ar y Gweithdrefnau Cenedlaethol newydd.

Yn dilyn Fforwm Ymarfer Aml-Asiantaeth ar gau Cartref Gofal, a gomisiynwyd gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru, creodd Uwch-Reolwr Diogelu Oedolion a Sicrwydd Ansawdd gynllun gweithredu ar gyfer yr Adran er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i rannu gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a chydweithwyr iechyd a gobeithio y bydd dysgu o'r MAPF yn gwella trefniadau cydweithio.

Eleni, mae Gwynedd wedi parhau i gynyddu'r nifer o Weithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr ar Ffiniau Gofal sydd wedi derbyn hyfforddiant AIMS i blant o dan a dros 12 oed mewn asesiadau ac ymyrraeth, cyfiawnder adferol, asesiadau brodyr a chwiorydd a HSB gyda chymorth technoleg. Mae gan ganran sylweddol o weithlu Gwynedd y sgiliau i reoli galw cynyddol HSB.

Mae'r Uned Diogelu Oedolion wedi ymrwymo i gydweithio ac mae cyfarfodydd wythnosol wedi eu trefnu gyda chydweithwyr iechyd i sicrhau cysondeb ac osgoi unrhyw ddyblygu. Mae yna ymrwymiad i weithio'n agos gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth ddigonol ac amserol os bydd angen. Mae diogelu yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd misol Tîm Rheoli'r Adran fel y gallwn ganfod meysydd posibl sy'n gallu cryfhau trefniadau diogelu oedolion o fewn y Sir.

**Astudiaeth Achos Arfer Da:**

Mae'r achos yn ymwneud â mam yn ei hugeiniau. Roedd ganddi bump o blant. Dau yn byw gyda'u tad a thri yn byw gyda hi, ac nid oeddent yn agored i Ofal Cymdeithasol.

Dechreuodd berthynas newydd ac anafodd ei phartner newydd un o'r plant. O ganlyniad dilynodd ymchwiliadau A47 a datgelodd y fam ei bod yn disgwyl babi ei phartner newydd.

Oherwydd difrifoldeb yr ymosodiad, treuliodd y partner gyfnod yn y carchar a gwnaed gwaith uniongyrchol gyda'r fam i'w helpu i ddeall.

y risg i'r plant.  Roedd hyn yn her ar y dechrau ac o ganlyniad i'r hyn y gellir ei ddisgrifio fel 'cydymffurfiaeth guddiedig', roedd yr ALl wedi ymgeisio am Orchmynion Gofal Interim a chaniatawyd.  Roedd y plant yn aros adref gyda'r fam o dan drefniadau Lleoliad gyda Rhieni.

Cwblhawyd asesiad risg cyn-geni ac roedd y plentyn heb ei eni wedi'i gynnwys ar y Gofrestr. Gwnaed gwaith asesu risg, gwasanaethau therapiwtig a gwaith uniongyrchol gyda'r tad ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar. Treuliodd y gweithwyr Tîm ar Ffiniau Gofal amser gyda'r fam yn dilyn genedigaeth ei phlentyn a mynychodd y Rhaglen Rhyddid hefyd.

Caniatawyd Gorchmynion Gofal ac arhosodd y plant adref gyda'r fam. Roedd y gwasanaethau yn parhau i'r teulu gan ganolbwyntio ar risg, rhianta a gallu'r fam i ddiogelu'r plant.  Gwnaed gwaith uniongyrchol gyda'r plant gartref gyda'r fam yn canolbwyntio ar eu dymuniadau a'u teimladau.  Roedd cydweithio amlasiantaeth yn arbennig gyda chydweithwyr iechyd yn yr achos hwn yn dda ac roedd yna ddealltwriaeth glir o'r canlyniadau yr oedd pawb yn anelu atynt o ran y plant.

Er yn heriol ar adegau, mae'r canlyniadau i'r plant wedi bod yn dda ac mae'r plant yn parhau yng ngofal eu mam. Erbyn hyn, mae yna gynllun Gofal a Chefnogaeth gan fod y Gorchmynion gofal wedi eu rhyddhau. Mae'r fam a'i phartner wedi gwahanu a bellach mae hi mewn perthynas newydd gefnogol. Mae'n parhau i dderbyn gwasanaethau ac yn dweud bod yr amser a dreuliwyd gyda gwaith un i un gan y gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr allweddol o'r tîm ar Ffin Gofal yn allweddol i gyflawni'r canlyniadau gorau i'w phlant.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cyfrannu'n helaeth at Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac yn aelodau sy'n ymgysylltu'n briodol ac yn gyson ar bob un o'r is-grwpiau  rhanbarthol.

Mae Paneli camfanteisio misol bellach yn rhan annatod o ddiwylliant CBSW, ac yn dilyn ymgynghoriad cenedlaethol, rydym wedi dilyn esiampl Gwent a Hampshire drwy ddatblygu'r paneli ymhellach i fod yn baneli MET (Plant sydd Ar Goll, yn cael eu Camfanteisio neu eu Masnachu).

Mae Wrecsam a Sir y Fflint hefyd wedi datblygu Cyfarfod MET "Strategol" chwarterol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn defnyddio ymagwedd strategol tuag at y rhaglen ehangach o gamfanteisio drwy nodi patrymau a thueddiadau ar draws yr ardal leol. Maent wedi bod yn hanfodol yn y broses o nodi tueddiadau lleol a chanolbwyntio ar ymyriadau wedi'u targedu mewn ardaloedd penodol yn Wrecsam.

Mewn perthynas â chyfweliadau ar goll oddi cartref, mae gan CBSW swyddog penodol sy'n ymgymryd â'r cyfweliadau hyn gyda phlant sydd wedi bod ar goll.

O ran Diogelu Oedolion, mae'r Awdurdod Lleol yn arwain y gwaith o ddatblygu'r broses ymholiadau. Rydym wedi datblygu gweithdrefn leol i adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol o fewn y canllaw Delio ag Achosion Unigol i gefnogi ymarferwyr.

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu Oedolion hefyd wedi cynrychioli Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Bwrdd Prosiect Cenedlaethol ar gyfer Gweithdrefnau Cymru Gyfan.

**Arferion Da**

Mae'r cyfarfodydd MET eisoes wedi amlygu pryderon mewn perthynas â phobl ifanc yn ymgynnull mewn bwyty bwyd brys yng nghanol y dref yn hwyr yn y nos i yfed a gwneud pethau eraill o bryder. Unwaith y nodwyd y patrwm yng nghyfarfodydd y panel MET, roeddem yn gallu targedu gwaith drwy Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn lleol yn ogystal â darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth staff am ymddygiadau o feithrin perthynas amhriodol.

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
National Probation Service

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ystyried presenoldeb ar y Bwrdd fel blaenoriaeth strategol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn lefel ac amlder presenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd Gogledd Cymru yn ogystal ag is-grwpiau rhanbarthol.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hefyd wedi blaenoriaethu presenoldeb a chyfrannu at y Fforwm Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n cynrychioli blaenoriaethau i'r Bwrdd.

Mae HMPPS a Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner a Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar y grwpiau canlynol a nodwyd.

- Braenaru i Ferched – Dylunio a gweithredu dull amlasiantaeth, integredig, penodol i ferched i reoli merched sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.
- Cefnogi Trawsnewid Personél Milwrol – Gwella cydlynu gwasanaethau cyn-bersonel y lluoedd arfog ar draws HMPPS yng Nghymru a'r System Cyfiawnder Troseddol drwy'r prosiect SToMP, gan gynnwys cynnal cyfres o Ddyddiau Cymunedol ar draws yr ystâd carchar.

- Rydym wedi datblygu darpariaeth amlasiantaeth o fewn ardaloedd y gorllewin a’r dwyrain o Ogledd Cymru gan weithredu dull Rheoli Troseddwyr Integredig i reoli troseddwyr sy’n risg uchel, yn fygythiad ac yn achosi niwed ar draws
- HMPPS Cymru i ddiogelu unigolion diamddiffyn o fewn y gymuned.
- Cyflawnwyr Cam-Drin Domestig (DAPP): Dylunio a gweithredu ymateb amlasiantaeth effeithiol i’r risgiau gan gyflawnwyr cam-drin domestig sy’n flaenoriaeth.
- Cefnogi’r agenda Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) ac ymgorffori hyfforddiant i holl staff i gefnogi datblygiad dull ACE amlasiantaeth ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal gwraidd y broblem.
- Mae Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Gogledd Cymru wedi ymrwymo i aflonyddu’r unigolion hynny a nodwyd sydd o fewn Grŵp Trosedd wedi’i Drefnu, sy’n cynnwys cam-fanteisio’n rhywiol ar blant a throseddwyr TACT, drwy weithio’n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a CEM y Berwyn.

Ym mis Tachwedd 2018, cafodd Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru ei archwilio gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac mae eu hadroddiad wedi’i gyhoeddi’n ddiweddar. Mae Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru wedi derbyn graddfa gyffredinol ‘Da’. Mae’r raddfa “da” wedi’i bennu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn archwilio tri maes gwaith:

Mae prif faterion a nodwyd ar gyfer y sefydliad yn cynnwys:

Rheoli Troseddwr yn y Ddalfa – yn ystod 2019 mae Cymru wedi gweithredu model Rheoli Troseddwr yn y Ddalfa sy’n gweld newid mewn rheolaeth y troseddwyr hynny sy’n derbyn dedfryd o garchar. Bydd cyfrifoldeb rheoli’r troseddwyr yn ystod yr amser yn y ddalfa o fewn yr uned rheoli troseddwyr yn y ddalfa.

Dyfodol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru – Yng Nghymru rydym yn symud ymlaen gyda’r cynigion yn ymgynghoriad yr haf diwethaf i gynnwys Rheoli Troseddwyr o fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a datblygu opsiynau ar gyfer sut yr ydym eisiau i Raglenni Achrededig, Talu yn ôl i’r Gymuned, gwasanaethau Adsefydlu ac Ailsetlo gael eu darparu yn y dyfodol a chystadlu amdanynt gan sefydliadau sector preifat a gwirfoddol.

Mae gan fenyw 5 mlynedd o hanes gweithio gyda’r Gwasanaeth Prawf ac mae’n dod o gefndir magwraeth drawmatig, addysg wael a thrais domestig yn y cartref, camddefnyddio sylweddau (alcohol yn bennaf) ac mae wedi derbyn diagnosis mân anabledd dysgu.

Mae wedi bod yn anodd lleihau ei risg fel un asiantaeth ac mae’n parhau i aildroseddu tra hefyd yn dod drosodd yn fregus

Mae’r risg yn cynyddu pan mae’n unig, yn ddigartref, wedi diflasu, yn feddw ac mewn perthynas ansefydlog, lle mae’n gallu bod yn ddioddefwr ac yn gyflawnwr.

Drwy gydol y 5 mlynedd diwethaf, mae llawer o waith wedi’i wneud i’w chefnogi ond yn y 12 mis diwethaf, mae mwy o waith wedi’i wneud a’i gwblhau ar y cyd gyda’r gwasanaeth Tai, y Tîm Oedolion Bregus, Heddlu Gogledd Cymru, y

Gwasanaethau Anableddau Dysgu i ddarparu dull mwy cyfannol i ddiwallu ei hanghenion unigol a lleihau risg.

Mae hi nawr wedi'i chysylltu â Chanolfan i Fenywod y Rhyl, gweithiwr cymdeithasol, nyrs anabledd dysgu a swyddog tai i'w chefnogi i fod yn fwy annibynnol a chael ei thŷ ei hun yn y dyfodol. Cyflawnwyd hyn drwy gydweithio effeithiol a chyfarfodydd misol yn parhau i sicrhau mesurau diogelwch iddi hi ac eraill ar waith.

Mae wedi cwblhau ei chyfnod prawf am y tro cyntaf mewn pum mlynedd ac nid yw wedi troseddu ymhellach yn y cyfnod hwn.

<u>Cwmni Ailsefydlu Cymunedol (CRC) ar gyfer Adroddiad Blynyddol</u>

Mae CRC yng Nghymru wedi gweld nifer o newidiadau yn ystod y flwyddyn. Yn mis Chwefror, aeth Working Links LTD a Chwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru i ddwylo'r Gweinyddwyr. Aethpwyd a'r CRC i KSS (*Kent Surrey and Sussex*) CRC drwy amrywiad dan gontract. SEETEC sydd yn berchen ar KSS CRC. Bellach, ein henw yw Rhan Gwasanaeth Prawf Cymru KSS CRC.

Mae Pennaeth LDU Gogledd Cymru wedi parhau i fynychu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ac wedi parhau fel Is-Gadeirydd y Bwrdd Plant rhanbarthol ac wedi mynychu cymaint o gyfarfodydd â phosib, ac wedi cadeirio nifer o gyfarfodydd apêl hefyd yn ystod y flwyddyn diwethaf, hefyd fe wnaeth y Pennaeth LDU gadeirio Grŵp Tasg a Gorffen Tawel Fan ac mae'n cynrychioli'r Bwrdd yng Nghrŵp Budd-ddeiliaid y Bwrdd Iechyd ar gyfer Tawel Fan.

Mae Cam-Drin Domestig yn flaenoriaeth uchel o fewn y CRC yng Nghymru. Rydym yn darparu Rhaglen Achrededig Perthnasoedd Parchus i'r dynion hynny sydd wedi eu cael yn euog o droseddau cam-drin domestig mewn llys.

Rydym hefyd yn darparu gweithgareddau Adsefydlu Perthnasoedd Parchus i'r dynion hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y Rhaglen Achrededig ac wedi lansio Cyfeiriad Arfer newydd ar gyfer Cam-Drin Domestig. Ochr yn ochr â hyn roedd pecyn hyfforddi ar-lein lle roedd angen sgorio 80% i basio. Mae CRC yn mynychu ac yn cyfrannu'n weithredol tuag at y broses MARAC.

Nid yw CRC wedi cyflawni unrhyw ffrydiau gwaith penodol i fodloni Blaenoriaethau'r Bwrdd fodd bynnag maent wedi eu sefydlu yn ein gwaith. Rydym wedi lansio cwrs hyfforddi newydd Diogelu Oedolion ar-lein yn ystod y flwyddyn. Roedd rhaid i staff gael sgôr o 80% i basio.

Fe wnaethom ni lansio Polisi Diogelu newydd ar draws Cymru yn ystod hydref 2018. Fe wnaethom gysylltu hyn â lansio'r hyfforddiant yn ystod yr wythnos ddiogelu. Fe wnaethom drefnu bod timau yn treulio amser yn trafod materion a godwyd o fewn eu timau oedd yn gysylltiedig â diogelu yn ystod yr wythnos.

Mae wedi bod yn heriol iawn i staff sy'n gweithio o fewn y CRC, oherwydd nifer o newidiadau o fewn y sefydliad. Mae staff wedi bod yn arbennig gan ganolbwyntio ar eu gwaith mewn cyfnod lle bu llwyth gwaith yn uchel.

**ARFERION DA**

Yn ddiweddar, cafodd achos CRC fechnïaeth gyda TAG i fyw yn eiddo ei fam. Cysylltodd mam yr unigolyn ag aelod o staff Prawf yn poeni gan fod arni ofn ei mab a 'doedd hi ddim eisiau iddo fod yn yr eiddo, fodd bynnag roedd arni ormod o ofn dweud hynny wrtho.

Mewn trafodaethau gyda'i fam fe wnaethom ddarganfod mai fflat un ystafell wely gyda chymorth warden oedd yr eiddo, mewn cyfadeilad ar gyfer rhai dros 50 oed. Teimlwyd hefyd bod y fam yn agored i niwed gan ei mab pe bai'n byw yn yr eiddo.

Cysylltodd Swyddog Y Gwasanaeth Prawf gyda Thai Sir y Fflint, a gadarnhaodd nad oedd hwn yn gyfeiriad mechnïaeth addas. Bu'r aelod staff mewn cysylltiad â'r NPS a'r CPS ac aeth yr achos yn ôl i'r llys er mwyn adolygu'r cyfeiriad mechnïaeth. Roedd modd iddynt ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan Dai Sir y Fflint er mwyn tystio nad oedd yr eiddo yn addas, yn hytrach na defnyddio pryderon y fam. Golygai hyn nad oedd y defnyddiwr gwasanaeth yn ymwybodol o bryderon ei fam, ac roedd hyn yn ei gwarchod.

**<u>Partneriaid Bwrdd Anstatudol</u>**

**Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) yn cyflawni amcanion Diogelu pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol drwy gydweithio'n effeithiol i sicrhau canlyniadau da i bobl sy'n dod i gyswllt â'n gwasanaeth o fewn Rhanbarth y Bwrdd.

Mae'n gweithgarwch yn ystod 2018-19 i atal, gwarchod a chefnogi unigolion a'u teuluoedd o fewn rhanbarth Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| Atgyfeiriad Plentyn mewn Perygl WAST at Awdurdod Lleol | 227 |
| Atgyfeiriad Plentyn mewn Perygl WAST at Awdurdod Lleol | 79 |
| Atgyfeiriad Angen Gofal Cymdeithasol I Oedolion WAST at Awdurdod Lleol | 370 |

Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd Byrddau Rhanbarthol a chymryd rhan mewn cynlluniau gwaith cysylltiol wedi golygu bod WAST yn cael cyfle i ymgysylltu mwy. Mae

hyn wedi cynnwys cymryd rhan mewn 1 Adolygiad Ymarfer Oedolion, 1 Adolygiad Ymarfer Plant a 3 Adolygiad Dynladdiad Domestig.

Caiff dysgu o'r Adolygiadau ei gydlynu drwy Grŵp Strategol Diogelu WAST er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhaeadru drwy'r sefydliad. Mae staff WAST wedi mynychu'r Digwyddiadau Dysgu sydd wedi sicrhau bod llais ein hymarferwyr wedi cyfrannu'n uniongyrchol at yr Adolygiad, bod ymarferwyr yn clywed safbwyntiau'r teulu a'u bod, gyda mynychwyr eraill aml asiantaethau, yn gallu adlewyrchu ar beth sydd wedi digwydd a nodi'r hyn sydd wedi ei ddysgu ar gyfer arferion y dyfodol. Mae'r holl Ddysgu yn cael ei ymgorffori i hyfforddiant diogelu, polisïau a gweithdrefnau WAST fel bo'n briodol.

Mae **Fforwm Gofal Cymru** wedi bod yn cefnogi pecynnau gwaith y Bwrdd sy'n ymwneud ag oedolyn mewn perygl**. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** wedi bod yn ymwneud â'r pecynnau gwaith o amgylch Oedolyn Mewn Perygl a'r Protocol Herbert.

O ran y pecynnau gwaith sy'n ymwneud â Chamfanteisio ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, mae gwaith yr **NSPCC** a **Barnardos** wedi bod yn amhrisiadwy i wella arfer ar draws y rhanbarth.

Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru** wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol at Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Mae'r Cynrychiolydd Tîm Diogelu Cenedlaethol wedi darparu cefnogaeth i'r Bwrdd ar nifer o lefelau gan gynnwys cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Maent yn parhau i hybu ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod ac o amgylch datblygiadau cenedlaethol o ran camfanteisio.

## 8.0 Asesiad o sut oedd y Bwrdd Diogelu yn defnyddio ei adnoddau i ymarfer ei swyddogaethau neu gyflawni ei ganlyniadau:

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn defnyddio'r fformiwla cyllid cenedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Mae'r graffiau a'r siartiau isod yn dangos sut mae'r bwrdd wedi gwneud defnydd o'i adnoddau ariannol o fewn y cyd-destun incwm, gwariant a chyfraniadau partner yn y flwyddyn ariannol flaenorol.




## 9.0 Unrhyw themâu gwaelodol yn y modd mae'r Byrddau Diogelu yn ymarfer ei swyddogaethau fel y dangosir drwy ddadansoddi achosion mae wedi delio â nhw ar waith o ganlyniad:



<u>Tawel Fan</u>

Mae llawer o waith wedi'i wneud gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ar y materion diogelu a amlygwyd ar wardiau cleifion Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd.

Er nad oedd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi'i sefydlu adeg y nodwyd y pryderon yn 2010-13, roedd Cadeirydd y Bwrdd Oedolion wedi mynychu Panel Trosolwg Diogelu Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mynychodd aelodau'r Bwrdd Diogelu y panel, i ddarparu gwybodaeth bellach ar Arfer Diogelu Oedolion yng Ngogledd Cymru.

Roedd y Bwrdd Diogelu hefyd yn darparu gwasanaeth archwilio a chefnogaeth ar gyfer yr adolygiad aml-asiantaeth i achosion diogelu posibl ar y ward.

Mewn ymateb i'r adroddiad HASCAS, roedd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o ymarferwyr amlasiantaeth i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad o amgylch pryderon diogelu.

Mae'n bwysig cofio bod yr adroddiad HASCAS yn canolbwyntio ar arferion diogelu yn 2010-2013 ac felly roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried yr argymhellion a nodwyd yn erbyn arferion presennol yng Ngogledd Cymru.

**Roedd meysydd ymarfer allweddol a nodwyd yn cynnwys:**

- Hybu ymwybyddiaeth ar ddiogelwch rhywiol ar wardiau.
- Dull anghyson ar gyfer atgyfeiriadau diogelu ar gam-drin cleifion.
- Dull cyson ar gyfer rheoli pryderon oedolion mewn perygl.
- Gwell cysylltedd rhwng partneriaid amlasiantaeth.

**Mewn ymateb i'r argymhellion, ymgymerwyd â'r camau canlynol:**

Cynhadledd diogelwch rhywiol a gynhaliwyd ar gyfer staff amlasiantaeth, gan edrych ar ganllawiau diogelu cenedlaethol allweddol, edrych ar arferion da Awdurdod Heddlu cyfagos yn Lloegr a nifer o enghreifftiau o ymarfer/astudiaeth.

**Mewn ymateb i'r argymhellion, ymgymerwyd â'r camau canlynol:**

- Cynhadledd diogelwch rhywiol a gynhaliwyd ar gyfer staff amlasiantaeth, gan edrych ar ganllawiau diogelu cenedlaethol allweddol, edrych ar arferion da Awdurdod Heddlu cyfagos yn Lloegr a nifer o enghreifftiau o ymarfer/astudiaeth achos wedi eu rhannu gyda'r ymarferwyr yn bresennol. Yn ogystal, mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn cefnogi datblygiad Polisi Diogelwch Rhywiol BIPBC.
- Mewn ymateb i'r pryderon yn ymwneud â maes ymarfer ymateb i Gleifion yn cam-drin Cleifion, roedd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi cynnal archwiliad o achosion yng Ngogledd Cymru. Roedd arfer da wedi'i nodi mewn nifer o achosion ond cytunwyd y byddai Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn cyflwyno canllawiau ymarfer pellach ar yr ymarfer hwn. Mae'r Grŵp Polisi a Gweithdrefnau yn gweithio ar y canllaw hwn ar hyn o bryd.
- O ran rheoli Pryderon Risg Oedolion, roedd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi cyhoeddi canllawiau pellach i staff amlasiantaeth gan gynnwys "Deg Cyngor i gwblhau Adroddiad Diogelu".
- Gwell cysylltedd rhwng Partneriaid Amlasiantaeth: Mae BDOGC wedi canolbwyntio ar ddatblygu y cam ymholiadau o'r broses oedolyn sy'n wynebu risg. Roedd y cam gweithredu hwn yn becyn gwaith a oedd yn deillio o argymhelliad o fewn adroddiad HASCASS a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tawelfan. Ar hyn o bryd mae BIPBC yn arwain y gwaith o ddatblygu gynllun peilot o fewn yr Adran Diogelu Corfforaethol, ac Adran Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu o fewn eu sefydliad, lle bydd disgwyl i staff a nodwyd o fewn y gwasanaeth gynnal "ymholiadau" pan ofynnir am hynny gan yr awdurdod lleol.

Mae BDOGC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflwyno' r gweithgaredd hwn ar y cyd i ymarferwyr amlasiantaeth, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector a'r sefydliad annibynnol gyda chymorth uned fusnes y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd wedi datblygu templed ymholiadau rhanbarthol ac mae nifer o weithdai wedi'u trefnu ar gyfer 2019/20 sy'n ymwneud ag ymholiadau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn ogystal â'r gwaith mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi dechrau arno yn barod mewn ymateb i argymhellion HASCAS, mae Llywodraeth Cymru wedi penodi tri hwylusydd annibynnol i adolygu'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth o fewn Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Roedd Llywodraeth Cymru yn credu bod yna heriau ychwanegol i'r Bwrdd o ganlyniad i'r lefel gynyddol o archwilio a brofwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oherwydd pryder y cyhoedd, proffesiynol a gwleidyddol yn codi o'r adroddiadau a gomisiynwyd mewn cysylltiad â phrofiad cleifion yn Nhawel Fan.

Roedd Hwyluswyr Annibynnol wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd is-grŵp ac wedi adolygu dogfennaeth y Bwrdd dros gyfnod o bedwar mis. Yn ogystal, roedd nifer o gyfweliadau un i un wedi eu cynnal gydag aelodau'r Bwrdd.

Roedd yr hwyluswyr yn amlygu'r canlynol o'u harsylwadau:

- Presenoldeb da yng nghyfarfodydd y Bwrdd gydag adroddiadau priodol, camau wedi eu cofnodi, cofnodion wedi eu cymeradwyo, cyfrannu gyda pharch a her.
- Cyfarfod terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tawel Fan, oedd wedi cyflawni'r briff.
- Y Gweithgor Adolygu Ymarfer Oedolion, gyda thystiolaeth o uwchgyfeirio priodol i'r prif Fwrdd.
- Digwyddiad amlasiantaeth hanner diwrnod gyda nifer dda yn bresennol (cynhaliwyd ar y cyd gyda Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru) yn yr Wythnos Diogelu gyda chyflwyniadau cadarnhaol ac ystyrlon wedi eu derbyn yn adlewyrchu materion diogelu presennol a pherthnasol.
- Gweithdy Oedolyn mewn Perygl. Roedd y digwyddiad hwn yn rhoi diweddariadau i gyfranogwyr ar ddeddfwriaeth berthnasol drwy gyflwyniadau allanol, oedd wedi derbyn ymateb da yn gyffredinol. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i gyfranogwyr ystyried ffurflen ymholiadau newydd y cynhelir peilot arno ar hyn o bryd yn Wrecsam er bod fformat yr ymarfer gweithdy yn heriol ac yn ddryslyd i rai mynychwyr. Roedd adborth ar y digwyddiad hanner diwrnod hwn yn dangos gwerthfawrogiad y mewnbwn a ddarparwyd ar rôl Eiriolaeth a cheisiadau am hyfforddiant pellach ar y Cam Ymholiad yn y system atgyfeiriad.

Yr argymhelliad i gloi o'r adroddiad:

***'Rydym wedi cael profiad o Fwrdd Diogelu Oedolion sydd wedi gwneud cynnydd da drwy 2018 wrth fynd i'r afael â pherthynas partneriaeth sydd wedi'i effeithio'n ddifrifol gan y pryderon sy'n codi o'r adroddiadau a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â phrofiad y claf yn Nhawel Fan.***

***Mae'r cynnydd hwn wedi'i gyflawni drwy barodrwydd aelodau'r Bwrdd i ddysgu a gweithio gyda'i gilydd gyda diben cyffredin clir o wella trefniadau diogelu oedolion yng Ngogledd Cymru. Mae aelodaeth gyson gwell ar draws holl bartneriaid heb amheuaeth wedi cynorthwyo'r Bwrdd i gyrraedd y pwynt hwn, ynghyd â threfniadau Cadeirydd ac Is-Gadeirydd priodol, a gefnogwyd gan Uned Fusnes uchel ei pharch ac effeithiol.***

***Rydym yn fodlon, bod y Bwrdd, o fewn ei adnoddau ei hun, â'r gallu i barhau i ddiwallu ei ddibenion a chyflawni ei amcanion.'***

<u>Apeliadau Cynhadledd PRUDiC a Diogelu Plant</u>

Ers 2018, mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y broses PRUDiC. Rydym wedi datblygu pecyn sicrhau ansawdd a gwblheir ar ôl pob PRUDiC. Yn ogystal, mae gennym eitem sefydlog ar y rhaglen ym mhob cyfarfod Adolygiad Ymarfer Plant i ystyried unrhyw themâu allweddol o'r broses PRUDiC.

Yn ystod y cyfnod 2018-19, roeddem wedi cynnal dau gyfarfod Apeliadau Diogelu Plant. Nid oedd yr un o'r apeliadau cynhadledd wedi eu cefnogi.

<u>Archwiliadau Oedolyn mewn Perygl</u>

Mae archwiliadau thema rheolaidd yn cael eu cynnal gan y grwpiau cyflawni lleol. Yn y 12 mis diwethaf mae'r archwiliadau canlynol wedi eu cynnal:

- Adroddiadau Ansawdd Diogelu gan gynnwys y cam ymholiadau.
- Cyfarfodydd Ansawdd Strategaeth

Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Gwelwyd gwelliant yn Adroddiadau Ansawdd Diogelu o'i gymharu â'r archwiliad 2017/18.
- Mae angen gweld gwelliannau i sicrhau bod gan yr Oedolyn mewn Perygl fynediad i wasanaethau eirioli.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad, cynhaliodd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru weithdy oedd yn cynnwys darparwyr Eiriolaeth i amlygu gofynion cyfreithiol i sicrhau bod yr unigolyn wedi/yn cael cynnig mynediad i Eiriolaeth.

Adolygiad Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol

Yn 2018, roedd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi comisiynu Adolygiad Annibynnol i gynnal adolygiad i Gau Cartref Gofal. Diben yr adolygiad oedd ystyried effeithiolrwydd y Cydweithio Amlasiantaethol.

Roedd yr adolygiad bwrdd gwaith yn adolygu'r prif ddogfennaeth fel y dogfennau POVA a'r broses uwchgyfeirio pryderon.

Roedd yr adolygiad yn nodi meysydd ar gyfer gwelliannau yn y meysydd ymarfer canlynol:

- Cadarnrwydd y broses asesu risg
- Gwella'r rhyngwyneb rhwng y Broses Diogelu Oedolion a'r broses Uwchgyfeirio Pryderon.

Mewn ymateb i'r themâu allweddol a nodwyd, cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu a'i oruchwylio gan y grŵp cyflawni lleol. Mae'r polisi rhanbarthol uwchgyfeirio pryderon wedi'i ddiweddaru ac mae yna ymrwymiad i gynnal mwy o weithdai dysgu amlasiantaethol i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o'r broses oedolion mewn perygl.

Adolygiadau Ymarfer Oedolion/Plant

Yn ystod y cyfnod 2018/19, roedd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi cyhoeddi un Adolygiad Ymarfer Oedolion yn unig. Er ar hyn o bryd, mae gennym dri Adolygiad Ymarfer Plant a dau Adolygiad Ymarfer Oedolion ar y gweill.

Roedd yr Adolygiad Ymarfer Oedolion a gyhoeddwyd yn nodi materion ymarfer yn ymwneud â gweithio gyda theuluoedd heriol a goruchwylio Taliadau Uniongyrchol.

Mewn ymateb i'r materion a nodwyd, cynhaliwyd y camau canlynol:

- Canllawiau amlasiantaeth ar weithio gyda Theuluoedd / Gofalwyr heriol wedi'i ddatblygu
- Datblygu hyfforddiant amlasiantaethol ar y cyd ar dechnegau rheoli gwrthdaro i staff rheng flaen.
- Briff 7 munud wedi'i ddatblygu ar Daliadau Uniongyrchol a Diogelu ac ar gael ar wefan y Bwrdd

Mae'r grŵp Adolygiad Ymarfer Plant wedi canolbwyntio ar sicrhau bod holl gynlluniau gweithredu o Adolygiadau wedi eu cwblhau a'u cyflwyno yn ôl i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

Yn ogystal, rydym wedi cael dau adolygiad MAPF yn ystod y cyfnod hwn a'u cyflwyno i'r Bwrdd. Roedd y materion allweddol a nodwyd o fewn yr adolygiadau

yn ymwneud â chydymffurfio â phroses Asesiad Cyn-geni a gwaith rhyngasiantaeth yn y gynhadledd achos.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad, roedd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cynnal archwiliadau o ran y broses asesiad cyn-geni ac ansawdd adroddiadau meddyg teulu i'r gynhadledd. Rydym yn parhau i fonitro'r ddau faes ymarfer hwn.

Roedd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth ar gyfer yr awdurdodau lleol perthnasol yn amlygu i'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu Lleol, rhai pryderon am leoliadau a gyfeiriwyd gan y Llys a wneir ar fyr rybudd o fewn achosion llys.

Mae hyn yn rhoi pwysau ar awdurdodau lleol yn arbennig i nodi lleoliadau neu ailasesu trefniadau teulu a sicrhau bod y trefniadau diogelu angenrheidiol ar waith.

Roedd hyn mewn ymateb i un o'r meysydd ymarfer a nodwyd o fewn MAPF, lle cafodd yr Awdurdod Lleol ei gyfeirio i ganfod Lleoliad i Fam a'i Phlentyn o fewn 24 awr.

<u>Adolygiad Cymdeithas Tennis Lawnt</u>

Roedd y Bwrdd Cymdeithas Tennis Lawnt wedi comisiynu Adolygiad Annibynnol o dan arweiniad Christopher Quinlan, Cwnsler y Frenhines a gweinyddwyd gan Sport Resolutions (UK). Roedd yr adolygiad mewn ymateb i gollfarn droseddol hyfforddwr tennis oedd wedi troseddu'n rhywiol yn erbyn chwaraewr tennis ifanc mewn canolfan dennis yng Ngogledd Cymru.

Cafodd yr adroddiad adolygiad ei gyflwyno i'r Bwrdd gan uned ddiogelu'r Gymdeithas Tennis Lawnt. Mewn ymateb i'r adolygiad, roedd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn ceisio sicrwydd bod y Gymdeithas Tennis Lawnt yn deall y gwahaniaethau mewn deddfwriaeth diogelu yng Nghymru. Bod hyfforddiant diogelu a ddarperir i uned ddiogelu Cymdeithas Tennis Lawnt a leolir yn Lloegr yn cynnwys Deddfwriaeth Gymreig.

Fel Bwrdd Diogelu, rydym hefyd yn derbyn cyflwyniad gan Uned Ddiogelu mewn Chwaraeon y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant a hefyd gan y swyddog Diogelu Oedolion Ann Kraft.

## 10.0 Nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a ddefnyddiwyd yn ardal y Bwrdd Diogelu:

O fewn y rhanbarth, roedd un gorchymyn diogelu a chefnogi oedolion wedi'i ddefnyddio.

Roedd yr achos yn ymwneud ag unigolyn ag anhwylder iechyd meddwl. Roedd pryderon wedi eu nodi mewn perthynas â'u lles emosiynol a chorfforol a dylanwad

rheoli posibl eu partner.

Roedd y partner yn atal gwasanaethau rhag gallu darparu cefnogaeth i'r unigolyn. Oherwydd ymyrraeth y partner ar ôl ymdrechion i gynnal Asesiad Iechyd Meddwl, penderfynwyd ymgeisio am APSO fel bod asiantaethau yn gallu cwrdd â'r unigolyn heb i'r partner fod yn bresennol.

## 11.0 Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu:

Roedd Cydlynydd Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Cydlynydd Panel Dinasyddion/Swyddog Datblygu Ieuenctid yn Gwirfoddoli CVSC.  Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cael cipolwg ar y plant a phobl ifanc ar y panel dinasyddion ynglŷn â:

- Beth sy'n bwysig iddyn nhw?
- Beth mae'r Bwrdd yn gallu ei wneud i helpu?
- Sut gall y Bwrdd godi ymwybyddiaeth?
- Ydyn nhw'n gwybod unrhyw beth am y bwrdd?
- Beth hoffen nhw ei weld ar wefan y Bwrdd?




Nid oedd gan y plant a'r bobl ifanc lawer o ymwybyddiaeth o'r bwrdd ond roeddent yn teimlo bod ymwybyddiaeth o'r bwrdd yn bwysig iawn yn ogystal â sicrhau bod adnoddau'r Bwrdd yn hysbys ac ar gael yn eang. Roeddent yn teimlo y gellir gwneud hyn drwy ymwybyddiaeth yn yr ysgolion a thrwy grwpiau ieuenctid er mwyn codi ymwybyddiaeth gyda phobl ifanc.

Roeddent yn teimlo bod diogelu yn bwnc pwysig iawn ac maent eisiau gwybod y prif bwyntiau ar gyfer diogelu a beth gallan nhw ei wneud os bydd eraill angen cefnogaeth neu os bydd rhywbeth yn digwydd.

Mae pecyn gwaith yr ymgynghoriad hwn i'r Bwrdd ganolbwyntio ar ymgysylltu gydag ysgolion yn y rhanbarth. Roedd y plant a phobl ifanc hefyd yn nodi bod angen gwneud mwy o waith pellach ar y wefan.

Mewn ymateb roedd Cydlynydd Busnes Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi mynychu sesiynau cyfranogiad yn yr NSPCC gyda phlant a phobl ifanc; roeddent yn trafod beth oedd diogelu yn ei olygu iddyn nhw a sut y gallai tudalen wybodaeth plant a phobl ifanc ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wella.

Roedd y plant a'r bobl ifanc yn edrych ar ddelweddau, dyluniad ac ati roeddent hefyd yn edrych ar gynnwys y wefan ac yn gwneud awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir lleoli'r cynnwys a'r wybodaeth yn well.

Mae hon yn ddogfen wnaeth y plant a phobl ifanc ddylunio ar gyfer y wefan:

Drwy gyfranogiad y plant a phobl ifanc cadarnhawyd bod y dudalen bresennol yn rhy ddwl; teimlwyd y byddai'n gwella'n fawr os byddai'n fwy lliwgar.

Yn ogystal, rydym hefyd wedi bod yn cwrdd â phobl ifanc sydd wedi derbyn gwasanaethau gan yr awdurdod lleol. Mae'r bobl ifanc rydym yn cwrdd â nhw yn cynnwys nifer o bobl ifanc oedd yn destun cynllun Diogelu Plant.

Roedd y prif negeseuon yr ydym ni fel Bwrdd yn eu derbyn yn cynnwys:

- Angen sicrhau bod gennym fwy o lais mewn Cynadleddau Diogelu Plant
- Adroddiadau cynhadledd yn rhy gymhleth/faith
- Pobl yn siarad amdanaf, sy'n gwybod dim amdanaf?
- Dywedwch wrthyf beth sydd angen newid
- Pam bod rhywbeth sydd wedi digwydd 10 mlynedd yn ôl angen cael ei godi mewn cyfarfod amdanaf?

Mewn ymateb, mae'r Bwrdd yn monitro presenoldeb plant mewn cyfarfodydd cynhadledd drwy Grwpiau Cyflawni Lleol. Mae nifer o Awdurdodau Lleol o fewn y rhanbarth nawr wedi datblygu holiadur/adborth ar-lein ynglŷn â'r broses adolygu. Fel Bwrdd yn 19/20, byddwn yn gwneud mwy o waith ymchwil/ymgysylltu yn ymwneud
â phrofiadau plant sy'n destun plentyn sydd angen cynllun diogelu.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phlant/pobl ifanc drwy Ddrama Camfanteisio Troseddol Plant Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru newydd a gomisiynwyd.

Mewn perthynas â Diogelu Oedolion, mae Cydgysylltydd Busnes Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio gyda nifer o rwydweithiau cymunedol i gefnogi datblygiad nifer o ddeunydd codi ymwybyddiaeth am Ddiogelu Oedolion.

Roedd hyn mewn ymateb i waith a wnaed gyda'r Panel Dinasyddion yn y Rhanbarth, lle cafodd yr holiadur canlynol ei anfon allan:

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- Fyddech chi'n adnabod camdriniaeth?
- Beth ddylech ei wneud os ydych yn amau camdriniaeth?
- Lle fyddech chi'n mynd i ganfod mwy o wybodaeth ar ddiogelu a sut i adrodd arno?

- Ydych chi wedi clywed am y Byrddau Diogelu a beth ydych chi'n meddwl yw eu diben?

O ganlyniad i'r ymateb ac ymatebwyr cyfyngedig, mae'n aneglur lle i fynd i roi gwybod am gamdriniaeth, mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar ddatblygu deunydd codi ymwybyddiaeth a anelwyd at y cyhoedd.

## 12.0 Unrhyw wybodaeth neu ddysgu mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymell neu ei ddarparu;

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi ymgysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru a Byrddau Diogelu eraill ar draws Cymru i ddatblygu Fframwaith Hyfforddiant Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Yn ogystal, mae'r gwaith wnaeth ddechrau yng Ngogledd Cymru o amgylch y ddogfen Safonau ar gyfer Hyfforddwyr Diogelu wedi'i rhannu gydag aelodau'r Is-Grŵp Diogelu Gweithlu a Hyfforddiant.

Mae'r ddogfen yn rhestru safonau y dylai unrhyw swyddog sy'n delio gyda Phlentyn mewn Perygl neu Oedolion mewn Perygl gydymffurfio â nhw.

Mae hyn yn ddatblygiad pwysig yng Ngogledd Cymru, lle rydym wedi gweld asiantaethau yn comisiynu Hyfforddiant Diogelu o Loegr, lle cyfeirir at Ddeddfwriaeth Lloegr heb gydnabod y gwahaniaethau mewn deddfwriaeth Gymreig.

Yn benodol, roedd hon yn ardal a nodwyd o ddadansoddiad Anghenion Hyfforddiant y llynedd, lle amlygwyd bod Gwasanaethau a Gomisiynwyd fel Darparwyr Gofal Preswyl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r Hyfforddiant Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan ac felly'n defnyddio deunydd diogelu gan awdurdodau/asiantaethau o Loegr.

Er mwyn ymateb i'r cam hwn, mae'r Awdurdodau Lleol wedi cynyddu'r nifer o Gyrsiau Hyfforddiant Diogelu Sylfaenol yn y Rhanbarth i ateb y galw hwn.

Roedd y Comisiynydd Plant blaenorol yng Nghymru wedi amlygu'r diffyg hyfforddiant ymchwiliad ar y cyd a gynhelir yng Nghymru. Gyda chefnogaeth NWP a BCU, roedd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn gallu cynnal tri digwyddiad hyfforddiant ar y cyd amlasiantaeth.

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys y meysydd canlynol:

**Modiwl 1 –** Diogelu a'r Cyd-destun Cenedlaethol/Rhanbarthol. Canlyniadau Dysgu o'r Adolygiadau Diogelu Plant.

**Modiwl 2 –** cyfathrebu gyda phlant – datblygu sgiliau cyfathrebu gyda dioddefwyr camdriniaeth yn ystod ymchwiliad a47.

**Modiwl 3 –** Cydweithio gyda'r Heddlu – camau ar gyfer cynnal cyd ymchwiliad. Gwahaniaethau rhwng swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu mewn ymchwiliadau a47

**Modiwl 4 –** Cydweithio gyda Iechyd – datblygu plant ac effeithiau cam-drin


Uchafbwyntiau eraill yn cynnwys:

- Hyfforddiant Ymarfer Oedolion/Plant i adolygwyr
- Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant.
- Deg sesiwn hyfforddiant Dyna Ddigon yn cael eu darparu ar draws y rhanbarth
- Hyfforddiant Ymholiadau Diogelu Oedolyn Mewn Perygl wedi'i ddarparu
- Diogelwch Rhywiol mewn Wardiau Iechyd Meddwl
- Cynhadledd Ranbarthol Hunan-esgeulustod

<u>Gwefan Byrddau Diogelu Gogledd Cymru</u>




Mae datblygiad parhaus gwefan y Bwrdd Diogelu wedi gweld cynnydd mewn adnoddau a gwybodaeth ar gael, nid yn unig i weithwyr proffesiynol ond i'r cyhoedd hefyd.   Mae'r nifer o bobl sydd wedi cofrestru i dderbyn diweddariadau wythnosol ar gyfer y wefan wedi cynyddu eto yn 18/19 ac mae'r nifer o ymweliadau â'r dudalen ar y safle wedi cynyddu.



Mae creu tudalen adnoddau ar y safle ac yn arbennig cyflwyniadau power point ‘briffiadau 7 munud’ wedi bod yn arbennig o boblogaidd, gyda Byrddau ar draws Cymru yn cyfeirio at y dudalen ar eu gwefannau eu hunain.  Mae’r rhain hefyd yn cael eu defnyddio ar draws y rhanbarth gan bob asiantaeth fel ffynhonnell o wybodaeth ddefnyddiol.

Mae yna bellach dros 90 ‘briff 7 munud’ power point ar gael ar y wefan a gellir eu defnyddio i gyfeirio atynt mewn hyfforddiant, gwybodaeth i baneli corfforaethol a chyfarfodydd tîm

Mae themâu presennol fel “Smwddio Bronnau” ar gael nawr mewn fformat briff 7 munud.













# 13.0 Sut mae’r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu’r Bwrdd Cenedlaethol;

O ran y cyngor a chyfarwyddyd a roddir gan y Bwrdd Cenedlaethol, mae’r Canllaw i Ymarferwyr ar Egwyddorion Cyfreithiol Sylfaenol wedi profi’n ddogfen amhrisiadwy i bob amlasiantaeth gael mynediad iddynt.

Yn ogystal, mae’r nodyn cyngor a roddwyd i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol wedi helpu i egluro nifer o faterion fel cais Rhyddid Gwybodaeth.

Dylid hefyd nodi cefnogaeth y cynrychiolydd Bwrdd Cenedlaethol blaenorol a fynychodd y cyfarfodydd Bwrdd yng Ngogledd Cymru.   Yn ystod y cyfnod pan oedd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn ymateb i’r adroddiad HASCAS a’r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd yr Aelod o'r Bwrdd

Cenedlaethol yn cefnogi'r Cadeirydd a'r Uned Fusnes.  Rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol.

Rydym wedi ymateb i bob cais ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd rydym yn ymwneud â'r gwaith ar y Bil ynglŷn â dileu amddiffyn y gosb resymol.

## 14.0 Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu:



Effaith Cyni Cyllidol

Mae'n rhaid amlygu effaith gostyngiad arian Llywodraeth y DU ar bob Partner Bwrdd i bob asiantaeth sy'n ymwneud â gwaith diogelu. Mae asiantaethau yn gorfod cwrdd â galw cynyddol a chymhlethdod gwaith diogelu tra'n gweld gostyngiad mewn adnoddau. Mae'r effaith ar Fyrddau Diogelu wedi'i weld yn y gostyngiad mewn capasiti aelodau'r Bwrdd i ryddhau staff i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd fel darparu adolygwyr ar gyfer adolygiadau ymarfer Plant/Oedolion.

Mewn ymateb mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi comisiynu adolygu hyfforddiant ar gyfer adolygiadau Ymarfer Oedolion/Plant a hefyd comisiynu adolygwyr annibynnol i ymgymryd â'r gwaith.   Yn y tymor hir, bydd hyn yn effeithio ar adnoddau'r Bwrdd os ydym angen parhau i gomisiynu adolygwyr.

Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol



Mae'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol wedi cyfrannu at y pecynnau gwaith ar gyfer datblygu'r Gweithdrefnau Diogelu  Mae'r Bwrdd wedi'i gynrychioli ar y Bwrdd Prosiect ac mae'r Grŵp Polisi a Gweithdrefnau ar y Cyd wedi ymateb i'r ymgynghoriadau ar yr adrannau perthnasol.   Yn 2019/20, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar sicrhau bod holl bartneriaid amlasiantaethol â mynediad i'r deunydd dysgu a hyfforddiant perthnasol.

Mae'n bwysig ein bod yn cymryd i ystyriaeth y pwysau hyfforddiant ar y gweithlu yn y sector statudol yn arbennig o amgylch VAWDASV a'r gweithdai Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Diogelu mewn Ysgolion

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi gwneud diogelu mewn ysgolion yn flaenoriaeth ar gyfer 2019/20.  Mae hyn mewn ymateb i nifer o faterion ymarfer a nodwyd yn y 12 mis diwethaf.

Rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o blant yng Ngogledd Cymru sydd bellach yn derbyn addysg yn y cartref.

Niferoedd Addysg Ddewisol Yn Y Cartref

| **Ardal Awdurdod Lleol** | **Nifer o blant sy'n derbyn addysg yn y cartref** |
|---|---|
| Wrecsam | 68 |
| Sir y Fflint | 87 |
| Conwy | 115 |
| Sir Ddinbych | 85 |
| Gwynedd | 81 |
| Ynys Môn | 77 |

Mae llawer o waith wedi'i wneud mewn adrannau Addysg Awdurdod Lleol ar draws y rhanbarth i sicrhau trefniadau diogelu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Eu Haddysg Yn Y Cartref. Rydym yn aros am ganlyniad Canllawiau Llywodraeth Cymru yn 2019/20 ar Blant sy'n Derbyn eu Haddysg yn y Cartref a gobeithio y bydd yn darparu fframwaith cyfreithiol cadarn i gefnogi asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.


Fel Bwrdd rydym hefyd wedi nodi'r angen i weithio gydag Ysgolion Annibynnol yng Ngogledd Cymru i gryfhau trefniadau diogelu mewn ysgolion. Mae nifer o ysgolion annibynnol wedi eu rhestru fel elusennau ac felly mae'n hanfodol bod Llywodraethwyr Ysgol yn gallu goruchwylio trefniadau diogelu yn yr ysgolion hyn yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.


Fel Bwrdd, byddwn hefyd yn ystyried ein hymateb i'r cynnydd yn y nifer o Droseddau Cyllyll o fewn ysgolion yng Nghymru a Lloegr.

Heriau o fewn y Sector Gofal Preswyl/Nyrsio

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn parhau i ddilyn ac adolygu'r nifer o Gartrefi Gofal/Nyrsio Preswyl o fewn y broses Uwchgyfeirio Pryderon.   Gall materion ansawdd gofal gynyddu i faterion oedolyn mewn perygl.

Nifer o Gartrefi yn Uwchgyfeirio Pryderon yn ystod 2018/19






Nifer o Gartrefi Preswyl yn Uwchgyfeirio Pryderon yn ystod 2018/19

## Wylfa Newydd

Yn yr adroddiad blynyddol y llynedd, roeddem wedi amlygu'r goblygiadau diogelu posibl ar yr Orsaf Bŵer Niwclear newydd arfaethedig yn Ynys Môn. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, ymgymerwyd ag asesiad o'r effaith ar y materion Dioglu posibl. Yn Ionawr 2019, cafodd gwaith ar yr Orsaf Bŵer Niwclear ei atal. Drwy'r Awdurdod Lleol, byddwn yn parhau i fonitro unrhyw ddatblygiadau newydd posibl.

## Rhyddid Diogelu

Derbyniodd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru gyflwyniad ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019. Roedd y cyflwyniad yn amlygu'r newidiadau allweddol posibl. Bydd y Bwrdd yn aros i gyhoeddi'r Cod Ymarfer yn 2019/20 ac yn ystyried unrhyw faterion diogelu posibl a all godi.

# GEIRFA:

**IMO** Iechyd Meddwl Oedolion

**APR** Adolygu Ymarfer Oedolion

**AWCPP** Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan

**BIPBC** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**CAMH** Iechyd Meddwl Plant a Llencyndod

**CBSC** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**CHC** Gofal Iechyd Parhaus

**CPR** Adolygiad Ymarfer Plant

**CRC** Cwmni Adsefydlu Cymunedol

**CSE** Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

**DCC** Cyngor Sir Ddinbych

**LDG** Grŵp Cyflawni Lleol

**DHR** Adolygu Dynladdiad Domestig

**EAPR** Adolygu Ymarfer Oedolion Estynedig

**ECPR** Adolygu Ymarfer Plant Estynedig

**FCC** Cyngor Sir y Fflint

**GC** Cyngor Gwynedd

**HASCAS** Y Gwasanaeth Cynghori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSB** Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

**IOAC** Cyngor Sir Ynys Môn

**KPI** Dangosydd Perfformiad Allweddol

**LA** Awdurdod Lleol

**LDU** Uned Cyflenwi Lleol

**LSCB** Bwrdd Diogelu Plant Lleol

**MAPF** Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol

**MARAC** Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol

**MHLD** Anableddau Dysgu Iechyd Meddwl

**NISB** Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

**NPS** Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

**NSPCC** Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant

**NWP** Heddlu Gogledd Cymru

**NWSB** Byrddau Diogelu Gogledd Cymru

**NWSAB** Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

**NWSCB** Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

**POVA** Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

**P & P** Polisi a Gweithdrefn

**PCC** Comisiynydd Cwynion yr Heddlu

**PHW** Iechyd Cyhoeddus Cymru

**PRUDIC** Ymateb Trefniadol i Farwolaeth Annisgwyl mewn Plentyndod

**PVPU** Uned Diogelu Pobl Agored i Niwed

**SCWDP** Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol

**SERAF** Fframwaith Asesu Risg Camfanteisio'n Rhywliol

**CAMPUS** Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Realistig, Amserol

**SSWBA** Deddf Lles Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014

**T & WDG** Grŵp Datblygu Gweithlu a Hyfforddiant

**WAST** Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

**WCBC** Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**WG** Llywodraeth Cymru

**YN** Ynys Môn

## GWYBODAETH GYSWLLT A CHYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae dyletswydd ar bawb i fod yn wyliadwrus am gamdriniaeth ac esgeuluso pobl a gwybod gyda phwy y dylent rannu unrhyw bryderon.

Os ydych chi'n poeni am blentyn neu oedolyn sy'n cael ei ch/gam-drin neu ei esgeuluso, dylech rannu eich pryderon gyda'ch cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol lleol. Mae manylion wedi'u rhestru isod:

### Os bydd gennych unrhyw bryderon am blentyn:

| | |
|---|---|
| **Ynys Môn** | 01248 725888 |
| **Conwy** | 01492 575111 (Y tu allan i oriau) 01492 515777 |
| **Sir Ddinbych** | 01824 712200 (Y tu allan i oriau) 0345 053 3116 |
| **Sir y Fflint** | 01352 701000 (Y tu allan i oriau) 0345 0533116 |
| **Gwynedd** | 01766 772577 (Y tu allan i oriau) 01248 353551 |
| **Wrecsam** | 01978 292039 (Y tu allan i oriau) 0345 053 3116 |

### Os oes gennych bryderon am oedolyn:

| | |
|---|---|
| **Ynys Môn** | 01248 752752 |
| **Conwy** | 0300 456 1111(Y tu allan i oriau) 0300 123 3079 |
| **Sir Ddinbych** | 0300 4561000 (Y tu allan i oriau) 0345 053 3116 |
| **Sir y Fflint** | 01352 803444 (Y tu allan i oriau) 0345 0533116 |
| **Gwynedd** | 01766 772577 (Y tu allan i oriau) 01248 353551 |
| **Wrecsam** | 01978 292066 (Y tu allan i oriau) 0345 053 311 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **4 Chwefror, 2020** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2019/20 a'r tu draw i hynny** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2019/20<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Bellach, mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Blwyddyn Ddinesig 2019/20**: cafodd raglen waith 2019/20 y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ei chadarnhau gan y Pwyllgor ym mis Mehefin, 2019[3].

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2019/20 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf (12 Tachwedd, 2019).

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2019/20: Chwarter 4. |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| --- |
| Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → IONAWR – EBRILL, 2020**
**[Fersiwn dyddiedig 27/01/20]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Ionawr, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 23/10/19 → 13/01/20)** | **Ionawr, 2020 (21/01/20)** |
| Cynigion cychwynnol cyllideb 2020/21 | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019) |
| Cynllun Ymgynghori ar gyllideb 2020/21 | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd |
| Panel Sgriwtini Cyllid: Adroddiad Cynnydd | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Cytundeb Gwastraff |
| **Ionawr, 2020 (14/01/20)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni | |
| | |
| **Chwefror, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 03/02/20 → 27/02/20)** | **Chwefror, 2020 (04/02/20)** |
| Cynigion drafft terfynol cyllideb 2020/21 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol: 2020/24 |
| Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Llyfrgelloedd: 2018/19 (eitem er gwybodaeth) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2018/19 |
| | **Chwefror, 2020 (25/02/20)** |
| | Medrwn Môn |
| | Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | |
| **Mawrth, 2020 (09/03/20)** | **Mawrth, 2020 (10/03/20)** |
| Monitro Perfformiad Ch3: 2019/20 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | Cydweithio efo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: adroddiad cynnydd | Strategaeth Hamdden |
| Protocol Siarad Cyhoeddus – Pwyllgorau Sgriwtini | Protocol Siarad Cyhoeddus – Pwyllgorau Sgriwtini |
| | |
| **Ebrill, 2020 (06/04/20)** | **Ebrill, 2020 (07/04/20)** |
| | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol – Gwynedd a Môn |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
| --- | --- |
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: adroddiad cynnydd |

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Amlwch / Llangefni / Seiriol
Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor
Polisi Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor
Adroddiad Blynyddol GwE: 2018/19
Adolygiad Paneli Craffu